



DYMA'N GÊM NI

DYMA RYGBI CYMREIG



ANNUAL REPORT 2016

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016



CYNNWYS

RHAGOR O BOBL YN AMLACH YN MWYNHAU MWY YN LLWYDDO MWY

Neges y Llywydd	4
Datganiad y Cadeirydd	6
Crynodeb Prif weithredwr y Grŵp	8
Adroddiad strategol	12
Adroddiad gan Bennaeth Cyfranogaeth at Rygbi	20
Adroddiad gan Bennaeth Perfformiad Rygbi	24
Adroddiad gan y Prif Hyfforddwr Cenedlaethol	34
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	38
Datganiad incwm cyfunol	40
Datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr	41
Mantolenni cyfunol a mantolenni cwmni	42
Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti	43
Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti	44
Datganiad cyfunol o ffrydiau arian	45
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	46
Adroddiad yr archwilyr annibynnol	65
Llywodraethu Undeb Rygbi Cymru	67
Swyddfa gofrestredig	69
Bwrdd Cyfarwyddwyr	70
Bwrdd Gweithredol	76
Ysgrifau coffa	79
Partneriaid masnachol	82

NEGES Y LLYWYDD



Dennis Gethin



Mae wedi bod yn flwyddyn ddiddorol unwaith yn eto i rygbi Cymru, gydag wyth gêm Cwpan Rygbi'r Byd wedi eu cynnal yn Stadiwm y Principality, perfformiadau trawiadol gan ein tîm cenedlaethol, digon i'w mwynhau ar y cae a rhai penodiadau newydd sylweddol yn URC.

Rydym wedi croesawu Ryan Jones, Geraint John a Mark Killingley i'r Bwrdd Gweithredol. Hoffwn hefyd estyn fy nioch ffurfiol i Brif Weithredwr ein Grŵp, Martyn Phillips, ar gyfer popeth sydd wedi ei gyflawni ers iddo ymgymryd â'r swydd mis Tachwedd y llynedd.

Mae Martyn wedi ffurfioli'r strategaeth ar gyfer dyfodol ein gêm genedlaethol. Mi wn ei fod yn strategaeth sy'n seiliedig ar waith ymchwil drylwyr ac mae wedi eu hadolygu a'u mireinio dros y 10 mis diwethaf gan sicrhau ei fod yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Hoffwn hefyd estyn diolch ffurfiol i Gareth Davies, ein Cadeirydd, am ei arweiniad dros dymor y llynedd, ei ymroddiad, ei waith caled a'i ymdrech wrth i ni ymdrechu i foderneiddio a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithredu ar lefel y Bwrdd a thu hwnt er budd gorau ein gêm genedlaethol.

Fel yr wyf wedi dweud droeon, clybiau yw calon ac enaid rygbi Cymru ac mae'n hanfodol bod pop dim sy'n bosibl yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y gêm yn ffynnu ar lefel llawr gwlad.

Mae'n anrhydedd i ddal y swydd o Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Rygbi Cymru ("WRCT"). Unig bwrpas yr ymddiriedolaeth yw ceisio gwella ansawdd bywyd chwaraewyr a theuluoedd chwaraewyr sydd wedi eu heffeithio gan anaf trychinebus mewn perthynas â'u hamser yn ymwneud â'r gêm. Hoffwn ddiolch i'r rheiny yn URC yn ogystal â'r holl glybiau a sefydliadau sy'n rhoi yn ariannol i'r ymddiriedolaeth gwerth chweil hon. Bu nifer o fentrau codi arian gan URC a chlybiau yn ogystal y tymor hwn, sydd wedi cyfrannu'n werthfawr i'r ymddiriedolaeth. Byddwn wrthi yn rhy hir yn ceisio enwi'r cyfranwyr unigol hyn, ond digon yw dweud bod y sefydliad yn cynnig neges o ddiolchgarwch diffuant i chi ac rwy'n siŵr y byddai pawb sydd wedi elwa o'ch cyfraniad yn cynnig yr un neges.

Rydym yn galaru marwolaeth ein cyn is-gadeirydd Ken Hewitt ac yn diolch iddo am ei gyfraniad aruthrol i rygbi Cymru.



Bu farw'r cyn chwaraewyr Trevor Lloyd, Alan 'Algy' Thomas, Terry Cook, Graham Powell, Grahame Hodgson ac Emlyn Davies dros y 12 mis diwethaf a byddwn yn gweld eisiau pob un ohonynt.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu farw cyn is-gadeirydd ac aelod o'r IRB Les Williams. Roedd Les yn allweddol yn y broses o newid llywodraethu URC yn y 1990au cynnar ac roess ei gyfraniad i rygbi Cymru yn un sylweddol.

Hoffwn ddiolch i Humphrey Evans, Russell Howell, Mal Beynon a Ken am eu cyfraniadau dros y blynyddoedd yn ystod eu cyfnod yn eu swyddi. Hoffwn hefyd groeso Rob Butcher, Gwyn Bowden, Ian Jeffrey a Bryn Parker fel aelodau newydd y Bwrdd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i - Bwrdd Gweithredol URC a'i holl staff sy'n gweithio'n galed, y rhai sy'n gweithio'n ddiflino ar lefel rhanbarthol a chlwb y gêm ar hyd a lled y wlad,

chwaraewyr, gwirfoddolwyr, hyfforddwyr, gweinyddwyr a'r cefnogwyr sy'n galluogi rygbi i ffynnu ar bob lefel.

Rwy'n diolchgar i bawb am eu cyfraniad at ein gêm genedlaethol dros gyfnod y llynedd ac yn cynnig fy nymuniadau gorau ar gyfer y tymor sydd i ddod.

Yr eiddoch yn rygbi

Dennis Gethin OBE

Llywydd
Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig

DATGANIAD Y CADEIRYDD



Gareth Davies



Yn ystod haf y llynedd aeth Cymru ar daith o gwmpas Seland Newydd a chwarae tair gêm brawf yn erbyn buddugwyr presennol Cwpan Rygbi'r Byd. O ystyried y ffeithiau moel, dychwelyd adref o'n taith i Hemisffer y De yn waglaw a wnaethom i bob golwg, heb sicrhau o hyd y fuddugoliaeth hirddisgwyliedig honno ar y Crysau Duon gartref.

Ond wrth gwrs, ni cheir hanes llawn yr ymgyrch benodol hon yn y golofn colli/ennill.

Ar y cae, gymerodd tîm Warren Gatland gamau breision ymlaen, gan sgorio mwy o geisiau ar dir Seland Newydd na'u rhagflaenwyr a pharhau'n agos at y llinell ennill am o leiaf dwy o'r tair gêm.

Oddi ar y cae, roedd Prif Weithredwr y Grŵp, Martyn Phillips, a minnau yn benderfynol o ddysgu gan ein cymheiriaid yng ngwlad y Ciwis.

Aethom ati i gyfnewid syniadau'n iach ar unrhyw bwnc o lywodraethu a strwythur y tymor i ddyfodol hirdymor y gêm, cadw a lles chwaraewyr, hyfforddi a llwybrau a busnes chwaraeon.

Ffocws ar sgiliau craidd, alinio yn ein Rhanbarthau a'n clybiau, arweinyddiaeth a llywodraethu a strwythurau datblygu chwaraewyr yw rhai o'r meysydd allweddol lle mae ein dwy

genedl yn rhannu uchelgais a gwelir ffrwyth ein trafodaethau yn y misoedd nesaf wrth i strategaeth y Grŵp ar gyfer dyfodol y gêm gael ei chyflwyno.

Ceir cyfres arall o ganlyniadau ariannol arbennig lle lleihawyd y ddyled net yn y banc i £11.0miliwn, cynyddodd trosiant o £64.8miliwn i £73.3miliwn a chyfanswm y buddsoddiad yn rygbi Cymru wedi cynyddu o £29.7miliwn i £33.1miliwn.

Y tymor hwn rydym hefyd wedi croesawu Cymdeithas Adeiladu Principality yn noddwr teitl ein cae cenedlaethol – Stadiwm Principality.

Cynhaliwyd wyth gêm yn rhan o Gwpan Rygbi'r Byd yn 2015 ac roedd Cymru unwaith eto yn destun balchder i'r wlad ar ôl cyrraedd rownd yr wyth olaf y gystadleuaeth, er bod y garfan yn parhau i ymdrechu i wneud yn well byth.

Roedd Dydd y Farn yn llwyddiant ysgubol unwaith eto, wrth i ni geisio cynyddu'r digwyddiad a sicrhau capasiti o 74,500 ar gyfer yr achlysur bob blwyddyn gyda'r ddwy gêm fawr bob blwyddyn yn Stadiwm Principality, digwyddiad sydd wedi dod yn un symbolaidd i Undeb Rygbi Cymru a'r Rhanbarthau.

Yr un yw nod ein hyfforddwyr, sef llwyddiant ar y cae ac rydym yn cydweithio'n fwy nag erioed o ran arddulliau hyfforddi a chwarae, lles myfyrwyr ac o ran cyfnewid syniadau, yn ogystal



â pharhau i feithrin y berthynas gadarnhaol dros ben sydd gennym oddi ar y cae.

Mae'r cyfnod hefyd yn gyfnod cyffrous i Uwchgynghrair y Principality, gyda strwythur newydd ar waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a phopeth yn y fantol.

Buddsoddiwyd £5.9miliwn, sef cynnydd o £0.5miliwn, yng nghlybiau'r Uwchgynghrair a'r gêm gymunedol, a gyda'r holl arian yn cael ei ailfuddsoddi yn y gêm, llwyddwyd i gadw elw ar ôl treth o £0.1miliwn yn unig.

Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr ar gêm menywod yng Nghymru, rydym ni hefyd wedi gwneud rhai newidiadau i wneud rygbi'n fwy atyniadol i ferched. Bydd modd i ferched chwarae rygbi bach ac iau i ferched yn unig mewn ysgolion ac yn eu cymunedau ar ffurf sy'n gweddu i'r modd yr hoffant chwarae.

Rydym hefyd am ddiolch i'n partneriaid darlledu, yn enwedig y BBC a S4C, a'n holl bartneriaid masnachol, awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru. Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni popeth a wnaed heb gefnogaeth barhaus y grwpiau allweddol hyn a chynigiwn gydnabyddiaeth lawn iddynt am y cymorth hwnnw.

Croesawaf aelodau newydd y Bwrdd Gwyn Bowden, Bryn Parker, Ian Jeffrey a Rob Butcher, a ddechreuodd delerau newydd y llynedd gan edrych ymlaen at ragor o ddirnadaeth ac ysbrydoliaeth gan bymtheg aelod ein Bwrdd leuenctid sydd newydd ei ethol, wrth iddo ddechrau ar ei ail dymor yn y swydd.

I gloi, hoffwn hefyd ddiolch o galon i'm cydaelodau ar y Bwrdd, y Bwrdd Gweithredol a holl staff y Grŵp ynghyd â phawb arall sy'n rhan o'n gêm ni, ar y cae ac oddi arno, ar lawr gwlad ac ar begwn elit y gêm

Dymuniadau gorau i bawb ar gyfer y tymor sydd ar ddod.

Gareth Davies
Y Cadeirydd
Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig

CRYNODEB PRIF WEITHREDWR Y GRŴP



Martyn Phillips



Dyma fy nghyfle cyntaf i gyfrannu at Adroddiad Blynyddol Grŵp URC ac roeddwn am ddechrau drwy ddiolch i'r Bwrdd am y cyfle i ymgymryd â'r rôl. Mae'r rôl hon yn fraint ac yn gyfrifoldeb. Fy mwriad yw gwasanaethu ein holl randdeiliaid hyd eithaf fy ngallu ac i fynd ati i arwain llwyddiant y gêm trwy Gymru gyfan yn y byr-dymor a'r hir-dymor.

Yn bennaf, yn ystod fy 10 mis cyntaf yn y swydd rwyf wedi mynd ati i gwrdd a gwrandao ar yr ystod eangach posib o randdeiliaid. Rwyf wedi cwrdd â phobl ddi-ri sy'n ymwneud â rygbi - cefnogwyr, chwaraewyr, hyfforddwyr, meddygon, gwirfoddolwyr a phartneriaid masnachol. Rwyf hefyd wedi ymgynghori'n eang â chenhedloedd rygbi eraill, Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a gydag arweinwyr meysydd chwaraeon eraill. Er bod hi'n glir bod barn yn amrywio'n fawr, sy'n beth iach wrth gwrs, y peth sy'n ein huno yw ein cariad at y gêm a'r ffaith bod rygbi yn symboleiddio Cymru ac ein bod ni i gyd gofalu'n fawr am sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r gêm.

Y diben tu ôl i fy awydd i wrando ar ystod eang o randdeiliaid oedd i sicrhau bod y strategaeth a chynllun sydd gennym ar waith eisoes yn rhai yr ydym i gyd yn teimlo y gallwn ymwneud â nhw ac i sicrhau bod nifer wedi cael y cyfle i gyfrannu atynt. Yr hyn sydd wedi fy nharo yw bod yna densiynau sy'n cystadlu'n naturiol tu fewn i'n gêm a dyma beth sydd angen i ni datrys. Rhan allweddol o fy rôl yw sicrhau bod gennym gêm amatur a phroffesiynol iach er mwyn tyfu rygbi dynion a rygbi merched, bod gennym dîm cenedlaethol llwyddiannus yn ogystal â Rhanbarthau Llwyddiannus. Mae rhaid sicrhau bod gennym nifer iach o oedolion a phlant sy'n cymryd rhan yn y gêm er mwyn sicrhau perfformiad cadarnhaol yn y byr a hir-dymor ac i dyfu'r gêm 15 pob ochr yn ogystal â ffurfiau amgen y gêm. Mae hefyd rhaid sicrhau

sefydlogrwydd ariannol, ein bod yn buddsoddi yn nyfodol y gêm ac yr ydym yn gwneud y penderfyniadau cywir heb ots os ydynt yn boblogaidd neu'n amhoblogaidd. Mae rhaid anrhydeddu ein hanes ac i gydnabod bod angen i'r gêm ailddyfeisio ei hun er mwyn denu a chadw diddordeb y cenedlaethau iau ar ac oddi ar y cae. Ni fyddwn bob amser yn ei chael hi'n iawn ond mae'n bwysig ein bod yn dangos ein bod yn cydnabod y tensiynau hyn ac yr ydym yn dangos parodrwydd i'w rheoli.

Yr wyf yn falch o ddatgan bod gennym strategaeth a phwrpas clir i Rygbi Cymru o ganlyniad i'n hymgyngoriadau eang a gefnogwyd gan arolygol. Hoffwn dynnu sylw at rhai elfennau o'n strategaeth yma.

Mae gennym ddiben clir a dyna pam yr ydym yn bodoli fel sefydliad:

Rhagor o bobl, yn amlach, gyda mwy o fwynhad a mwy o lwyddiant

Ein diben yw gwneud hyn yn bosib ac i annog cymaint o bobl ag sy'n bosib ymwneud â'r gêm boed yn wirfoddolwyr, cefnogwyr, chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr, partneriaid masnachol neu'n feddygon. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Rydym hefyd am i randdeiliaid allweddol ymgysylltu â'r gêm yn amlach. Wrth gwrs, mae dydd y gêm yn bwysig ond rydym am fod 'wrthi o hyd' Rydym am i glybiau fod yn endidau bywiog sy'n galluogi ymgysylltiad dyddiol ac yr ydym am ddefnyddio sianeli cyfryngau digidol a chymdeithasol er mwyn cysylltu 24awr y dydd, 7 dydd yr wythnos.

Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf yn ymgysylltu â rygbi ar gyfer mwynhad. Rydym yn ymwybodol bod rygbi yn gamp gymdeithasol a bod clybiau yn aml wrth galon cymunedau.



Rydym am fod yn faes chwaraeon sy'n galluogi mwynhad i'r teulu i gyd.

Rydym hefyd yn gwybod mai ond ennill sy'n bwysig i rai. Mae ennill yn rhan ganolog o chwaraeon ac yr ydym am ei gwneud hi'n bosib i unigolion a thimau ennill mwy yn amlach o ganlyniad i'n hymdrechion. Rydym hefyd yn cydnabod y balchder y mae'r genedl yn teimlo pan fydd ein timau cenedlaethol yn ennill ac rydym am wneud y profiad hwnnw yn un rheolaidd.

Mae gennym chwe elfen clir i'n strategaeth:

1. Undod ac aliniad

Mae rygbi Cymru yn cyd-fynd ar bob lefel. Mae gennym bwrpas cyffredin, nodau cyffredin, perthnasoedd iach a strwythurau iach sy'n sail i strwythur rygbi llwyddiannus. Bydd yna anghytundebau yn codi ond byddwn yn eu datrys ac yna yn cytuno ar ffordd ymlaen ar y cyd. Byddwn yn canolbwyntio ar atebion a'r dyfodol.

2. Profiad chwaraewyr

Rydym yn ymroi i gefnogi pob chwaraewr ar bob lefel y gêm a thu hwnt. O ganlyniad, mae ein chwaraewyr yn dewis aros yng Nghymru, mae ein timau yn 'ennill' ar bob lefel ac rydym yn cyfoethogi'r profiad ar gyfer y rhai sy'n chwarae am fwynhad yn unig.

3. Profiad cefnogwyr

Rydym yn "cysylltu" â'n cefnogwyr mewn ffordd sydd heb ei thebyg. Rydym yn defnyddio cyfryngau prif ffrwd, cymdeithasol a digidol i alluogi ymgysylltiad dyddiol hyd at sicrhau bod ein stadia a'n tiroedd yn darparu "profiad eithriadol i gefnogwyr". Rydym yn anelu at wella rygbi fel nwydd i gefnogwyr - Rydym yn y diwydiant adloniant.

4. Cynnydd mewn cyllid, cwmp mewn costau

Mae rhagor o bobl yn dod i gefnogi ein timau, yn amlach ac o ganlyniad mae'r 'partneriaid masnachol gorau' am weithio gyda rygbi Cymru. Rydym yn edrych am synergeddau cost ar draws pob lefel o rygbi yng Nghymru. O ganlyniad, rydym yn creu mwy o fuddsoddiad ar gyfer y gêm.

5. Ein pobl

Mae gennym agwedd 'dim cyfaddawd' at dalent. Rydym yn canolbwyntio ar recriwtio, datblygu, cynnwys a chydio ar y dalent ar gyfer rolau hanfodol rygbi Cymru ar bob lefel.

6. Y tu hwnt i rygbi

Mae gennym gyfrifoldeb y tu hwnt i rygbi i fod yn esiampl dda er mwyn wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymdeithas yng Nghymru ac i helpu i ddiffinio Cymru fel cenedl. Rydym yn deall beth mae darnau gwahanol o'r boblogaeth yn edrych amdano ac o ganlyniad mae gweithgaredd corfforol yn tyfu. Rydym yn cyd-weithio gyda meysydd chwaraeon eraill yng Nghymru er mwyn chwarae ein rhan yn y broses o wneud ein cenedl yn falch.

Mae ein strategaeth wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae gennym gynlluniau manwl yn eu lle, adnoddau a ddyrannwyd ac rydym wedi blaenoriaethu ein buddsoddiad sydd ar gael er mwyn dechrau gweithredu. Mae gennym gynlluniau clir i roi'r systemau a strwythurau ar waith i gyflawni'r strategaeth hon.

Wrth ystyried blwyddyn ariannol 2016, mae'n bwysig pwysleisio ein bod ni wedi mynd ati i adeiladu ar yr hyn yr oedd yn gweithio i Rygbi Cymru, gwella'r hyn yr oedd angen a dechrau llenwi bylchau ein strategaeth.

CRYNODEB PRIF WEITHREDWR Y GRŴP



Llwyddiannau allweddol blwyddyn ariannol 2016 y byddwn yn adeiladu arnynt:

- Cymeradwyaeth ar gyfer ein diben tymor hir, gwerthoedd a strategaeth
- Y tîm cenedlaethol yn cyrraedd rownd yr wyth olaf yng Nghwpan Rygbi'r byd ("CRB15") ac yn gorffen yn ail ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad
- Gwerthwyd pob tocyn ar gyfer ein tair gêm gartref ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad am y tro cyntaf ers 2008.
- Cynhaliom wyth gêm CRB15 gyda chefnogwyr yn nodi profiad cadarnhaol.
- Dewiswyd Nigel Owens i ddyfarnu gêm derfynol CRB15
- Cyfranogiad Gareth Williams a Ritchie Pugh fel hyfforddwyr ar dîm saith bob ochr tîm PF yng ngemau Olympaidd Rio
- Jasmine Joyce, Sam Cross a James Davies yn cael eu dewis i fod yn rhan o dîm rygbi saith bob ochr PF ar gyfer gemau Olympaidd Rio
- Y Sefydlu o berthynas gweithio agos gyda'n Rhanbarthau a'n timau rygbi yn yr Uwch Gynghrair
- Tîm D20 Cymru yn ennill y gamp lawn ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.
- Y ffocws ychwanegol ar rygbi cymunedol sydd wedi bod ers penodiad Ryan Jones fel Pennaeth Cyfranogiad mewn Rygbi a phenodi Geraint John fel Pennaeth Perfformiad Rygbi gyda mwy o ffocws ar rygbi proffesiynol
- Dyrchafiad Merthyr, Abertawe, Bargoed a RGC 1404 i uwch gynghrair y Principality.
- Twf parhaus yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn rygbi drwy'r rhaglen Hwb Clwb-Ysgol

- Ffurfiad timau Clwstwr Merched, a drefnwyd yn yr haf ac sy'n gyrru cynnydd cyflym mewn cyfranogiad merched
- Y darpariad o well yswiriant i glybiau a chwaraewyr.
- Adnewyddiad ein partneriaeth gydag Under Armour a'n partneriaeth enwi stadiwm newydd gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality
- Perfformiad ariannol da gyda throsiant yn cynyddu o £64.8miliwn i £ 73.3miliwn, dyled banc net yn gostwng o £ 14.2miliwn i £ 11.0miliwn gydag elw a gadwyd ar ôl treth o £ 0.1miliwn
- Cynyddwyd y cyfanswm o'n buddsoddiad mewn rygbi Cymru o £29.7miliwn i £33.1miliwn gydag ystyriaeth ar gyfer pob lefel o'r gêm wrth fuddsoddi.
- Ail-fuddsoddiad llawn o'n helw i nol i fewn i rygbi

Y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt ym mlwyddyn ariannol 2017 er mwyn gwella:

- Perthynas waith agosach rhwng timau hyfforddi Cenedlaethol, Rhanbarthol, a Grwpiau Oedran cenedlaethol.
- Cyrraedd ein safle gorau posib yn safleoedd Rygbi'r Byd, gydag uchelgais i esblygu ein gêm a gwella ein record yn erbyn ochrau'r hemisffer y de i'r dynion ac i berfformio hyd ein llawn botensial yng Nghwpan y Chwe Gwlad a Byd ar gyfer y merched
- Cydweithio â'r Rhanbarthau ar ac oddi ar y cae er mwyn gwella perfformiad ein Rhanbarthau yn y Pro12 ac Ewrop
- Gweithio gyda'r Rhanbarthau er mwyn cynyddu presenoldeb trwy ymgysylltu â'u holl glybiau a chefnogwyr yn sydd yn eu dalgyllch
- Canolbwyntio ar ffurfiau amgen o rygbi, er enghraifft 7 pob ochr, cyffwrdd a tag
- Cynyddu buddsoddiad a ffocws ar rygbi 7 bob ochr a rygbi merched, yn bennaf drwy gynig cymorth hyfforddi, gan arwain at well perfformiad ar y cae a mwy o gyfranogiad
- Gweithio'n agos gyda'r clybiau Uwch Gynghrair a'r Bencampwriaeth i gyflwyno cynghrair bywiog a chystadleuol ac i sicrhau bod yr elfennau hanfodol hyn o ein pyramid rygbi yn ffynnu
- Parhau i weithio â'n clybiau i ddarparu a datgloi cyllid er mwyn gwella cyfleusterau ar draws y gêm, ar ac oddi ar y cae
- I adolygu'r Cynghreiriau Cenedlaethol yn gyson er mwyn sicrhau bod gan glybiau sy'n chwarae o fewn y cystadlaethau yng Nghymru amserlen fywiog o gemau trwy gydol y tymor

- Ffocws o'r newydd ar rygbi ieuenctid, rygbi ail dîm, cystadlaethau ysgol a gwyliau rygbi
- Gweithredu ein cynllun i fod yn fwy dwyieithog wrth gyfathrebu
- Parhau i roi sylw i'r defnydd o gyffuriau mewn rygbi

Gwaith newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n gorffen yn 2017

- Sicrhau bod y Strategaeth Gymunedol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ac arweinir gan Ryan Jones yn cael ei chyflawni - mae'r strategaeth yn ymwneud â rygbi amatur, cymunedau a'r clybiau ledled Cymru sy'n anadl einioes ein gêm
- Sicrhau bod y pwyllgorau a byrddau sy'n rheoli ein gêm yn gynrychioliadol, gan ddeall anghenion y grwpiau amrywiol yr ydym yn anelu at gael nhw i ymwneud â rygbi
- Ffocws a buddsoddiad ychwanegol mewn hyfforddiant ar bob lefel
- I yrru a hyrwyddo ein strategaeth i gael sail o glybiau cymunedol bywiog ledled Cymru trwy lansiad Safonau Rygbi Cymru
- Lansio ein strategaeth digidol
- Ehangu defnydd stadiwm y Principality er mwyn creu incwm ychwanegol.
- Cyd-weithio'n agos gyda chwaraeon eraill yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru i wella cyfleusterau chwaraeon ac i gyfrannu at lwyddiant Cymru fel cenedl chwaraeon
- Cyfrannu at gymdeithas Cymru trwy ddefnyddio rygbi i hyrwyddo ymarfer corff
- Sicrhau gêm derfynol llwyddianus i Gynghrair Pencampwyr UEFA yn Stadiwm y Principality
- Ail-lansio'r brand i sefydlu rygbi Cymru fel brand chwaraeon byd-eang ac un sy'n adlewyrchu'r rôl hanfodol y mae pob lefel o rygbi yng Nghymru yn chwarae yn ein llwyddiant.
- Gweithredu ein rhaglen alltudion rugby.

Nid yw'r crynodebau uchod yn gynhwysfawr ond maent yn cynnig blas o'n cyfeiriad.

Yn olaf, mae'n bwysig ein bod ni'n datgan sut rydym yn mynd ati i arwain. Rydym yn cydnabod bod cymdeithas wedi newid. Mae ein rhanddeiliaid yn chwilio am ysbrydoliaeth, tryloywder, gonestrwydd, ymglymiad ac empathi. Rydym yn bwriadu sicrhau ein bod yn gwrandao'n galed ar farn ein rhanddeiliaid, yr ydym yn ystywyth, mae gennym y dewrder i wneud y penderfyniadau beiddgar os yw'n iawn i rygbi ac i gymryd golwg tymor hir i adeiladu dyfodol cynaliadwy.

Ni fyddwn byth y genedl mwyaf ond gallwn ddefnyddio ein brwdfrydedd dros rygbi a'n hagosrwydd at ein gilydd i'n



mantais. Rwy'n annog pob un ohonom i anghofio'r gorffennol i raddau ac i adeiladu dyfodol egniol gyda'n gilydd. Mae cymdeithas a'r gêm yn newid ac mae rhaid i ni gyd-fynd â'r newid hwn. Nid oes gwadu ein bod ni wedi gwneud camgymeriadau yn y gorffennol ac y byddwn yn gwneud rhai yn y dyfodol hefyd. Rwy'n addo i'n holl rhanddeiliaid y byddwn yn canolbwyntio ar atebion a'r dyfodol gan wneud pob dim sydd angen er mwyn sicrhau dyfodol balch i rygbi yng Nghymru. Rydym yn credu yn ein strategaeth ac rydym yn bwriadu ei gweithredu.

Mae gennym gymaint o unigolion, timau, cymunedau a phartneriaethau rhagorol yn rygbi Cymru. Mae gennym gymaint i'w dathlu eisoes a dathlu y byddwn ni. Byddwn hefyd yn gweithredu ag uchelgais, agwedd optimistaidd a realistig ac, yn fwyaf pwysig, byddwn yn cyflawni ein pwrpas, sef - 'rhagor o bobl, yn amlach, gyda mwy o fwynhad a mwy o lwyddiant'.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Gareth Davies, aelodau'r bwrdd, aelodau'r bwrdd gweithredol a chlybiau proffesiynol ac amatur Cymru am eu croeso cynnes.

Martyn Phillips
Prif Weithredwr y Grŵp

ADRODDIAD STRATEGOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH
I BEN 30 MEHEFIN 2016



Steve Phillips



Busnes ac amcanion y Grŵp Gweithgareddau y Grŵp

Prif weithred a bwriad Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig ("Y Cwmni") yw hyrwyddo rygbi ac annog rhagor o bobl i ymwneud â'r gêm yn amlach a gyda mwy o fwynhad a llwyddiant. Mae'r Cwmni yn eiddo ar fwyaf o Millennium Stadium plc ("MS"), Canolfan Ragoraeth Cenedlaethol URC Cyf ("WRUNCE"), a Chlwb Cefnogwyr URC Cyf ("WRUSC"). Mae'r cwmni hefyd yn eiddo ar 83.5% o'r cwmni Profiad Stadiwm y Mileniwm Cyf ("MSEL") ac o achos gradd y rheolaeth mae gennym fel cwmni, ystyrir MSEL fel is-gwmni. Cyfeirir at y cyfanwaith o'r Cwmni ac is-gwmniau hyn fel y Grŵp.

Dangosiadau allweddol o berfformiad ("KPIs")

Dangosiadau allweddol o berfformiad y Grŵp yw:

Cyfranogiad at rygbi

- Y nifer sy'n ymwneud â Rygbi Cymunedol, gan gynnwys dynion, menywod ac aelodau iau.

Dangosir dadansoddiad o berfformiad y Grŵp yn erbyn y mesuriadau hyn yn adroddiad Pennaeth Cyfranogiad at Rygbi sydd i'w ddod yn yr adroddiad hwn.

Perfformiad Rygbi

- Llwyddiant y Timau Cenedlaethol – Dynion, Merched a 7 pob ochr.
- Perfformiad pedwar Rhanbarth Cymru
- Perfformiad o dimau sail oedran y Grŵp

Dangosir dadansoddiad o berfformiad y Grŵp yn erbyn y



mesuriadau hyn yn adroddiad Pennaeth Cyfranogiad at Rygbi sydd i'w ddod yn yr adroddiad hwn.

Perfformiad ariannol

- Cynhyrchiant o enillion digonol cyn llog, dibrisiant, amorteidddiad, dyraniadau ac eitemau eithriadol ("EBITDA"), yn y tymor canolig, er mwyn cyflawni prif weithgarwch y Grŵp a'r prif amcan.
- Y nifer o gemau rygbi rhyngwladol sy'n cynnwys y Tîm Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Stadiwm y Principality a'u ffigyrau presenoldeb.
- Darparu lefelau cyson a fforddiadwy o gyllid i glybiau a sefydliadau cysylltiedig i'w galluogi i weithredu cynlluniau tymor hir i gyflawni eu hamcanion

Dangosir dadansoddiad o berfformiad y Grŵp yn erbyn y mesurau ariannol hyn isod.

Strategaeth ariannol

O ganlyniad i ail-ariannu ym mis Mehefin 2015, mae asedau net y Grŵp wedi cynyddu'n sylweddol a gwellwyd cyfamodau ariannol y trefniant o blaid y Grŵp. O ganlyniad ac o ystyried y newidiadau hyn, mae'r Grŵp wedi gwneud penderfyniad bellach i geisio ail-fuddsoddi mwy o'n helw i'r gêm yn hytrach na'i gadw er mwyn gwella asedau net.



Penawdau y perfformiad ariannol – Y flwyddyn a ddaeth i'w ben yn 2016 v Y flwyddyn a ddaeth i'w ben yn 2015

Mae'r canlynol yn dangos y canlyniadau sy'n deillio o'r newidiadau ariannol a amlinellwyd uchod:

	Nodyn	2016 £'m	2015 £'m
Trosiant	1	73.3	64.8
Ail-fuddsoddiad i'r gêm	2	33.1	29.7
Elw a gadwyd am y flwyddyn	3	0.1	12.1
Dyled banc net	4	11.0	14.2

Nodyn:

1. Cynydd sylweddol mewn trosiant
2. Penderfyniad strategol i gynyddu ail-fuddsoddi yn y gêm; gyrrwyd yn rhannol gan gynydd mewn trosiant
3. O ystyried y cynnydd mewn ail-fuddsoddi, cadwyd llai o elw gan y Grŵp; Hefyd, mae'r flwyddyn a ddaeth i ben yn 2015 yn cynnwys tua £10.0miliwn o incwm eithriadol nad yw'n ailddigwydd sy'n codi o ail-ariannu ym Mehefin 2015.; ac
4. Er gwaethaf y cynydd mewn ail-fuddsoddi, fe gostyngwyd dyled net y Grŵp

Lletygarwch – Profiad Stadiwm y Principality ("MSEL")

Dyma flwyddyn lawn gyntaf o fasnachu MESL, gyda'r cwmni yn dechrau masnachu yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2015. Mae MSEL yn gweithredu'n dda. Dangosir holl gydrannau a symudiadau allweddol isod.

	2016 £'m	2015 £'m
Incwm lletygarwch ac arlwyio	11.4	8.2
Costau lletygarwch ac arlwyio	(6.0)	(3.6)

Er ei fod yn galonogol bod cynyddiad wedi bod yn incwm lletygarwch ac arlwyio y Grŵp, wrth ystyried cyfanswm incwm y Grŵp a'r cynydd yng nghostau lletygarwch ac arlwyio sy'n ymwneud â'r cynhyddiant mewn incwm, bydd EBITA/Trosiant y Grŵp yn lleihau o achos ein cynydd yn y rhan hwn o'r Grŵp. Bydd y Grŵp yn ail-edrych ar, ac yna'n diwygio ei gymarebau targed er mwyn adlewyrchu hyn.

Deinameg y busnes

Mae'r gweithgareddau, gweithredol ac ariannol, o bob cwmni y Grŵp wedi eu cysylltu'n mor agos lle nad oes rinwedd mewn

asesu eu perfformiad ar sail unigol. Er eu bod i gyd endidau cyfreithiol ar wahân ac mae rhaid iddynt baratoi datganiadau ariannol unigol, ond perfformiad y Grŵp fel cyfanwaith yw'r unig fesur arwyddocaol o berfformiad.

Mae'n rhaid i'r Grŵp cyflawni ei weithgareddau masnachol yn llwyddiannus er mwyn caniatáu ail-fuddsoddi mewn rygbi cymunedol, rygbi proffesiynol a Stadiwm y Principality.

Yn unol â hynny, mae gallu'r Grŵp i gynhyrchu incwm yn hollbwysig er mwyn iddi allu cyflawni ei brif weithgarwch a'i brif amcan. Gyrrwr incwm economaidd allweddol busnes y Grŵp yw'r cynnal o ddigwyddiadau yn Stadiwm y Principality; yn arbennig, y cynnal o ddigwyddiadau rygbi rhyngwladol sy'n cynnwys tîm Cymru, yn enwedig tîm Cymru fuddugol. Po fwyaf nifer y gemau sy'n cael eu chwarae, po fwyaf refeniw y Grŵp sydd ar gael i'w ail-fuddsoddi i rygbi Cymru. Croesawodd y Grŵp 346,000 (2015: 395,000) o wylwyr rygbi i Stadiwm y Principality ar gyfer cyfres haf Dove ar gyfer dynion a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad RBS. Dadansoddir y rhain fel a ganlyn

	2016 Nifer. o cartref gemau	2016 '000	2015 Nifer. o cartref gemau	2015 '000
Cyfres yr haf	2	126	-	-
Cyfres yr hydref	-	-	4	247
Y Chwe Gwlad	3	220	2	148
	5	346	6	395



ADRODDIAD STRATEGOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH
I BEN 30 MEHEFIN 2016



Cyfartaledd presenoldeb pob gêm oedd 69,000 (2015: 66,000) sy'n cyfateb i gyfartaledd o 93% (2015: 89%) lle'i fynegir fel mesur o bresenoldeb capasiti.

Prif reswm y cwmp ym y ffigwr presenoldeb cyffredinol oedd i ni chwarae pum gêm gartref eleni i'w cymharu â chwech yn 2015.

Yr incwm a dderbyniwyd ar gyfartaledd ar gyfer mynychwr unigol i gêm a gynhaliwyd yn Stadiwm y Princeplaity ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i'w ben yn 2016 oedd £39 (2015: £47).

Mae incwm masnachol ac incwm lletygarwch hefyd yn hanfodol i berfformiad ariannol y Grŵp.

O fewn rheswm, mae sylfaen gostau gweithredol y Grŵp yn gymharol sefydlog; er fe geir costau ychwanegol lle cynhelir mwy o ddigwyddiadau a rhedir a llwyfannir gan y Grŵp. O ganlyniad, dylai digwyddiadau cynyddol olygu elw cynyddol y gellir ei ail-fuddsoddi i mewn i'r gêm ar draws pob lefel.

Perfformiad ariannol

Trosolwg o'r perfformiad

Mae'r Grŵp yn cynhyrchu incwm o'i gemau rhyngwladol (gan gynnwys nawdd a hawliau darlledu) a refeniw cynyddol sy'n deillio o'r defnydd o Stadiwm y Principality. Mae'r incwm hwn yn bodloni costau gweithredu y Grŵp er mwyn caniatáu i'r

rhan fwyaf o'r arian sy'n weddill i gael ei "fuddsoddi" yn "rygbi Cymru", fel a ganlyn:

	2016 £'m	2015 £'m
Incwm y Grŵp	73.3	64.8
Busnes a gweinyddu	(7.1)	(6.7)
Costau lletygarwch ac arlwy	(6.0)	(3.6)
Costau uniongyrchol	(16.8)	(11.7)
Costau Stadiwm	(5.3)	(5.4)
Arian sy'n weddill	38.1	37.4

Fel y dadansoddir yn ddiweddarach ar dudadlen 15, enillodd y Grŵp rhyw £73.3miliwn (2015: £64.8miliwn) yn bennaf o gemau rygbi rhyngwladol a lwyfannwyd yn Stadiwm y Principality. Cynhyrchodd y gemau hyn 39% (2015: 55%) o incwm llawn y Grŵp.

Mae incwm masnachol o £12.3miliwn yn 17% (2015: 16%) o incwm llawn y Grŵp Fe ddaeth lletygarwch ac incwm arlwy (a oedd yn cynnwys blwyddyn lawn o fasnachu yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2016) i gyfanswm o £11.4miliwn (2015: £8.2miliwn), sef 16% (2015: 13%) o incwm llawn y Grŵp. Mae incwm lletygarwch ac arlwy yn cynnwys gwerth gros o werthiant bwyd a diod, ynghyd ag incwm cynadledda a gwledda, o ganlyniad i weithrediad MSEL.

Mae incwm cystadleuaeth yn cynrychioli'r incwm o gystadlaethau gan gynnwys Cwpan y Pencampwyr, Cwpan Her Ewrop a'r Guinness Pro12 (gweler Nodyn 2 am fanylion pellach).

Mae incwm ddigwyddiadau eraill yn cynrychioli digwyddiadau a lwyfannwyd yn Stadiwm y Principality ac eithrio gemau rygbi



y Tîm Cenedlaethol - gan gynnwys, yn y ddwy flynedd a nodwyd uchod, cyngherddau cerddoriaeth, chwaraeon moduro a gemau cwpan Rygbi'r Byd 2015 ("RWC15").

Mae'r incwm sy'n weddill yn deillio o weithgareddau ategol a ffynonellau grantiau amrywiol, gan gynnwys £4.7miliwn (2015: £ dim) o grant gan Ymddiriedolaeth y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol.

Mae'r costau busnes a gweinyddiaeth yn cynrychioli costau rheoli'r Grŵp; mae'r costau uniongyrchol yn cynrychioli costau llwyfannu ddwy gêm rygbi rhyngwladol a digwyddiadau eraill a gynhaliwyd yn Stadiwm y Principality; mae costau stadiwm yn cynrychioli y costau o reoli'r stadiwm ac eithrio digwyddiadau a ellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddigwyddiadau penodol.

Buddsoddwyd yr arian a oedd yn weddill o £38.1miliwn (2015: £37.4m) a enillwyd gan y Grŵp i mewn i "rugbi Cymru". Gellir dadansoddi hyn fel a ganlyn

	2016 £'m	2015 £'m
Costau gweithredol		
- Rygbi elitaidd	4.3	4.3
- Rygbi cymunedol	3.6	2.8
	7.9	7.1

Dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig		
- Rhanbarthau – (rygbi proffesiynol)	19.3	17.2
- Clybiau – (rygbi lled broffesiynol)	1.6	1.4
- Rygbi cymunedol	4.3	4.0
	25.2	22.6

Cyfanswm y buddsoddiad i "Rygbi Cymru"	33.1	29.7
--	------	------

Dadansoddir y fantolen fel a ganlyn:		
Arian sy'n weddill	38.1	37.4
Cyfanswm y buddsoddiad i "Rygbi Cymru"	(33.1)	(29.7)
	5.0	7.7

Dibrisiant ac amorteiddiad (net o grantiau)	3.7	3.5
Eitemau eithriadol (gweler nodyn 4)	(0.2)	(10.0)
Costau llog	0.9	1.3
Diddordebau Anrheolaethol	0.2	0.2
Cost treth	0.3	0.6
Wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn	0.1	12.1
	5.0	7.7

Mae'r dyraniadau i'r pedwar Rhanbarth wedi parhau i gynyddu i £19.3miliwn (2015: £17.2miliwn) (gan gynnwys yr incwm gystadleuaeth y cyfeiriwyd ato uchod). Mae'r

dyraniadau hyn mewn yn cynnwys y rhyddhad o chwaraewyr i chwarae ar lefel rhyngwladol, y ddarpariaeth o gymorth ariannol i'r pedwar Rhanbarth ac mae'n adlewyrchu'r Cytundeb Gwasanaethau Rygbi ("RSA") a lofnodwyd ym mis Awst 2014.

Mae'r dyraniad i gynghrair lled-broffesiynol y Grŵp wedi cynyddu 14% ers y llynedd ac erbyn hyn mae'n swm o £1.6m. Mae'r dyraniadau i glybiau cymunedol y Grŵp wedi cynyddu gan £0.3 miliwn i £4.3miliwn. Cyfanswm y buddsoddiad yn y gêm gymunedol yw:

	2016 £'m	2015 £'m
Costau gweithredol	3.6	2.8
Dyraniadau	4.3	4.0
	7.9	6.8

Ar sail cyn-eithriadau, cynhyrchodd y Grŵp elw gweithredol o £1.3miliwn (2015:£4.2miliwn) lle tynnwyd y gost o wasanaethu dyled o £0.9miliwn (2015: £1.3miliwn) er mwyn dod i gyfanswm elw cyn eitemau eithriadol, diddordebau anrheolaethol a threth o £0.4miliwn (2015: £ 2.9miliwn).

Refeniw

Dadansoddir refeniw fel a ganlyn:

	2016 £'m	2015 £'m
Incwm gêm	27.9	35.4
Incwm cystadleuaeth	9.7	8.1
Incwm masnachol	12.3	10.4
Incwm lletygarwch ac arlwy	11.4	8.2
Incwm digwyddiad arall	5.4	1.3
Incwm arall	6.6	1.4
	73.3	64.8

Gostyngodd incwm gêm gan £7.5miliwn yn bennaf o achos i ni gynnal un gêm gartref yn llai, prisiau tocynnau is ar gyfartaledd a chwymp yn ein hincwm darlledu.

Cynyddodd incwm masnachol o £1.9miliwn i £12.3miliwn, yn bennaf o achos contractau nawdd newydd a mwy o weithgarwch ar werthu nwyddau.

Cynyddodd incwm ddigwyddiadau eraill i £5.4miliwn o ganlyniad i gynydd yn nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn Stadiwm y Principality gan gynnwys cynnal wyth gêm RWC15.

Costau gweithredol

Fel y dangosir yn Nodyn 2 (b), mae costau gweithredol y Grŵp wedi cynyddu tua 25% i £43.1miliwn. Mae'r cynnydd cyffredinol yn bennaf oherwydd y cynnwys o flwyddyn lawn

ADRODDIAD STRATEGOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH
I BEN 30 MEHEFIN 2016



o gostau lletygarwch ac arlwyo, costau sy'n deillio o gymryd rhan mewn RWC15, costau o'r daith dramor i Seland Newydd a chynnydd mewn costau cynnal digwyddiadau yn Stadiwm y Principality, o ganlyniad i gynnal gêmau RWC15.

Mae costau busnes a gweinyddu wedi cynyddu 6% i £7.1miliwn yn bennaf oherwydd y flwyddyn lawn o gostau gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â MSEL, gan gynnwys staff ar secondiad, marchnata, cynnal a chadw offer, prosiect ail-frandio a chynnydd chwyddiannol eraill.

Mae costau uniongyrchol yn gostau a dynnir yn uniongyrchol mewn perthynas â chaffael ar reffeniw a bydd yn cynnwys holl gostau'r Tîm Cenedlaethol a chostau trydydd parti ynghlwm â chynnal digwyddiadau yn Stadiwm y Principality. Mae'r costau hyn wedi cynyddu gan £5.1miliwn yn bennaf o ganlyniad i:

- cynnydd mewn costau digwyddiad o gynnal 8 gêm RWC15
- cynnydd mewn costau'r Tîm Cenedlaethol sy'n deillio o wersylloedd hyfforddi RWC15 a'r daith i Seland Newydd
- cynnydd mewn costau chwaraewyr o £2.5m
- cynnydd mewn costau cyflenwi ein cytundebau nawdd yn gysylltiedig â'r cytundebau nawdd newydd; ac
- cynnydd yn y costau sy'n deillio o fwy o weithgarwch gwerthu nwyddau

Yrrir y cynnydd yng nghostau'r chwaraewr uchod gan (i) bod y cyfranogiad mewn RWC15 yn y flwyddyn a ddaeth i'w ben yn 2016 wedi arwain at gynnydd yn tâl y chwaraewyr o'u cymharu â Chyffres yr Hydref yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2015, (ii) Cynnydd yn nhaliadau bonws o ganlyniad i orffen yn ail ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad yn 2016 o gymharu â gorffen yn drydedd ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad yn 2015 a (iii) chostau teithio'r daith i Seland Newydd



gan nad oedd taith yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2015.

Costau lletygarwch ac arlwyo oedd £6miliwn (2015: £3.6miliwn) Mae'r costau hyn yn adlewyrchu blwyddyn lawn o gostau uniongyrchol MSEL yn darparu pob gweithred lletygarwch ac arlwyo o fewn Stadiwm y Principality. Mae'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn o gan mai y flwyddyn a ddaeth i'w ben yn 2016 oedd y flwyddyn llawn cyntaf o weithredu yn ogystal â chynydd mewn nifer digwyddiadau y flwyddyn.

Mae'r costau o ran rygbi elitaidd wedi aros yn gyson ar £4.3miliwn gan gynnwys costau rheoli'r strwythurau gradd oedran, yr ochrau 7 bob ochr cenedlaethol, datblygu chwaraewyr, costau dyfarnwr, Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol ac yswiriant sydd gyda'i gilydd yn cyfateb i ryw 74% (2015: 72%) o'r cyfanswm gyda'r 26% arall (2015: 28%) yn cynnwys costau staff.

Mae costau mewn perthynas â rygbi cymunedol wedi cynyddu 27% i £3.6miliwn Mae costau rygbi cymunedol yn cynnwys datblygu hyfforddwyr, costau dyfarnwr, costau hwb clwb ysgol, buddsoddiad strategaeth ddigidol ac yswiriant sy'n cyfateb i ryw 58% (2015: 48%) o'r cyfanswm gyda'r 42% arall (2015: 52%) yn cynnwys costau staff. Mae'r cynnydd yn y flwyddyn hon yn bennaf oherwydd costau cynyddol o raglenni datblygu chwaraewyr a'r buddsoddiad yn ein strategaeth ddigidol.

Mae costau stadiwm wedi gostwng gan tua £0.1miliwn i £5.3miliwn. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd buddsoddiad ychwanegol yn y stadiwm, gan gynnwys ailwampio'r ystafelloedd newid a chyfleusterau meddygol. Hefyd, fe gododd gostau ychwanegol sylweddol i'r Grŵp o ganlyniad i brofion dinistriol ar y mastiau, yn unol â'r rhaglen gynnal a chadw a drefnwyd o flaen llaw.

EBITDA a chanlyniad net

Un o fesurau allweddol y Grŵp yw ei enillion cyn llog, treth, dibrisiant, amorteiddiad, eitemau eithriadol a dyrannu i gyrff cysylltiedig ("EBITDA"). Mae hwn yn fesur allweddol gan mai dyma'r procsi gorau ar gyfer arian parod a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredol y Grŵp. Mae hwn yn darparu arian i ariannu prif amcan y Grŵp.

EBITDA y Grŵp oedd £30.2miliwn (2015: £30.3miliwn). Elw cyn-eithriadau, treth a diddordebau anrheolaethol oedd £0.4miliwn (2015: £2.9miliwn); Ar ôl eitemau eithriadol, yr elw cyn treth a diddordebau anrheolaethol oedd £0.6miliwn (2015: £12.9miliwn) Dadansoddir y rhain fel a ganlyn:

	2016 £'m	2015 £'m
Cwmni	25.6	28.3
MSEL	3.9	3.1
WRUNCE	(0.2)	0.2
WRUSC	0.1	0.1
MS	0.8	(1.4)
EBITDA Grŵp	30.2	30.3
Dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig	(25.2)	(22.6)
Eitemau eithriadol	0.2	10.0
Dibrisiant ac amorteiddiad (net o ryddhad grant)	(3.7)	(3.5)
Elw gweithredol	1.5	14.2
Llog net	(0.9)	(1.3)
Elw cyn treth	0.6	12.9
Treth	(0.3)	(0.6)
Diddordebau Anrheolaethol	(0.2)	(0.2)
Elw a gadwyd	0.1	12.1

Traul llog net

Dadansoddir traul net y Grŵp fel a ganlyn:

	2016 £'m	2015 £'m
Llog banc sy'n daladwy a thaliadau tebyg	0.7	0.8
Taliadau banc	0.2	0.5
	0.9	1.3

Mae'r gostyngiad mewn taliadau banc a ddangoswyd uchod yn bennaf oherwydd costau ail-ariannu a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Mae gan y Grŵp offerynnau deilliadol sy'n rhagfantoli y rhan fwyaf o ddyled y Grŵp, fel y dangosir yn nodyn 15. Mae'r offerynnau hyn yn sicrhau y bydd y gyfradd llog a delir ar gyfer

cyfran o ddyled y Grŵp o fewn ystod penodol. Yn ystod y flwyddyn fe newidodd y Grŵp yr offeryn cap a llawr blaenorol i offeryn cap yn unig. O ystyried hynny, roedd cyfraddau LIBOR gyfredol hyd at bwynt cau'r offeryn cap a llawr, yn is nag llawr yr offerynnau deilliadol, mae'r £0.7miliwn a ddangosir dan log banc taladwy a debyg uchod yn cynnwys tua £0.1miliwn (£0.2miliwn am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2015) o gost llog a gododd codi o'r deilliad hwn.

Eitemau eithriadol

Yn ystod y flwyddyn gyfredol a blaenorol, achosodd y Grŵp gostau oedd, oherwydd eu maint a'u natur, yn cael eu hystyried yn "eithriadol" Mae diffiniad y Grŵp o eitemau eithriadol yn cynnwys y nodi o eitemau anghylchol sylweddol sy'n galluogi gwell ddealtwriaeth o berfformiad ariannol "arferol" y Grŵp. Fel y dangosir yn Nodyn 4, mae'r eitemau eithriadol y flwyddyn hon yn deillio o ad-daliad trethi mewn perthynas â'r cyfleusterau hyfforddi yn y Ganolfan Ragoriaeth Genedlaethol a rhai costau ailstrwythuro. Mae'r eitem eithriadol yn y flwyddyn flaenorol yn codi o ryddhad dyled Tranche C ar gyfer un gyfran yn MS; mae hwn yn eitem na chyfrir fel eitem arian parod.

	2016 £'m	2015 £'m
Costau Ailstrwythuro	(0.1)	-
Ad-daliad cyfradd busnes	0.3	-
Rhyddhad o ddyled Tranche C (fel yr esboniwyd uchod)	-	10.0
	0.2	10.0

Llif arian

Roedd mewnllifau arian parod net y Grŵp o weithgareddau gweithredol fel a ganlyn:

	2016 £'m	2015 £'m
EBITDA	30.2	30.3
Dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig	(25.2)	(22.6)
Eitemau eithriadol	0.2	-
Symudiadau cyfalaf gwaith	1.2	(1.5)
Mewnllifau arian net o weithgareddau gweithredol	6.4	6.2

O'r swm hwn yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2016 talodd y Grŵp costau llog net o £0.8miliwn a £0.7miliwn mewn perthynas ag asedau sefydlog. Fe dderbyniodd y Grŵp grant o £0.2miliwn gan ad-dalu grant o £0.1miliwn a thalwyd difidendau o £0.6miliwn i ddiddordebau anrheolaethol, a

ADRODDIAD STRATEGOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH
I BEN 30 MEHEFIN 2016



wnaed taliadau i gymryd lle'r offerynnau deilliadol o £0.4m ac a dalwyd treth o £ 0.8m gan adael cynnydd arian net o £3.2miliwn.

Dyled net

Roedd dyled net, a ddiffinnir fel benthyciadau banc, benthyciadau debentur ar ôl tynnu balansau arian parod, y Grŵp ar 30 Mehefin 2016 yn £48.6miliwn (2015: £51.8miliwn).

Dyled banc net, sef benthyciadau banc ar ôl tynnu balans arian parod, oedd £11.0miliwn (2015: £14.2miliwn).

Mae sefyllfa dyled banc net y Grŵp fel a ganlyn:

	30 Mehefin 2016 £'m	30 Mehefin 2015 £'m
Benthyciadau:		
Benthyciad tymor	3.8	5.0
Benthyciadau Rhanbartha	2.6	1.3
Cyfleuster credyd cylchdrool ("RCF")	4.8	11.0
	11.2	17.3
Arian parod	(0.2)	(3.1)
Dyled banc net	11.0	14.2

Mae'r gostyngiad o £3.2miliwn yn y ddyled banc net yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gostyngiad o £1.2miliwn yn y benthyciad tymor, gostyngiad o £6.2miliwn yn y cyfleuster credyd cylchdrool, sydd wedi ei wrthbwyso gan y gostyngiad o £2.9miliwn mewn balansau arian parod. Yn ogystal â hyn, darparwyd benthyciad pellach o £1.3miliwn i'r Rhanbarthau yn ystod y flwyddyn i hybu eu huchelgais ar y cyd â'r RSA, gan gymryd y cyfanswm a roddwyd o flaen llaw i £2.6miliwn.

Ar 30 Mehefin 2016 y swm a dynnwyd o'r cyfleuster credyd cylchdrool oedd £4.8miliwn. Ar 30 Mehefin 2015 y swm a dynnwyd o'r cyfleuster credyd cylchdrool oedd £11.0miliwn ac oedd gan y cyfleuster credyd cylchdrool uchafswm o £13.5miliwn a ellid tynnu ac isafswm o £1.5miliwn a ellid tynnu yn ystod y flwyddyn.

Fel y nodir yn Nodyn 14, ar 30 Mehefin 2016, roedd gan y Grŵp gyfleusterau nas defnyddiwyd o £15.2miliwn (2015: £ 9.0miliwn).

Fel rhan o'r cytundebau bancio mae'n rhaid i'r Grŵp cydymffurfio â chyfamodau banc sy'n gwneud hi'n ofynnol i'r Grŵp i, ymhlith pethau eraill, gwrdd â lefelau penodol o lifau arian parod a gwargedion. Mae hyn yn gorfodi arferion busnes arferol ar y Grŵp, ond mae hefyd yn cyfyngu i ba raddau gall y Grŵp fuddsoddi, gwneud dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig a'i mynediad i'r cyfleusterau uchod.

Mae'r cyfamodau banc hyn yn nodweddiadol o'r cyfmodau mae'n rhaid i fusnesau masnachol eu dilyn. Mae cydymffurfio â'r cyfamodau hyn er budd y Grŵp gan y byddai torri'r cyfamodau yn arwain at ddiffyg daliad o'r cytundebau benthycyng. Mae rheolaeth a rheolaethau ariannol y Grŵp wedi eu strwythuro fel bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r cyfamodau hyn.

Gwariant cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2016, buddsoddodd y Grŵp rhyw, £0.7miliwn o'i wariant cyfalaf; roedd prif gatgoriau y buddsoddiadau fel y canlyn:

	£'m
System manau talu arlwygo	0.5
Offer cynnal a chadw maes chwarae	0.1
Gwariant cyfalaf arall	0.1
	0.7

Derbyniodd y Grŵp grant o £0.2miliwn mewn perthynas â'r system manau talu arlwygo.

Mantolen ac arian wrth gefn

Mae'r gostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn y Grŵp o £28.6miliwn at £27.7miliwn o achos yr elw a gadwyd am y flwyddyn, symudiad y gronfa sicrwydd wrth gefn a'r symudiad ar y symiau sy'n ddyledus o achos buddiannau anrheolaethol

Mae asedau sefydlog y Grŵp wedi lleihau gan ryw £4.6 miliwn, gan adlewyrchu gwariant cyfalaf o £0.7miliwn a wrthbwysoyd gan y dibrisiant o £5.3miliwn a godwyd yn y flwyddyn.

Mae cyfalaf gweithredol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar amseriad y digwyddiadau sy'n codi yn union cyn diwedd y flwyddyn.

Gweithgarwch masnachol

Trwy gydol y flwyddyn, fe adnewyddwyd neu cytunwyd o'r newydd cyfres o bartneriaethau masnachol pwysig gan y Grŵp. Roedd y rhain yn cynnwys:

Newydd:

- partneriaeth deng mlynedd gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality dros hawliau enwi Stadiwm y Principality
- partneriaeth pedair blynedd gyda SeatWave fel partner eilaidd swyddogol tocynnau marchnad y Grŵp

Adnewyddwyd:

- estyniad cyfnod naw mlynedd bellach gydag Under Armour, gan gynnwys hawl iddynt fod yn noddwr teitl Cyfres yr Hydref
- adnewyddiad cyfnod pedair blynedd bellach gyda Heineken a Brains fel partneriaid hawliau arllwys diod yn Stadiwm y Principality
- estyniad cyfnod pedair blynedd bellach gyda Dove Men Care
- estyniad cyfnod pedair blynedd bellach gyda Vitality
- estyniad cyfnod blwyddyn bellach gyda Guinness
- cyfnod o bedair blynedd pellach gyda Events International fel Gweithredwr Lletygarwch Swyddogol y Grŵp

Yr iaith Gymraeg

Mae'r Grŵp yn parhau i weithio yn unol â'i bolisi iaith Gymraeg. Lle mae'n bosibl, bydd y Grŵp yn sicrhau ei fod yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod eang ei weithrediadau a bydd o hyd yn ystyried os mae'n bosib iddo wneud mwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

Prif risgiau a strategaethau lliniaru

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, prif amcan y Grŵp yw hyrwyddo rygbi er mwyn annog rhagor o bobl i ymwneud â'r gêm, yn amlach, gyda mwy o fwynhad a mwy o lwyddiant. Cyflawnir hyn trwy ail-fuddsoddi mewn rygbi cymunedol, perfformiad rygbi a stadiwm y Principality.

Nodir asesiad y Cyfarwyddwyr o'r prif risgiau wrth gyflawni'r amcan hwn, eu heffaith posibl a'r camau a gymerwyd gan y Grŵp i liniaru'r risgiau hyn isod::

Cynhyrchu incwm – mae'r gallu i gynhyrchu incwm yn arddweud y lefel o ail-fuddsoddi y gall Grŵp cynnig i bob ffurf rygbi. Byddai gostyngiad parhaus mewn incwm yn arwain at ostyngiad yn yr adnodd ariannol sydd ar gael i'w ail-fuddsoddi mewn rygbi.

Mae rhyw 68% (2015: 83%) o incwm y Grŵp yn deillio yn bennaf o lwyfannu gemau rhyngwladol sy'n cynnyws y Tîm Cenedlaethol a gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r Tîm Cenedlaethol. O ystyried ei arwyddocâd, mae'r lliniaru o berygl incwm yn cael i'w ganolbwyntio ar incwm sy'n deillio o gynnal gemau a gweithgaredd masnachol.

Mae'r Grŵp yn ceisio lliniaru'r risg i incwm trwy lunio trefniadau tymor hir gyda'i darlledwyr, noddwyr a'i bartneriaid masnachol arall lle mae'n bosibl Strategaeth brisio tocynnau y Grŵp yw i ganolbwyntio ar gydbwysedd rhwng y ffigyrau presenoldeb uchaf posibl ac enillion ariannol cryf. Adolygir

prisiau tocynnau y Grŵp yn flynyddol gan ystyried amodau y farchnad a'r gystadleuaeth a wynebir.

Fel y nodwyd uchod, mae 68% (2015: 83%) o incwm y Grŵp yn deillio o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Tîm Cenedlaethol. Bydd perfformiad y Tîm Cenedlaethol yn cael effaith ar allu'r Grŵp i gynhyrchu incwm, yn enwedig dros y tymor canolig i hir. Bwriad y Grŵp yw sicrhau llwyddiant y Tîm Cenedlaethol trwy recriwtio tîm hyfforddi a thîm meddygol o'r radd flaenaf i ddarparu'r cymorth gorau posibl i chwaraewyr y Tîm Cenedlaethol, gan sicrhau amser paratoi ychwanegol ar gyfer chwaraewyr y Tîm Cenedlaethol a buddsoddiad helaeth mewn cyfleusterau hyfforddi, i sicrhau bod y Tîm Cenedlaethol yn yr amgylchedd hyfforddi gorau posibl.

Y darpariad o gyfleusterau bancio ddigonol - Mae'r Grŵp yn cael ei ariannu gan gymysgedd o ddyled banc a debentur. Mae parhad mynediad y Grŵp at gyfleusterau dyled banc, ar gyfraddau cystadleuol, yn hanfodol i ragolygon y Grŵp. Mae cyfleusterau bancio y Grŵp yn amodol ar ei gydymffurfiaeth â chyfamodau ariannol. Byddai diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfamodau hyn yn effeithio'n sylweddol ar gyfleusterau bancio y Grŵp. Mae sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfamodau ariannol yn rhan allweddol o holl bolisi a strategaeth y Grŵp ac mae gan y Grŵp broses gyllidebu flynyddol trylwyr sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio â'r cyfamodau. Mae'r Grŵp yn adolygu ei berfformiad yn erbyn y gyllideb hon trwy gydol y flwyddyn er mwyn gallu nodi unrhyw risgiau posibl i'w gydymffurfiaeth. Mae'r Grŵp yn cyfathrebu'n barhaus gyda'i fancwyr, mewn perthynas â gweithgareddau a pherfformiad y Grŵp.

Y cynnal a chadw, diogelwch corfforol ac yr yswirio o'i brif asedau, Stadiwm y Principality yn bennaf – mae'r rhan fwyaf o incwm y Grŵp yn deillio o lwyfannu gemau rhyngwladol yn Stadiwm y Principality. Petai na fyddai Stadiwm y Principality ar gael i gynnal gemau byddai'n rhaid i'r Grŵp edrych am leoliadau amgen a fyddai'n debygol o arwain at gostau sylweddol ac efallai na fydd ganddynt gapasiti tebyg. Byddai colli mynediad neu'r osod o gyfyngiadau ar fynediad y Grŵp i'w asedau eraill, megis y Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol ("CRG"), hefyd yn cael effaith andwyol a ddifrifol ar y Grŵp. Mae'r cyfleusterau hyfforddi yn y NEC ymhlith y gorau yn y byd ac mae'n bosib y byddai berfformiad y Tîm Cenedlaethol yn dioddef o ganlyniad i unrhyw golled o'n mynediad at y cyfleusterau hyn. Mae'r Grŵp yn cymryd mesurau eang i ddiogelu ei asedau. Mae'r Grŵp yn cyflogi tîm o staff cynnal a chadw a rheoli cyfleuster sy'n ymgymryd â rhaglen cynnal a chadw ataliol drylwyr ar yr holl gyfleusterau y Grŵp. Mae'r Grŵp yn caffael polisïau yswiriant cynhwysfawr a fydd, mewn achos o ddifrod i asedau, yn darparu iawndal am y cywiriad o ddifrod ac am y golled o enillion o ganlyniad i'r ymyrraeth ar fusnes.

ADRODDIAD GAN BENNAETH CYFRANOGIAD AT RYGBI



Ryan Jones



Ers cael fy mhenodi ym mis Chwefror, mae fy her fel Pennaeth Cyfranogiad at Rygbi wedi bod i hyrwyddo'r gêm gymunedol ar y Bwrdd Gweithredol yn uniongyrchol ac rydw i'n cydweithio'n agos at Geraint John, yn ei swydd fel Pennaeth Perfformiad Rygbi.

Mae'n hanfodol i ni sicrhau cysylltiad cryf rhwng y ddwy adran a bod y cysylltiad hwn yn cael ei deimlo a'i brofi ar bob lefel o'r gêm.

Cefais fy nghoesawu fel 'pencampwr y gêm gymunedol' ar y Bwrdd Gweithredol, ac rwy'n bwriadu bodloni'r disgwyliadau hynny, gan barhau i wella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'n clybiau sy'n aelodau, a'u cydrannau, sydd yr un mor bwysig – o ysgrifenyddion y clwb, i chwaraewyr, hyfforddwyr, gweinyddwyr a'r holl wirfoddolwyr.

Y gêm graidd XV-naill ochr a'r clybiau cymunedol yw asgwrn cefn y Grŵp felly, er i mi drafod ffasedau newydd y gêm yr hoffwn ddatblygu yn ein cais i gynyddu cyfranogiad mewn tymhorau yn y dyfodol isod, ein prif flaenoriaeth ac amcanion ein holl fuddsoddiadau fydd cynyddu'r brif elfen hon o'r gêm.

Byddwn yn canolbwyntio ein sylw o gwmpas y gêm clwb, ac wedi ymroi i ymgysylltu yn fwy a rhyngweithio mewn ffordd sy'n apelio at bawb. Rwy'n gobeithio y mae clybiau wedi - ac yn parhau i - weld ein cywair yn sgysiol a'n modd yn ymatebol a bydd rhagor o hyn i ddod yn y dyfodol.

Cyrhaeddodd y flwyddyn uchafbwynt mewn steil yn Stadiwm Principality ar gyfer yr holl glybiau sy'n rhan o gystadlaethau Cwpan, Plât a Bowlen SSE SWALEC, ac roedd hi'n wych i weld buddugoliaethau i Lanymddyfri (Cwpan), Bedlinog (Plât) a Phorth Tywyn (Bowlen) ar y Diwrnod Terfynol ar 1 Mai 2016.

Llongyfarchiadau i Ferthyr a enillodd deitl Pencampwriaeth SSE SWALEC. Roedd hi'n gêm bwysig iawn yn yr Uwch Gynghrair, yn enwedig yng ngolau'r ailstrwythuro a neulltio a gynlluniwyd yn yr Uwch Gynghrair gyda'r pedwar clwb a hyrwyddir – Merthyr, Abertawe, Bargoed ac RGC 1404 nawr yn rhan o gystadleuaeth 16 clwb dros y 3 mlynedd nesaf y tair blynedd nesaf.

Rhaid sôn am gynnydd RGC 1404 i'r uwch Gynghrair a oedd yn llwyddiant syfrdanol ac mae'r ffaith bod gennym Ranbarth

datblygu yng Ngogledd Cymru yn cefnogi'r gêm ar bob lefel yn yr ardal honno yn beth i fod yn falch ohono.

Ni fyddwn yn enwi pencampwyr pob cynghrair, ond mae'n ddigon i ddweud bod y gêm wedi bod mor fywiol ag erioed erbyn pen busnes y tymor - a byddwn yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau bod cyfrinachau llwyddiant y clybiau sy'n cyrraedd y top yn treiddio'n rhydd trwy gydol y gêm yng Nghymru.

Er dweud hynny, bydd unrhyw un a wylodd Y Bont-faen yn erbyn Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn rownd derfynol ein Cwpan leuenctid yn Stadiwm Principality ym mis Ebrill yn maddau i mi am longyfarch y ddau dîm am olygfa wych, a'r Bont-faen yn ennill y tlws ar ôl ennill 13-6.

Mae ein cynghreiriau datblygu, y Cynghreiriau leuenctid Cenedlaethol, y Gynghrair Dydd Mercher D18, y cystadlaethau Cwpan, Plât a Bowlen leuenctid a'r Darian Dewar i gyd yn hanfodol yn llwyddiant ein gêm.

Mae lot fawr o'n meddyliaid strategol eleni wedi'i seilio o gwmpas ein harolwg 'Shape Our Game,' a ganfasiodd safbwynt dros 4,800 o oedolion yn y gêm ac o gwmpas y gêm yng Nghymru, yn ogystal ag ymchwil fanwl trwy ein Gweithgor leuenctid a'n hail Gweithgor XV.

Rydym hefyd wedi ymgynghori sefydliadau eraill megis Chwaraeon Cymru, Sport England, Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac England Athletics yn ogystal â'r Bwrdd leuenctid URC newydd gyda'r bwriad o roi golwg 360 gradd o'n gêm genedlaethol a'r materion yr ydym yn eu hwynebu.

Mae rhai o'r camau yr ydym wedi eu cymryd wedi cynnwys cyfalafu'r rhaglen Hwb Clwb Cymdeithasol. Rydym o hyd yn esblygu ei pharamedrau, ond mae apwyntiad pum swyddog mewn cydweithrediad â phum Prifysgol wedi bod yn gam syfrdanol yn yr ardal hon.

Rydym wedi gweld cynnydd o bron i 50% yn y nifer o chwaraewyr yn yr Hybiau Clwb Ysgol dros ddwy flynedd y cynllun erbyn hyn, ac i adeiladu ar y cynnydd a ddangoswyd eisoes yn y flwyddyn gyntaf, cynnydd o 30% mewn gemau yn ail flwyddyn y cynllun a chynnydd pellach o 16% mewn timoedd.

Golyga'r rhifau hynny ein bod ni wedi llwyddo i ychwanegu 2,109 o chwaraewyr yn uniongyrchol at glybiau a hybiau merched yn uniongyrchol o Hwb Clwb ysgolion dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi edrych yn fanwl ar ail gynnydd XV at glybiau ac ysgolion ac yn treialu hwn yn Rhaniad 3 Gorllewin lle mae ail dîm Castell Newydd Emlyn yn rhan o fatrics y gêm.



Tuag at ddiwedd y tymor, cyhoeddom gynllun newydd - wedi'i dreialu mewn 25 clwb y tymor diweddfaf - am rygbi cymunedol a fydd yn sicrhau chwaraewyr clwb, D16 ac isod, bydd o leiaf hanner yr amser chwarae ar gael i unrhyw chwaraewr yn y garfan mewn unrhyw gêm – ac fe'i elwir yn 'Hanner Gêm.' Mae'r cynllun hwn yn bwysig i glybiau, gan helpu gyda recriwtio a chwympiadau yn unol â'n prif amcanion a nodwyd er mwyn sicrhau bod rhagor o bobl yn mwynhau gêm rygbi yn amlach a gyda mwy o llwyddiant yn y blynyddoedd i ddod.

Cynllun arall sydd wedi cyrraedd yr uchelgais hon yw canolfannau Clwstwr Merched sydd wedi bod yn llwyddiant mawr a sydd wedi arwain at fwy na 2,000 o chwaraewyr newydd yn chwarae'r gêm yn barod. Bydd y canolfannau Clwstwr Merched yn ôl y flwyddyn nesaf a bydd llwyddiannau'r cynnig i gêm menywod a merched, gyda'i sifft yr haf, yn arwain ein meddyliaid mewn ardaloedd eraill nawr.

Byddwn yn cynnig rygbi i bawb, bydd i'n bwrpasol a gallai edrych yn wahanol ym mhob ardal, yn dibynnu ar ddaearyddiaeth, ond ein bwriad yw gwneud y gorau ohoni.

Hoffwn ddatblygu gwahanol fformatau o'r gêm a chynnwys pob grŵp oedran, o ddechrau'n iau i chwarae am amser hirach a llenwi unrhyw fylchau eraill. Er enghraifft, rydym yn edrych ar bandio oedran sy'n nodi fod unrhyw chwaraewr rhwng 16 ac 19 yn chwarae'r ieuenctid ac yn gofyn pa ffurf o'r gêm y gall gael ei chwarae gan bobl sydd wedi ymddeol neu sydd ddim wedi codi pêl ers 15 mlynedd ond gellid cael eu temtio i chwarae eto.

ADRODDIAD GAN BENNAETH CYFRANOGIAD AT RYGBI



Eleni, cynhaliwn ein Nosweithiau Gwobrwy Gwirfoddolwyr agoriadol yn Stadiwm Liberty a Rodney Parade, gobeithiwn y bydd y digwyddiadau hyn yn tyfu a thyfu gyda gwobrwyon yn cael eu hennill ar draws yr holl gêm yng Nghymru yn ysgolion a chlybiau. Canolbwyntiodd y noswaith wobrwyo ar ranbarthau'r Gweilch a Dreigiau Casnewydd ond bwriadwn wneud hyn ar draws y wlad y flwyddyn nesaf.

Rydym yn benderfynol o fod yn gorff llywodraethu sy'n buddsoddi yn y bobl sy'n buddsoddi ynom ni a hoffwn adeiladu ar y cynwysoldeb a gwerthoedd sy'n unigryw i'n gêm.

Rydw i wedi meddwl am gyflwyno fformatau newydd o'r gêm, gyda rheolau addasedig i ddarparu ar gyfer pobl o bob oedran a gallu - lle gydol oes mewn rygbi i bawb - a byddwn yn gwthio hwn yn y flwyddyn i ddod.

Hoffwn gynyddu ymgysylltiad rheolaidd a chyfranogiad o bob oedran, fformat a chystadleuaeth. Hoffwn glybiau bywiog sy'n cadw gwerthoedd ein gêm a chreu profiad rygbi cadarnhaol i bawb sy'n ymwneud â nhw, ac rydym am wneud ein gorau i lwyddo.

Ni fyddwn yn cyflawni ein nodau heb gydweithrediad ac mae hynny'n golygu sefydliadau chwaraeon eraill yng Nghymru yn ogystal ag ysgolion a cholegau. Wrth ddefnyddio partneriaid megis Urdd Gobaith Cymru, er enghraifft, (un o sefydliadau ieuencid mwyaf Ewrop) rydym wedi gweld 5,000 o blant yn



chwarae mewn amrywiaeth o dwrnameintiau ledled Cymru trwy gydol y flwyddyn.

Bydd llwyddiant i ni yn arwain at brofiad rygbi cadarnhaol i bawb gyda lle gydol oes ar gyfer y gêm ym mhob unigolyn ac mae angen i ni fod yn ddewr wrth feddwl a chwrrd ag anghenion newidiol ein cyfranogwyr.

Mae ein ffocws ar gemau dynion a menywod, chwaraewyr a'r cefnogwyr a'r nifer ac ansawdd o'n hyfforddwyr.

Llynedd, daeth dros 4,000 o hyfforddwyr gwirfoddol newydd trwy un o'n cyrsiau hyfforddi Lefel Un, roedd mwy na 6,000 wedi cwblhau cwrs Tag neu Arweinwyr a bron i 12,000 wedi gwneud ein cyrsiau ("CPD"). Dyma ni ar waith wrth wraidd y gêm, dyma le yr ydym yn cyrraedd, dylanwadu, a meithrin rygbi at eu gwreiddiau glaswellt gwirioneddol. Hoffwn i'r hyfforddwyr gwirfoddol sy'n rhoi eu hamser i'r gêm bob penwythnos i deimlo'n dylanwad, i wybod ein bod ni yma i'w cefnogi ac i ragori oherwydd y gefnogaeth honno.

Mae'r 12,000 o bobl a fynychodd cyrsiau CPD yn dangos llwyddiant trawiadol ac yn symbol o beth sydd i ddod. Mae'r rhain yn sesiynau addysgiadol am ddim ar gyfer hyfforddwyr lawr gwlad a gynhelir dros ychydig o oriau ar noswaith neu benwythnos addas mewn clwb sy'n agos atoch chi - ac mae chwaraewyr neu hyfforddwyr rhyngwladol yn mynychu'n aml, gan roi eu hamser yn wirfoddol er mwyn i ni weithio gyda'n gilydd er lles y gêm yn y dyfodol. Dyna wir hanfod rygbi,



cynwysoldeb ac allgaredd go iawn a dyma pam yr ydym wedi llwyddo a byddwn yn parhau i ffynnu.

O ran dyfarnwyr, mynychodd tua 600 o ddyfarnwyr newydd gwrs dyfarnu lefel un. Mae nawr gennym tua 3,000 o ddyfarnwyr trwyddedig ar draws pob grŵp oedran. Roedd hyn hefyd yn ymgorffori cyrsiau a gynhaliwyd yn Hybiau Clwb Ysgol a cholegau a phrifysgolion lleol.

Rhoddir gwell hyfforddiant i bob dyfarnwr trwy naw cymdeithas ddaearyddol a'r bwriad yw hyrwyddo'r hyfforddiant trwy blatfformau digidol i bob dyfarnwr ar draws Cymru a fydd, gobeithio, yn gwella safonau dyfarnu.

Ni fydd hyn yn digwydd heb ein gwaith caled, arweiniad a chyfarwyddyd. Ni allwn anwybyddu ein prif gêm XV-naill ochr ac er mwyn llwyddo a mwynhau ar y cae, mae ymgais i ennill yn hanfodol. Ond mae hynny ar ben y pyramid ac mae digon o bethau eraill i'w mwynhau wrth chwarae rygbi ac mae'r pethau hyn yr un mor hanfodol i'n dyfodol.

Gan ddweud hynny, byddaf yn gorffen gyda syniad olaf.

Hoffwn ni lleoli ein gêm i gydfynd ag anghenion newidiol eu

cyfranogwyr. Yn y cyfnod modern, rydym yn gwynebu cystadleuaeth dros amser hamdden o amrywiaeth o ardaloedd ac felly hoffwn sicrhau bod y profiad rygbi yr ydym yn cynnig yn un sy'n gwneud i'r cyfranogwyr am gael mwy/

Mae rhaid i ni drin y bobl sy'n ymwneud â'r gêm fel ymwelwyr, rhaid i ni ofalu amdanynt tra eu bod nhw gyda ni, sicrhau eu bod nhw'n cael profiad da a sicrhau eu bod nhw am ddychwelyd.

Hoffwn gynnig profiad oes i bawb yn ein gêm. Rydym wastad yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ein prif gêm XV-naill ochr, ond hwn yw'r gêm mwyaf cynhwysol posib. Mae yna le i bawb mewn rygbi ac mae rhaid i ni sicrhau bod y neges honno'n cael ei drosglwyddo'n glir.

Rhagor o bobl, yn amlach, gyda mwy o fwynhad a mwy o llwyddiant

Mae amseroedd heriol i ddod ond hoffwn i ddiolch yn bersonol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed i ddiogelu dyfodol y gêm. Rydym ni yma i'ch cefnogi chi, a gyda'n gilydd, byddwn yn llwyddo.

ADRODDIAD GAN BENNAETH PERFFORMIAD RYGBI



Geraint John



Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyffrous iawn ers dychwelyd i Gymru ar ôl deg blynedd yn gweithio gyda Rugby Canada ac Undeb Rygbi Awstralia ac rwy'n falch i gamu mewn i'r swydd newydd hon. Hoffwn diolch i'r Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd am eu holl gefnogaeth ers i mi gyrraedd.

Fy mwriad yw ymdrechu yn gyson i helpu Cymru, y clybiau Rhanbarthol a chlybiau Uwch Gynghrair â'n Tîmoedd Cenedlaethol (dynion a menywod) i fod mor llwyddiannus â phosib. Rydym ni'n creu rhaglenni modern, blaenllaw a chynaliadwy er mwyn llwyddo yn y tymor byr, ond ymhell yn y dyfodol, hefyd.

Gradd oedran Rhanbarthol

D16 rhanbarthol

Yn dilyn adolygiad o strwythur tymor gradd oedran Rhanbarthol, mae newidiadau bach wedi'u gwneud i ddarparu ar gyfer y gêm gymunedol ehangach, yn ogystal â gwella'r cyfleoedd i adnabod talent sy'n bodoli o fewn y grŵp

oedran pwysig hwn. Rhannwyd y tymor hwn yn ddau gydag un bloc o gemau yn cael eu cynnal ar ddechrau'r tymor a'r ail bloc yn cael eu cynnal ym mis Chwefror a mis Mawrth 2016. Roedd y newidiadau hefyd yn ceisio ystyried y gwahaniaeth mewn cyfraddau aeddfedu bechgyn o fewn y categori oedran hwn. Gall y gwahaniaeth mewn aeddfedu corfforol achosi bylchau perfformio a all arwain at ragfarn wrth ddedol ar gyfer rhaglenni perfformio parhaus. Derbyniwyd effeithiau y newidiadau yn dda a phenderfynwyd eu mabwysiadu ar gyfer tymor 2016/17.

Gwelodd y gyfres o gemau dros y tymor Gweilch y Dwyrain, Gweilch y Gorllewin, Dreigiau'r Gogledd, Dreigiau'r De, Sgarlets y Gorllewin, Gleision y De a Gogledd Cymru frwydro mewn fformat deiseb gron a welodd dros 300 o chwaraewyr yn cynrychioli eu rhanbarthau priodol ac ennill profiad datblygiad chwaraewyr gwych. Roedd y profiad yn cynnwys cyngor arbenigol ar sgil, maeth, a datblygiad ffordd o fyw, wedi'u plethu mewn i'r rhaglen chwarae a fydd wedi eu helpu i ennill gwell ddealltwriaeth o'r anghenion o'r uwch lefel hwn o rygbi.

D18 rhanbarthol

Oherwydd y nifer cyfyngedig o gyfleoedd o fewn strwythur y tymor, penderfynwyd peidio â mabwysiadu ymagwedd 'rownd derfynol' yng nghystadleuaeth D18 eleni. Fodd bynnag, roedd amcanion y rhaglen yn gyson â blynyddoedd blaenorol gydag amlygiad chwaraewyr a datblygiad ar dop y rhestr. Roedd yr holl dimau yn brwydro dros gyfnod o naw wythnos a roddodd dewiswyr Cenedlaethol D18 y cyfle delfrydol i weld y 120 o chwaraewyr gorau yn y grŵp oedran hwn i gystadlu yn erbyn eu cyfoedion.

O safbwynt y gystadleuaeth, gorffennodd y Gleision y tymor ar ben y pentwr gyda'u prif gystadleuwyr o Orllewin Cymru, y Sgarlets, yn ail agos. Mae'r lefel hwn o gystadleuaeth yn parhau i fod yn gog hanfodol yn y broses o adnabod talent a datblygu sy'n hanfodol yng nghynlluniau olyniaeth ein tîmoedd lled-broffesiynol, proffesiynol a rhyngwladol.

Cynghrair Dydd Mercher

Parhaodd y cynghrair D18 dydd Mercher i lwyddo a chroesawodd tîm newydd, Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd. Eto, cafodd y gynghrair ei rhannu i ddau yn dilyn tair gêm agoriadol y tymor er myn sefydlu cydbwysedd mewn lefelau cystadleuaeth sy'n bodoli o fewn y tîmoedd sy'n cystadlu.

Cystadleuaeth eleni oedd yr un mwyaf cystadleuol hyd hyn gyda dros 350 o chwaraewyr ar lefel D18 yn cymryd rhan mewn rygbi a rhaglenni addysgiadol ledled Cymru. Roedd y rhaglen hon hefyd yn cynnwys monitro rheolaidd trwy ein



system dadansoddi perfformiad ar y we yn ogystal ag ymweliadau rheolaidd i Ganolfan Ragoriaeth Genedlaethol lle gafodd gwelliannau cryfder, cyflyru a maeth y chwaraewyr eu monitro.

Cystadlodd Old does, Coleg y Cymoedd a Choleg Sir Gâr yn y rownd derfynol eleni am y trydydd tymor ar y tro, gyda phob coleg wedi ennill unwaith yr un. Cynhaliwyd arddangosiad 2016 yn Stadiwm y Principality unwaith eto, gyda Choleg y Cymoedd yn cadw eu teitl ar ôl 70 munud cyffrous o rygbi.

Tîmoedd Llwybr Rhyngwladol

Cymru D18

Parhaodd y tymor D18 gyda pholisi dau grŵp oedran sy'n bwysig iawn wrth gadw cyfleoedd ar gyfer datblygiad a dyfnder yn ein poblogaeth perfformiad chwaraewyr. Parhaodd y grŵp o'r traddodiad o chwarae Leicester Tigers D19 i ymarfer cyn gemau yn erbyn Ffrainc a Lloegr.

Yn y gêm gyntaf yn erbyn Ffrainc, goresgynnodd y tîm ifanc o Gymru tywydd garw er mwyn chynhyrchu perfformiad o gymeriad ac ymwybyddiaeth arbennig o'r gêm i drechu tîm mawr a phwerus XV Ffrainc.

Yn ystod gêm olaf y gyfres yn erbyn Lloegr ar Gae Athletic Talbot Athletic, roedd Aberafan yn gystadluol iawn trwy'r 70 munud gwych wrth i'r sgôr newid yn gyson, ond Lloegr a enillodd y gêm yn y diwedd. Enillodd Lloegr ar ôl gôl adlam yn eiliadau olaf y gêm ond nid oedd y sgôr terfynol wedi dwyn ymaith ansawdd y rygbi a gynhyrchodd y ddau dîm.

Yn dilyn penderfyniad Cymru, Yr Eidal, Iwerddon, Lloegr a'r Alban i beidio â mynychu twrnament D18 Ewropeaidd 2016, gwahoddwyd yr holl dimoedd i gymryd rhan yn y Gyfres Ryngwladol D18 agoriadol. Cynhaliwyd cyfres o gemau dwbl yn St Helens, Abertawe a Chanolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Caerffili, Ystrad Mynach. Chwaraewyd y gemau dan bandio oedran D18 Cwpan Rygbi'r Byd a alluogodd y Grŵp i ehangu'r profiad rhyngwladol at grŵp o chwaraewyr iau, ac felly'n datblygu pwll fwy o chwaraewyr ar gyfer dedol chwaraewyr yn y dyfodol. Roedd ansawdd a dwysedd y gemau a chwaraewyd yn uchel iawn, gyda phob tîm yn awyddus i ddychwelyd ar gyfer digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf.

Roedd canlyniadau dwy gêm agoriadol y gyfres yn ffafriol gyda chystadlu brwd yn erbyn yr Alban a'r Eidal. Fodd bynnag, roedd y gêm olaf yn erbyn Lloegr yn siomedig o ran y canlyniad, gyda'r tîm yn colli 41-9. Serch hynny, roedd y profiad 12 diwrnod yn werthfawr o ran datblygiad personol a rygbi i'r chwaraewyr a'r staff a gymerodd ran.

ADRODDIAD GAN BENNAETH PERFFORMIAD RYGBI



Cymru D20

Dechreuodd raglen D20 2016 ym mis Awst 2015 gyda pharhad y tîm rheoli dan arweiniad hyfforddwr sgiliau rhyngwladol Jason Strange wedi'i gefnogi gan Geraint Lewis, Chris Horsman a'r hyfforddwr amddiffyniad Richard Hodges. Yn y tymor newydd, ymunodd Dr Rich Neil (Met Caerdydd) â'r tîm fel Hyfforddwr Perfformiad gan ganolbwyntio ar y sgiliau meddyliol sydd eu hangen wrth baratoi a pherfformio ar y lefel hwn o rygbi rhyngwladol.

Addasodd y tîm rheoli, mewn cydweithrediad â'r Rhanbarthau, sgiliau'r garfan ddetholedig trwy gydol y flwyddyn cyn dechrau gêm Chwe Gwlad D20 gyntaf y gyfres yn erbyn Iwerddon yn Nulyn. Ar ôl buddugoliaeth anodd yn erbyn y dynion mewn gwyrdd, enillodd y tîm D20 ifanc yn erbyn pob tîm arall. Roedd y gyfres o fuddugoliaethau yn cynnwys buddugoliaeth syfrdanol yn erbyn yr hen elyn, Lloegr ym Mryste gyda sgôr o 42-16, cyn buddugoliaeth deilwng derfynol yn erbyn yr Eidal ym Mharc Eirias, Bae Colwyn.

Roedd ennill y gamp lawn gyntaf ar lefel D20 yn gyflawniad gwych ond roedd amcanion cyffredinol y rhaglen wastad ar flaen y meddwl. Mae paratoi'r chwaraewyr yn y ffordd gywir yn hollbwysig ac mae'r sefydlu o berfformiadau cyson o ansawdd uchel ar y ac oddi ar y cae wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Ym Mhencampwriaeth D20 Rygbi'r Byd ym Manceinion, agorodd Cymru ei hymgyrch yn erbyn Iwerddon yn Stadiwm Academi Pêl-droed Dinas Manceinion. Dyma oedd tro Iwerddon i ennill, felly roedd rhaid i Gymru ennill eu dwy gêm olaf i fynd ymlaen at rownd gyn-derfynol y gystadleuaeth. Roedd buddugoliaeth anodd yn erbyn Georgia yn golygu bod y gêm yn erbyn pencampwyr presennol Seland Newydd yn bwysig iawn. Cipiodd Seland Newydd buddugoliaeth greulon yn erbyn Cymru yn y gêm rhyngddynt trwy sgorio cic cosb ym munudau olaf y gêm.

Gorffennodd Cymru yn seithfed safle'r gystadleuaeth ar ôl ei dwy gêm olaf yn erbyn Seland Newydd (unwaith yn eto) i ddechrau ac yna yn erbyn Yr Alban i orffen.

Gêm menywod

Gyda chynllun Rhanbarthol ehangach a gynhwysiodd chwech gêm, gwelom gynydd mewn dyfnder a diddordeb yn ein rhaglenni Hŷn a D18. Roedd y Rhanbarthau yn gallu datblygu chwaraewyr gydag athroniaeth newydd i danategu'r hyn yr oeddent yn eu darparu, er mwyn iddynt ddarparu rhaglen wedi'i chanolbwyntio ar y chwaraewyr a'i chefnogi gan gystadleuaeth gydag amcan hirdymor o alluogi chwaraewyr i fod mewn gwell safle i ennill cap.

Ar y llwyfan cenedlaethol, mae'r cyfryngau wedi dechrau cymryd mwy o sylw o gemau menywod dros y blynyddoedd diweddar, gyda gemau'n cael eu dangos yn fyw, rhagor o sylw yn y papurau newydd, ar y radio a'r teledu ynghyd â ffigyrau cynulleidfadau gadarnhaol am gemau cartref. Ar y cae, roedd y Chwe Gwlad yn un gymysg i Fenywod Cymru, gyda buddugoliaeth swmpus dros Ffrainc yn sicrhau lle iddynt yng Nghwpan y Byd, ond colledion siomedig a rhwystredig yn erbyn Iwerddon, Lloegr a'r Eidal. Crëwyd hanes gan Siân Williams wrth iddi dderbyn cefnogaeth y RAF er mwyn iddi ddod y Gymraes gyntaf i allu ffocysu ar ei rygbi ar sail llawn amser.

Cefnogodd y Grŵp a Chwaraeon Cymru ddau chwaraewr i ymuno â rhaglen hyfforddi llawn amser gydag England Rugby i gyrraedd uchelgeisiau Olympaidd ac ennill lle ar Dîm GB yn Rio. Yn anffodus, fe anafodd Laurie Harries ei hysgwydd dau fis cyn y detholiad ond roedd Jasmine Joyce yn ddigon ffodus i allu creu hanes fel y Gymraes gyntaf i gystadlu yn y Gemau Olympaidd.

Wrth edrych ymlaen at y tymor sydd i ddod, rydym wedi cwblhau proses recriwtio sylweddol parthed trefniadau Cenedlaethol a Rhanbarthol Menywod, gyda thimoedd rheoli newydd nawr yn eu lle, yn barod i sicrhau ein bod ni'n darparu llwybr effeithiol sydd â chwaraewyr fel ei ganolbwynt. Mae'n flwyddyn allweddol i rygbi rhyngwladol Menywod lle mae gennym gemau rhyngwladol yn yr hydref, Cwpan Rygbi'r Byd mewn llai na 12 mis, a'n bwriad i sicrhau lle nodedig ym Mhencampwriaeth 7 bob ochr y byd wrth ystyried bod Gemau'r Gymanwlad ar y gweill. Hefyd, rydym yn bwriadu cynyddu ein hamser cyswllt gyda chwaraewyr eleni a'u cefnogi wrth iddynt gydbwyso eu hymrwymadau gwaith a bywyd wrth ochr gyrfaedd rygbi llwyddiannus.

Penawdau tîm 7 bob ochr Cymru

Gyda datblygiad chwaraewyr fel ein prif ffocws, fel rhan o'n llwybr, rydym yn falch iawn o'n llwyddiannau yn y maes hwn dros y flwyddyn.

Er gwaethaf rhai perfformiadau anodd o ran canlyniadau, rydym wedi gwella gallu corfforol, tactegol a thechnegol ein chwaraewyr; fel a ganlyn



- Detholwyd Sam Cross, James Davies, a Luke Treharne fel rhan o'r garfan a deithiodd i'r Gemau Olympaidd yn Rio. Fe enilliant fedalau Arian.
- Defnyddiwyd 21 o'n chwaraewyr ym Mhencampwriaeth y byd.
- Datblygwyd 17 o chwaraewyr Rhanbarthol trwy eu hamlygu ym Mhencampwriaeth y byd yn ystod y tymor.
- Defnyddiwyd chwaraewyr Rhanbarthol fel rhan o Gytundeb Gwasanaethau Rygbi fel a ganlyn:
 - Y Gleision – Ben Roach, Chris Knight, Adam Thomas, Owen Jenkins, Jevon Groves, Tom Isaacs.
 - Y Dreigiau – Angus O'Brien, James Benjamin, Lloyd Lewis.
 - Y Gweilch – Morgan Williams, Lloyd Evans, Kristian Phillips.
 - Y Sgarlets – Jordan Williams, Rhodri Williams, Steff Evans.
- Mae'r chwaraewyr Uwch Gynghrair a ddefnyddiwyd yn cynnwys Luke Crocker (Glyn Ebwy), ac Ethan Davies (Cross Keys).

ADRODDIAD GAN BENNAETH PERFFORMIAD RYGBI



Gorffenom yn y 12fed safle ym Mhencampwriaeth y byd. Fe gymhwysom ar gyfer dwy rownd yr wyth olaf, ac fe enillom dwy gystadleuaeth Bowl a dwy gystadleuaeth Dllws.

Bydd ein prif darged o ddatblygu chwaraewyr yn parhau, ar y cyd â'r Rhanbarthau dan Gytundeb Gwasanaethau Rygbi.

Rydym wedi ehangu ar ein grŵp craidd i 8 chwaraewr. Bydd hyn yn ehangu'r sylfaen i wneud y mwyaf o werth datblygiad i'r chwaraewyr Rhanbarthol sydd wedi ymuno â'r garfan cyn twrnameintiau.

Wrth i ni gwynebu yr her o gydbwyso datblygiad a pherfformiad ar un o lwyfannau gorau'r byd, ein bwriad yw gorffen yn y 10fed safle, wrth weithio'n agos â'r Rhanbarthau er mwyn ehangu'r cyfleoedd datblygiad i chwaraewyr.

Ein prif amcanion o ran perfformiad yw i datblygu tuag at 2018, lle ein bwriad bydd i ennill medal yng Ngemau y Cymranwlad, a herio ar gyfer Cwpan Rygbi 7 bob ochr y Byd.

Y Rhanbarthau

Ewrop:

Roedd Dreigiau Gwent Casnewydd ar flaen y gad rygbi Cymru yn Ewrop gan gyrraedd rownd gyn-derfynol y Cwpan Her Rygbi Ewrop ar ôl ennill 21-23 yn erbyn Caerloyw i fwrdd o gartref yn Kingsholm. Roedd y rownd gyn-derfynol yn gêm oddi cartref, i Stadiwm Altrad ym Montpellier, ond daeth breuddwyd y rownd derfynol i ben gyda cholled 22-12.

Ymunodd y Gleision â'r Dreigiau yng Nghwpan Her Rygbi Ewrop, ond fe fethon nhw i gyrraedd y rowndiau diweddarach o'u pwll anodd a gynhwysodd yr enillwyr, Montpellier, a'r Harlequins a heriodd Montpelier yn y rownd derfynol.

Roedd gan y Gweilch gyfle i gymhwyso ar gyfer rowndiau olaf Cwpan y Pencampwyr ar benwythnos olaf y cyfnod pwll. Daethant yn agos o symud o'u pwll i'r rowndiau diweddarach am y tro cyntaf ers 2010, ond roedd colled 33-17 oddi cartref yn erbyn Yr Exeter Chiefs yn meddwl mai'r Saeson a fydd yn parhau i'r rowndiau olaf yn ei le. Mewn manau eraill, ni enillodd Sgarlets gêm o gwbl, yn ei bwl a oedd yn cynnwys Racing 92 a gyrhaeddodd y rownd derfynol, a'r Northampton Saints a Glasgow Warriors a gyrhaeddant rownd yr wyth olaf.

PRO12:

Y Sgarlets oedd yn y safle uchaf o weddill timau Cymru ar dabl y Pro12. Wrth orffen yn y pumed safle ar ôl y gemau olaf fe gymhwysodd ar gyfer Cwpan Her Ewrop. Gorffennodd y Gleision yn seithfed, y Gweilch yn wythfed a'r Dreigiau'n ddegfed, gyda'r tri ochr hefyd yn cymhwyso ar gyfer Cwpan Her Ewrop ar gyfer tymor 16/17 o ganlyniad.



Yr Uwch Gyngghair

Daeth Uwch Gyngghair y Principality i uchafbwynt naturiol ym mis Mai, gyda Glyn Ebwy yn ennill y teitl am y tro cyntaf. Fe laciodd Y Gwŷr Dur afael Pontypridd ar y teitl yr oeddent wedi ennill pob blwyddyn ers 2011 gyda buddugoliaeth haeddiannol o 38-12 yn Hewl Sardis. Ond ni orffennodd Pontypridd y tymor yn waglaw gan iddynt codi Cwpan Her Foster's gyda buddugoliaeth o 38-34 yn erbyn Bedwas ar Gae y bragdy Brewery ym mis Ebrill.

Dyfarnwyr

Roedd hi'n flwyddyn syfrdanol arall i swyddogion ein gemau sy'n gweithio ar bob lefel y gêm gyda nifer yn chwarae rolau amlwg yn y gêm fyd-eang. Detholwyd Nigel Owens a Leighton Hodges ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd 2015. Detholwyd Owens yn ddyfarnwr a Hodges yn ddyfarnwr cynorthwyol. Aeth



Owens, a ystyrir gan nifer yn un o ddyfarnwyr gorau'r gêm, ymlaen i ddyfarnu'r rownd derfynol rhwng Awstralia a Seland Newydd. Hefyd, aeth ef ymlaen i ddyfarnu rownd derfynol Cwpan y Pencampwyr a'r PRO 12.

Sefydlodd Ben Whitehouse a Ian Davies eu hunain yn y gêm broffesiynol. Ymddangosodd Whitehouse am y tro cyntaf ar lefel Ewropeaidd gan barhau'r cyfranogiad cryf swyddogion Cymreig ar y lefel hwn. Detholwyd Craig Evans ar gyfer Cwpan y Byd lau ym Manceinion a dyfarnodd gyda Dan Jones yng Ngemau pencampwriaeth D20 y Chwe Gwlad. Parhaodd Clayton Thomas ei rôl fel detholwr Rygbi'r Byd gyda Robert Davies yn cyflawni'r un rôl yng ngêm menywod y byd.

Mae'r Academi Dyfarnwyr Rhyngwladol, a sefydlwyd yn 2010, yn parhau i gryfhau gan ddarparu dyfarnwyr talentog ifanc gan hefyd cynnig cyfleoedd i gamu i lefelau uwch.

Y ffordd ymlaen

Rydwi i wedi gwrandao ar farn y nifer mwyaf o bobl posib ar lefel hwn o'r gêm er mwyn dysgu beth yn union sy'n cael i ddarparu ynghyd â chanfod unrhyw anghenion posib. Mae gennym bobl wych sydd am lwyddo ac sy'n gweithio'n galed bob dydd er mwyn darparu rhagoriaeth i chwaraewyr, hyfforddwyr a dyfarnwyr.

Mae fy ymchwil wedi helpu gyrru'r cynllun strategol a'r hyn sydd eu hangen yn ein Rhaglen Berfformiad. Y bwriad nesaf fydd parhau â datblygiad ein rhaglenni ac i barhau i wrando a sicrhau bod gan bob dim yr ydym yn gwneud pwrpas penodo sy'n dilyn y strwythur a osodwyd yn y cynllun strategol. Gall rhai penderfyniadau y dyfodol fod yn boblogaidd ac yna rhai yn amhoblogaidd, ond rwy'n addo y bydd yna ymdrech i ymgysylltu a thrafod wrth i ni wneud y penderfyniadau hyn.

ADRODDIAD GAN BENNAETH PERFFORMIAD RYGBI



Mae yna strategaeth Perfformiad Rygbi yn ei lle sydd â chwech elfen glir:

1. Datblygiad Hyfforddwyr

Gwella a datblygu hyfforddwyr Cenedlaethol, Rhanbarthol ac yr Uwch Gynghair; nodi a gwella'r genhedlaeth nesaf o ddarpar hyfforddwyr Cymru a chreu cynlluniau olyniaeth ar gyfer timoedd Cenedlaethol a Rhanbarthol.

2. Datblygiad chwaraewyr

Nodi chwaraewyr o fewn Cymru ac ymhellach ac yna darparu cefnogaeth i'w datblygu yn dechnegol, tactegol a chorfforol. Darparu lles i chwaraewyr oddi ar y cae a sicrhau strwythur cystadleuaeth fywiog er mwyn galluogi chwaraewyr i gyrraedd eu potensial.

3. Gradd oedran cenedlaethol

Darparu amgylchedd broffesiynol fywiog i alluogi chwaraewyr i ddatblygu a llwyddo a'u paratoi ar gyfer rygbi'r Uwch Gynghair, rygbi Rhanbarthol a rygbi Rhyngwladol.

4. Tîm Cenedlaethol 7 bob ochr

Bod yn gystadleuol ar gylched Gemau Rygbi Saith pob ochr y Byd a datblygu chwaraewyr ar gyfer Timoedd Rhanbarthol a Chenedlaethol. Sicrhau bod yna lwybr i'r gêm berfformiad uchel a phroffesiynol i chwaraewyr 7 bob ochr.

5. Menywod

Bod yn gystadleuol yng Ngemau Chwe Gwlad Menywod a Chwpan Rygbi'r Byd Menywod, i fod yn ochr craidd cylched

Gemau Rygbi Saith bob ochr y Byd a chymryd rhan mewn holl Gemau'r Gymanwlad.

6. Dyfarnwyr elitaidd

Creu, datblygu a chadw dyfarnwyr o ansawdd ar gyfer rygbi'r Uwch Gynghair, rygbi Rhanbarthol a rygbi Rhyngwladol (dynion a menywod).

Trwy berthynas agos â'r Rhanbarthau a'n partneriaid, rydym wedi nodi rhai amcanion allweddol a fydd yn helpu i yrru ein rhaglenni dynion a menywod.

Beth fydd llwyddiant yn edrych fel o ran perfformiad gêm y dynion?

- Cymru ymhlith pedwar gorau y byd yn gyson ac yn ennill yn erbyn ochrau'r Hemisffer y Dde yn rheolaidd
- Rhanbarthau'n gorffen yn gorffen yn chwech safle uchaf y Guinness Pro 12 yn gyson gyda o leiaf dau Ranbarth yn cyrraedd rownd olaf Cwpan y Pencamwyr.
- Sefydlu cynlluniau olyniaeth clir ar gyfer dau gylch CRB ar gyfer hyfforddwyr a chwaraewyr.
- efydlu gweledigaeth dryloyw sy'n addas i'r dyfodol ar sut yr ydym yn bwriadu paratoi, chwarae acc esblygu'r gêm

Beth fydd llwyddiant yn edrych fel o ran perfformiad gêm y menywod?

- Cymru ymhlith wyth gorau y byd yn gyson
- Cymru ymhlith tri gorau y Chwe Gwlad yn gyson
- Tîm saith bob ochr y Menywod i ddod yn dîm craidd Cyfres y Byd ac yn gystadleuydd ar gyfer medal yng Ngemau'r Gymanwlad 2022
- Sefydlu cynlluniau olyniaeth clir ar gyfer dau gylch CRB (ar gyfer hyfforddwyr a chwaraewyr)
- Sefydlu gweledigaeth dryloyw sy'n addas i'r dyfodol ar sut yr ydym yn bwriadu paratoi, chwarae acc esblygu'r gêm
- Cysoni ochr perfformio gêm y menywod yng Nghymru

Er mwyn gwneud hyn, mae yna ardaloedd y byddwn yn ffocysu arnynt yn 2016/17 er mwyn gwella:

- Perthynas waith agosach rhwng timoedd hyfforddi Cenedlaethol, grwpiau oedran Rhanbarthol a Chenedlaethol - creu cysoniad agos rhwng bob rhaglen
- Ffocysu ar set o amcanion clir i'w gwella. Bydd y rhain yn cynnwys sgiliau allweddol dan straen a blinder, dadansoddi hyfforddi a gemau ac ymchwil ar ddatblygiad y gêm



ADRODDIAD GAN BENNAETH PERFFORMIAD RYGBI



- Cynyddu'r cefnogaeth ar gyfer hyffordwyr Cenedlaethol, Rhyngwladol a'r Uwch Gynghrair
- Darparu gweithdai i hyfforddwy eu mynychu - Cynnwys Academiâu, Colegau ac Ysgolion ar leflau Cenedlaethol, Rhanbarthol a'r Uwch Gynghrair
- Creu cynlluniau olyniaeth chwaraewyr ar gyfer rhaglenni a thimoedd cenedlaethol a rhanbarthol
- Creu cynlluniau a phroffilau manwl Chwaraewyr Ifanc a fydd yn cynnwys cynlluniau hyfforddi a chystadlu - ar y cae ac oddi ar y cae.
- Buddsoddiad cynyddol a ffocws ar y gêm 7 bob ochr a rygbi menywod gan arwain at well berfformiad a y cae.
- Gweithio'n agos â chlybiau'r Uwch Gynghrair a'u hyfforddwy a chyflyrwy
- Edrych yn fanwl ar strwythur gystadleuaeth ein chwaraewyr gradd oedran (15 i 18) i sicrhau ei fod yn helpu wrth

ddatblygu eich chwaraewyr ar gyfer llwyddo yn y dyfodol

- Nodi chwaraewyr o chwaraeon eraill a'u hannog i chwarae rygbi 7 bob ochr, yn enwedig yng ngêm y menywod
- Cysylltu â thimoedd chwaraeon, sefydliadau, hyfforddwy ac arweinwyr perfformiad uchel eraill
- Cynyddu buddsoddiad a ffocws ar y rhaglen "Alltudion" Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro, cefnogi ac i nodi chwaraewyr yn y DU sy'n ddigon da i chwarae rygbi ar lefel rhyngwladol gymwys i chwarae i Gymru a all dymuno i fanteisio ar y cyfle i chwarae i Gymru
- Cynyddu'r datblygiad a chefnogaeth i'n dyfarnwyr elitaidd.

Er mwyn ennill cystadleuthau Cwpan y byd, Y Pro 12, gemau rhyngwladol (7 bob ochr a 15 pob ochr) yng ngemau'r dynion a menywod, mae rhaid i ni weithio gyda'n gilydd ac i fod yn barod i wrando, derbyn newid a bod yn agored i arloesedd.



ADRODDIAD GAN Y PRIF HYFFORDDWR CENEDLAETHOL



Warren Gatland



Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn ddwys a chyffrous i'r Tîm Cenedlaethol Uwch. O ddechrau gyda'r gwaith paratoi ar gyfer twrnamaint mwyaf nodiadol y gêm, ac yna y digwyddiad ei hun a lwyddodd i danio dychymyg y cyhoedd, ymlaen i'n bara a menynd - Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ac yna'r daith tair-Prawf i Seland Newydd i wyneb Pencampwyr y Byd.

Mae wedi bod yn dymor pwysig i'n Tîm Cenedlaethol a dysgwn y gwersi cadarnhaol sydd eu hangen o'r tymor a fydd yn ein siapio wrth i ni symud ymlaen.

Fe adeiladwyd sail ein gwaith paratoi ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd 2015 gan wersylloedd hyfforddi yn y Swistir, Qatar a Gogledd Cymru. Roedd yr ymdrech a'r ymrwymiad a welwn gan y garfan hyfforddi yn aruthrol gyda phawb yn cystadlu'n frwd ar gyfer y 31 lle yng ngharfan y twrnamaint.

Rydym o hyd wedi siarad am amser gyda'n gilydd fel ffactor enfawr i ni fel carfan a phrofwyd hwn yn gywir unwaith eto.

Y mwy y cyfnod yr oeddem gyda'n gilydd y llynedd, y gorau y canlyniadau. Fe heriasom Yr Iwerddon mewn gemau olynol cyn y gêm ymarfer derfynol yn erbyn Yr Eidal ac, er ein bod wedi dioddef anafiadau, fe aethom i mewn i'r twrnamaint wedi ein paratoi yn dda.

Gyda thri o bum tîm gorau y Byd yn yr un pwll - Pwll A (pedwar o'r naw uchaf pan fyddwch yn ychwanegu Fiji), fe gosodwyd y safon yn uchel a roedd pob dim i'w chwarae dros gyda dau safle yn y rowndiau terfynol ar gynnig. Fe ddechreuom yng Nghaerdydd gyda pherfformiad cryf yn erbyn Uruguay cyn trechu'r trefnwyr, Lloegr, yn Twickenham. Fe osodwyd y fuddugoliaeth yn erbyn Fiji y llwyfan am gêm derfynol yn erbyn Awstralia i weld pwy fyddai'n gorffen yn safle cyntaf y Pwll. Ond, er gwaethaf arddangosiad cryf, Awstralia a enillodd. Cymru oedd yn arwain y gêm yn erbyn De Affrica yn rownd yr wyth olaf am 75 munud cyn i'r gêm cael ei throi ar ei phen gan eiliad o athrylith a welodd De Affrica yn symud ymlaen i rownd y pedwar olaf. Roedd yna



rwystredigaeth sylweddol gan ond munudau oeddem o gyrraedd rownd y pedwar olaf am yr ail dro yn olynol.

Gorffenasom yn ail safle Pencampwriaeth y Chwe Gwlad 2016. Mae'r llwyddiant yr ydym wedi mwynhau yn ddiweddar a'n huchelgais yn golygu nad yw gorffen yn ail yn foddhaol. Dylid cydnabod hwn, ond mae'n rhaid i ni ymdrechu'n barhaus er mwyn gwella. Fe adawodd berfformiadau hanner cyntaf gwael yn erbyn Yr Iwerddon a Lloegr gormod i'w wneud yn yr ail hanner. Trwy ein methiant i ennill pwyntiau yn y gemau hyn, nid oedd modd i ni gyrraedd safle cyntaf y bencampwriaeth. Roedd yr agwedd a'r berfformiad yn y fuddugoliaeth mwyaf erioed dros Yr Eidal yng Nghaerdydd yn hynod galonogol.

Cyn y daith i Seland Newydd fe drefnom brawf yn erbyn Lloegr yn Twickenham i helpu gyda'n gwaith paratoi ar gyfer wynebu'r Crysau Duon. Er na chawsom y canlyniad a ddymunom, roedd y manteision corfforol a ddaeth o'r gêm yn

hanfodol bwysig trwy amlygu i'r chwaraewyr y cam-i fyny yng nghyflymder rygbi rhyngwladol cyn y Prawf cyntaf yn Seland Newydd.

Roedd dychwelyd o Seland Newydd wedi colli'r gyfers 3-0 yn siom amlwg. Roedd y siom yn ddwysach byth oherwydd i ni gredu i'n perfformiadau yn y ddau brawf cyntaf haeddu canlyniadau gwell. Fe chwaraeom frand cadarnhaol o rygbi, gan gymryd y gêm at y Crysau Duon, fodd bynnag, mae yna bethau allweddol i ni i ddysgu o'r gemau parthed hunanfeddiant a gwneud penderfyniadau o dan bwysau a blinder. Gyda'r trydydd Prawf, mae'n rhaid i ni gyfaddef, fel tim, nad oeddem yn ddigon dda. Rydym wedi dadansoddi'r gêm a'r gyfnod baratoi ac wedi dysgu o'n canfyddiadau unwaith eto. Bydd y profiadau hyn yn helpu llunio ein gêm wrth i ni symud ymlaen, gyda'r elfennau cadarnhaol yn rhoi'r hyder i ni wybod ein bod ar y trywydd iawn.



ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 30 MEHEFIN 2016



Gareth Williams



Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad nhw, datganiadau ariannol a chyfrifon archwiliedig y Grŵp a'r Cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2016.

Prif weithgareddau ac adolygiad o'r busnes

Prif weithred a bwriad y Grŵp yw hyrwyddo rygbi ac annog rhagor o bobl i ymwneud â'r gêm yn amlach a gyda mwy o fwynhad a llwyddiant. Adolygir y gweithgaredd hwn, ynghyd â'r prif amcan a datblygiadau tebygol y Grŵp yn y dyfodol yn natganiad y Cadeirydd, crynodeb Prif Weithredwr y Grŵp ac yr adroddiad strategol.

Ffactorau risg ariannol

Mae'r Grŵp yn agored i risgiau ariannol o asedion sy'n dwyn llog a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â chwmnïau tramor. Mae hyn yn agor y Grŵp i risgiau ariannol gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig ag arian cyfred tramor, cyfraddau llog a hylifedd.

- Risg cyfnewid arian o dramor
Lle mae'n bosibl, mae'r Grŵp yn lliniaru risgiau sy'n ymwneud â chyfnewid arian o dramor trwy ddefnydd o gontractiau blaen llaw. Fel ar 30 Mehefin 2016, nid oedd gan y Grŵp risg materol cyfnewid tramor (2015: £dim).
- Risg cyfradd llog
Mae gan y Grŵp rhwymedigaethau sy'n dwyn llog. Fel y dangosir yn nodyn 15, polisi y Grŵp yw i amddiffyn ei hun rhag risgiau llog ar rwymedigaethau trwy ddefnyddio offerynnau deilliadol yn effeithiol. Mae gan



y Grŵp asedion sy'n dwyn llog ar wahanol gyfraddau. Gosodwyd cyfraddau sefydlog ar yr asedion o ddechrau'r buddsoddiad.

- Risg credyd
Nid oes unrhyw crynodiad sylweddol o risg credyd gan y Grŵp. Mae'r Grŵp wedi gweithredu polisiâu sy'n gwneud gwiriadau credyd priodol yn ofynnol ar gyfer gwsmeriaid gredyd posib cyn i'r broses gwerthu dechrau. Rydym ond wedi buddsoddi asedau sy'n dwyn llog gyda sefydliadau ariannol sydd â statws credyd rhagorol.
- Risg hylifedd
Mae'r Grŵp yn cynnal cydbwysedd rhwng parhad cyllido a hyblygrwydd. Ar 30 Mehefin 2016, dim ond 24% (2015: 31%) o'r benthyciadau a oedd i ddod i ben o fewn pum mlynedd.

Cyfarwyddwyr

Rhestrir y Cyfarwyddwyr a oedd yn weithredol yn ystod y flwyddyn ac hyd arwyddo'r datganiadau ariannol ar dudalen 67.

Rhoddion

Rhodd elusennol fwyaf y Grŵp oedd rhodd o £73,000 (2015: £82,000) i Ymddiriedolaeth Elusennol Rygbi Cymru. Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth, sy'n annibynnol o'r Grŵp er mwyn cefnogi chwaraewyr a anafwyd wrth chwarae rygbi yng Nghymru. Ni roddwyd unrhyw arian gwleidyddol (2015: £dim).

Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Mae'r Grŵp yn cydnabod ei ddyletswydd i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan ei fusnes. Mae'r Grŵp yn adolygu ei bolisiâu sy'n ymwneud â materion cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol yn rheolaidd. Adolygir unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r catgorïau hyn a all effeithio busnes y Grŵp gan y Bwrdd pryd mae angen.

Busnes gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi adolygu sefyllfa ariannol y Grŵp am gyfnod o ddwy flynedd o gyfrifon ddiwedd blwyddyn yn erbyn yr incwm gweithredol rheolaidd, gwariant a chost llog a ddisgwyllir mewn cydweithrediad â chyfamodau bancio'r Grŵp. Ar y sail hon mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn fod gan y Grŵp mwy na ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, mae'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp.



Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol (Y "datganiadau ariannol") yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn gwneud hi'n orfodol i'r Cyfarwyddwyr paratoi datganiadau ariannol ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â safonau cyfrifyddu y Deyrnas Unedig gan gynnwys FRS102 sef "Y safon adroddiadau ariannol sy'n berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon" a'r gyfraith berthnasol ("Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn Y Deyrnas Unedig").

O dan gyfraith cwmnïau, ni ddylai cyfarwyddwyr awdurdodi adroddiadau ariannol heb eu bod nhw'n fodlon y bod yr adroddiadau yn adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni gan gynnwys elw neu golled y Grŵp a Chwmni am y cyfnod y maent yn eu trafod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwyr:

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu'n gyson.
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- Datgan os ydynt wedi dilyn FRS102 "Y safon adroddiadau ariannol sy'n berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon", ac eithrio unrhyw yriadau sylweddol sy'n cael eu datgan a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol; ac i

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac eithrio sefyllfa lle nad yw'n addas ystyried y busnes fel un a fydd yn parhau.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sy'n dangos ac yn egluro trafodion y Cwmni a all hefyd dangos sefyllfa ariannol y Cwmni a'r Grŵp ar unrhyw adeg gyda chywirdeb rhesymol. Mae rhaid iddynt hefyd sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol dros warchod asedau'r cwmni a'r Grŵp gan gymryd camau rhesymol i atal a darganfod unrhyw dwyll neu weithredoedd afreolaidd.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol dros gynnal a chadw gwefan y cwmni gan hefyd sicrhau ei uniondeb. Gall deddfwriaeth sy'n rheoli y paratoi a lledaenu o ddatganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Datgeliad o wybodaeth i'r archwilwyr

(a) «Hyd y gwybu'r Cyfarwyddwyr, nid oes unrhyw wybodaeth archwiliedig nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohono; a

(b) Mae'r Cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y maent yn meddwl y dylent fod wedi eu cymryd fel Cyfarwyddwr er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno hefyd.

Archwilwyr annibynnol

Eleni, cynhaliodd y Grŵp proses dendro ar gyfer ei wasanaethau archwilio. Yr archwilwyr presennol, PricewaterhouseCoopers CCP, a oedd yn llwyddiannus yn y proses ac y maent wedi datgan eu parodrwydd i barhau â'r swyddogaeth. Cynigir penderfyniad i ail-apwyntio PricewaterhouseCoopers CCP i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf

Trwy Orchymyn y Bwrdd

Gareth Williams
Ysgrifennydd y Cwmni
27 Medi 2016

AR GYFER Y FLWYDDYN YN
DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



	Nodyn	Cyfanswm 2016 £'m	Cyfanswm 2015 £'m
Incwm gêm, masnachol, lletygarwch ac arall		63.6	56.7
Incwm cystadleuaeth		9.7	8.1
Trosiant	2 (a)	73.3	64.8
Treuliau gweinyddol	2 (b)	(71.8)	(50.6)
Elw gweithredol cyn dibrisiant, eitemau eithriadol a dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig ("EBITDA")			
Dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig	2 (d)	30.2 (25.2)	30.3 (22.6)
Eitemau eithriadol	4	0.2	10.0
Dibrisiant ac amorteiddiad (net o ryddhad grant)	4	(3.7)	(3.5)
Elw gweithredol		1.5	14.2
Llog taladwy a chostau tebyg	3	(0.9)	(1.3)
Elw ar weithgareddau arferol cyn treth	4	0.6	12.9
Treth ar elw ar weithgareddau arferol	6	(0.3)	(0.6)
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol		0.3	12.3
Elw sy'n berthnasol i:			
Cwmni		0.1	12.1
Diddordeb Anrheolaethol		0.2	0.2
		0.3	12.3

Mae'r trosiant ac elw gweithredol a ddangosir uchod yn deillio o weithrediadau parhaol.

AR GYFER Y FLWYDDYN YN
DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



	Nodyn	Cyfanswm 2016 £'m	Cyfanswm 2015 £'m
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol		0.3	12.3
Incwm cynhwysfawr arall:			
Sicrwyddau llif arian			
• Newid mewn gwerth offerynnau sicrwydd cyfradd llog	15	(0.1)	-
• Aildodbarthiadau i elw a cholled offerynnau sicrwydd cyfradd cyfnewid tramor		(0.3)	(0.1)
• Newid mewn gwerth offerynnau sicrwydd cyfradd cyfnewid tramor	15	(0.3)	0.3
• Treth ohiriedig ar elfennau o incwm cynhwysfawr arall	6	0.1	-
Incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn, net o dreth		(0.6)	0.2
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(0.3)	12.5
Cyfanswm incwm cynhwysfawr sy'n briodoladwy i:			
Cwmni		(0.5)	12.3
Diddordeb Anrheolaethol		0.2	0.2
		(0.3)	12.5

MANTOLENNI
CYFUNOL A CHWMNI

AR 30 MEHEFIN 2016



	Nodyn	2016 Grŵp £'m	2015 Grŵp £'m	2016 Cwmni £'m	2015 Cwmni £'m
Asedau sefydlog					
Asedau annirweddol	8	2.7	3.0	-	-
Asedau dirweddol	9	121.0	125.6	38.3	38.5
Buddsoddiadau	10	-	-	16.6	16.6
		123.7	128.6	54.9	55.1
Asedau cyfredol					
Stoc	11	0.9	0.7	-	-
Ased treth gohiriedig	17	-	-	0.2	0.1
Asedau ariannol					
• Offeryn ariannol deilliadol	15	-	0.3	-	0.3
• Dyledwyr	12	7.5	7.5	54.8	56.9
• Arian yn y banc ac wrth law	13	0.2	3.1	0.3	3.0
		8.6	11.6	55.3	60.3
Rhwymedigaethau cyfredol					
Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	14	(25.1)	(30.0)	(18.7)	(27.2)
(Rhwymedigaethau)/asedau net cyfredol		(16.5)	(18.4)	36.6	33.1
Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol		107.2	110.2	91.5	88.2
Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	14	(43.0)	(42.9)	(43.0)	(42.9)
Croniadau ac incwm gohiriedig	16	(35.4)	(37.2)	-	-
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	17	(1.1)	(1.5)	-	-
Asedau net		27.7	28.6	48.5	45.3
Cyfalaf ac arian wrth gefn					
Arian arall wrth gefn		2.3	2.3	2.6	2.6
Arian sicrwydd wrth gefn		(0.5)	0.1	(0.5)	0.1
Arian wrth gefn elw a cholled		23.1	23.0	46.4	42.6
Cyfalaf ac arian wrth gefn sy'n briodoladwy i: Cwmni		24.9	25.4	48.5	45.3
Diddordebau Anrheolaethol		2.8	3.2	-	-
Cyfanswm cyfalaf ac arian wrth gefn		27.7	28.6	48.5	45.3

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ym mis 27 Medi 2016 a llofnodwyd ar ei ran gan:

Gareth Davies
Cadeirydd

Martyn Phillips
Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp

Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 64 yn ffurfio rhan gyfannol o'r datganiadau ariannol hyn.

Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig
Rhif Cwmni 3419514

DATGANIAD CYFUNOL O
NEWIDIADAU MEWN ECWITI

AR GYFER Y FLWYDDYN YN
DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



	Nodyn	Arian arall wrth gefn £'m	Arian sicrwydd wrth gefn £'m	Arian wrth gefn elw a cholled £'m	Diddordeb Anrheol- aethol £'m	Cyfanswm £'m
Balans ar 1 Gorffennaf 2014		2.3	(0.1)	10.9	-	13.1
Elw ar gyfer y flwyddyn		-	-	12.1	0.2	12.3
Incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn:						
Ailddosbarthiadau i elw a cholled o offerynnau sicrwydd	15	-	(0.1)	-	-	(0.1)
cyfradd cyfnewid tramor						
Enillion gwerth teg sy'n deillio o offerynnau ariannol	15	-	0.3	-	-	0.3
cyfnewid arian tramor						
Cyfanswm incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn		-	0.2	-	-	0.2
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		-	0.2	12.1	0.2	12.5
Yn codi o ffurfio MSEL	8	-	-	-	3.3	3.3
Difidendau		-	-	-	(0.3)	(0.3)
Balans ar y 30 Mehefin 2015		2.3	0.1	23.0	3.2	28.6
Balans ar 1 Gorffennaf 2015		2.3	0.1	23.0	3.2	28.6
Elw ar gyfer y flwyddyn		-	-	0.1	0.2	0.3
Incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn:						
Colled gwerth teg o offerynnau ariannol ar gyfradd	15	-	(0.1)	-	-	(0.1)
llog deilliadol						
Ailddosbarthiadau i elw a cholled o offerynnau sicrwydd	15	-	(0.3)	-	-	(0.3)
cyfradd cyfnewid tramor						
Colled gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	15	-	(0.3)	-	-	(0.3)
o gyfnewid tramo						
Treth ohiriedig ar incwm cynhwysfawr arall	6	-	0.1	-	-	0.1
Cyfanswm incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn		-	(0.6)	-	-	(0.6)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		-	(0.6)	0.1	0.2	(0.3)
Difidendau		-	-	-	(0.6)	(0.6)
Balans ar 30 Mehefin 2016		2.3	(0.5)	23.1	2.8	27.7

Mae arian arall wrth gefn yn cyfeirio at arian wrth gefn cyn ymgorffori yn 1997.

Mae'r arian wrth gefn sicrwydd yn cael ei ddefnyddio i gofnodi trafodion sy'n codi o drefniadau sicrwydd llif arian y Grŵp.

DATGANIAD CWMNI O NEWIDIADAU MEWN ECWITI

AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



	Nodyn	Arian arall wrth gefn £'m	Arian sicrwydd wrth gefn £'m	Arian wrth gefn elw a cholled £'m	Cyfanswm £'m
Balans ar y 1 Gorffennaf 2014		2.6	(0.1)	36.1	38.6
Elw ar gyfer y flwyddyn		-	-	6.5	6.5
Incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn					
Ailddosbarthiadau i elw a cholled offerynnau sicrwydd cyfradd cyfnewid tramor	15	-	(0.1)	-	(0.1)
Enillion gwerth teg sy'n deillio o offerynnau ariannol cyfnewid arian tramor	15	-	0.3	-	0.3
Cyfanswm incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn		-	0.2	-	0.2
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		-	0.2	6.5	6.7
Balans ar y 30 Mehefin 2015		2.6	0.1	42.6	45.3
Balans ar 1 Gorffennaf 2015		2.6	0.1	42.6	45.3
Elw ar gyfer y flwyddyn		-	-	3.8	3.8
Incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn					
Colled gwerth teg o offerynnau ariannol ar gyfradd llog deilliadol	15	-	(0.1)	-	(0.1)
Ailddosbarthiadau i elw a cholled o offerynnau sicrwydd cyfradd cyfnewid tramor	15	-	(0.3)	-	(0.3)
Colled gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol o gyfnewid tramor	15	-	(0.3)	-	(0.3)
Treth ohiriedig ar incwm cynhwysfawr arall	6	-	0.1	-	0.1
Cyfanswm incwm cynhwysfawr arall ar gyfer y flwyddyn		-	(0.6)	-	(0.6)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		-	(0.6)	3.8	3.2
Balans ar 30 Mehefin 2016		2.6	(0.5)	46.4	48.5

Mae arian arall wrth gefn yn cyfeirio at arian wrth gefn cyn ymgorffori yn 1997.

Mae'r arian wrth gefn sicrwydd yn cael ei ddefnyddio i gofnodi trafodion sy'n codi o drefniadau sicrwydd llif arian y Cwmni.

DATGANIAD CYFUNOL O LIFAU ARIAN

AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



	Nodyn	2016 £'m	2016 £'m	2015 £'m	2015 £'m
Arian net o weithgareddau gweithredol	22	6.4		6.2	
Trethiant a dalwyd		(0.8)		(2.2)	
Arian net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredol			5.6		4.0
Llif arian o weithgareddau buddsoddi					
Pryniant asedau sefydlog dirweddol		(0.7)		(3.4)	
Arian net a ddefnyddiwyd mewn weithgareddau buddsoddi			(0.7)		(3.4)
Llif arian o weithgareddau ariannu					
Llog a dalwyd		(0.8)		(1.2)	
Grant a dderbyniwyd		0.2		1.7	
Grant a ad-dalwyd		(0.1)		(0.1)	
Gostyngiad benthyciadau banc		6.2		17.3	
Ad-daliad benthyciadau banc		(12.3)		(15.0)	
Taliadau i gymryd lle offerynnau deilliadol		(0.4)		-	
Difidendau a dalwyd i ddiddordebau anrheolaethol		(0.6)		(0.3)	
Arian net (a ddefnyddiwyd yn) / a gynhyrchwyd o weithgareddau ariannol			(7.8)		2.4
(Gostyngiad) net/cynnydd mewn arian a chyfwerthoedd arian	23		(2.9)		3.0
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r flwyddyn			3.1		0.1
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y flwyddyn			0.2		3.1

Mae'r nodiadau ar dudalennau 46 i 64 yn ffurfio rhan gyfannol o'r datganiadau ariannol hyn.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



1. Polisiâu cyfrifeg

a. Gwybodaeth gyffredinol

Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant ac wedi'i ymgorffori yn Lloegr a Chymru a'i gartref yn y DU. Cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yw Stadiwm Principality, Stryd Westgate, Caerdydd, CF10 1NS.

b. Datganiad cydymffurfiaeth

Paratowyd datganiadau ariannol y Grŵp ac unigol Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig mewn cydymffurfiaeth â Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd ariannol 102, "Y Safon Adrodd Ariannol cymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" ("FRS102") a Deddf y Cwmnïau 2006. Ystyrir Undeb Rygbi Cymru yn Endid Budd Cyhoeddus dan y diffiniad yn FRS102 gan y Cyfarwyddwyr.

c. Crynodeb o bolisiâu cyfrifeg arwyddocaol

Amlinellir y prif bolisiâu cyfrifeg a gymhwysir ym mharatoad y datganiadau ariannol cyfunol ac ar wahân hyn isod. Mae'r polisiâu hyn wedi cael eu cymhwyso'n gyson i'r holl flynyddoedd a gyflwynwyd, oni bai y datgenir fel arall.

d. Sail paratoad

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol ac ar wahân hyn yn cael eu paratoi ar y sail busnes gweithredol, o dan gonfensiwn cost hanesyddol, fel y diwygiwyd gan gydnabyddiaeth o asedau ariannol penodol a rhwymedigaethau a fesurwyd ar werth teg.

e. Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi adolygu sefyllfa ariannol y Grŵp am gyfnod o ddwy flynedd o gyfrifon ddiwedd blwyddyn yn erbyn yr incwm gweithredol rheolaidd, gwariant a chost llog a ddisgwyllir mewn cydweithrediad â chyfamodau bancio'r Grŵp. Ar y sail hon, mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried bod gan y Grŵp mwy na digon o adnoddau i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn, mae'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp.

f. Eithriadau ar gyfer endidau sy'n gymwys o dan FRS102 ar gyfer y datganiadau ariannol ar wahân

Mae FRS102 yn caniatáu rhai eithriadau datgelu i endid sy'n gymwys, yn unol â rhai amodau, y cydymffurfiwyd â hwy, gan gynnwys hysbysu, a dim gwrthwynebiad i, ddefnydd eithriadau gan aelodau bwrdd y Cwmni.

Mae'r Cwmni wedi manteisio ar yr eithriadau canlynol ar gyfer y datganiadau ariannol ar wahân:

- (i) O baratoi datganiad o lifau arian, ar y sail ei fod yn endid sy'n gymwys a'r datganiad cyfunol o lifau arian, a gynhwysir yn y datganiadau ariannol hyn, yn cynnwys lifau arian y Cwmni;
- (ii) o ddatgeliadau'r offeryn ariannol, sy'n ofynnol o dan FRS102 paragraffau 11.39 i 11.48A a pharagraffau 12.26 i 12.29, fel y darperir y wybodaeth yn natgeliadau'r datganiad ariannol cyfunol; ac
- (iii) o ddatgelu iawndal personèl rheoli allweddol y Cwmni, fel y gofynnir gan FRS102 paragraff 33.7.

g. Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn ymgorffori datganiadau ariannol Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig a'i is-gwmnïau, Millennium Stadium ccc, Clwb Cefnogwyr Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig, Canolfan Genedlaethol Rhagoriaeth Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig a Phrofiad Stadiwm y Mileniwm Cyfyngedig, pob un wedi'u cwblhau hyd at 30 Mehefin 2016 a'u paratoi gan ddefnyddio polisiâu cyfrifeg gyson. Mae'r holl drafodion rhwng grwpiau yn cael eu dileu ar gyfuniad.

h. Arian tramor

Cyflwynir datganiadau ariannol y Grŵp mewn punnoedd sterling a'u talgrynnu i filoedd. Arian gweithredol a chyflwyniadol y Grŵp yw'r bunt sterling.

Mae trafodion arian tramor yn cael eu cyfieithu i'r arian gweithredol gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion neu werthusiad lle mae eitemau yn enillion a cholledion arian tramor a ailfesurwyd yn ganlyniad o setliad y fath drafodion ac o gyfieithu ar ddiwedd blwyddyn gyfraddau cyfnewid asedau a rhwymedigaethau asedau ariannol a nodir mewn arian tramor yn cael eu hadnabod yn y datganiad incwm, heblaw pan ohirir mewn incwm cynhwysfawr arall fel sicrwydd llif arian cymwys.

i. Trosiant

Mae'r Grŵp, wrth weithredu fel pennaeth, yn cydnabod refeniw pan (a) mae risgiau a gwobrau arwyddocaol perchnogaeth wedi cael eu trosglwyddo i'r prynwr; (b) nad yw'n cadw unrhyw ran neu reolaeth dros y nwyddau; (c) ellir mesur swm y refeniw yn ddibynadwy; (d) mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol yn llifo i mewn iddo a (e) phan fo'r meini prawf penodol perthynol i bob un o'i sianeli gwerthiant wedi cael eu bodloni, fel y disgrifir isod.

Mae trosiant yn cynrychioli symiau a anfonebwyd, gan eithrio net o ddychweliadau, gostyngiadau ac ad-daliadau a ganiateir gan y Grŵp a threthi ar werth, mewn perthynas â gwerthiant nwyddau a gwasanaethau. Cydnabyddir incwm tocynnau, gwerthiant pecynnau lletygarwch, incwm cystadleuaeth ac incwm digwyddiad arall fel refeniw pan gynhelir y digwyddiad perthynol. Cydnabyddir refeniw a bennir gan gytundebau masnachol, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o refeniw darlledu, cydnabyddir incwm nawdd a breindal a les blychau lletygarwch yn seiliedig ar y telerau cytundebol perthnasol. Lle derbynnir ystyriaeth mewn nwydd, grosir incwm a gwariant ar sail cyfraddau masnachol hyd braich.

Cydnabyddir adnoddau sy'n dod i mewn o drafodion heb gyfnewid fel a ganlyn:

- (a) trafodion sydd ddim yn gosod amodau perthynol i berfformiad yn y dyfodol ar y derbynnydd yn incwm pan dderbynnir yr adnoddau neu'n dderbyniadwy;
- (b) trafodion sydd yn gosod amodau perthynol i berfformiad yn y dyfodol ar y derbynnydd yn cael eu cydnabod mewn incwm yn unig pan fodlonir yr amodau perthynol i berfformiad; a
- (c) phan dderbynnir adnoddau cyn i'r meini prawf cydnabod refeniw gael eu bodloni, cydnabyddir rhwymedigaeth.

Mesurir adnoddau a ddaw i mewn o drafodion heb gyfnewid fel a ganlyn:

- (a) mesurir gwasanaethau a roddwyd a chyfleusterau a fyddai fel arall wedi cael eu prynu ar eu gwerth i'r endid; a
- (b) mesurir yr holl adnoddau eraill a ddaw i mewn o drafodion heb gyfnewid ar werth teg yr adnoddau a dderbyniwyd neu'n dderbyniadwy.

j. Eitemau eithriadol

Er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r adroddiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr wedi nodi eitemau o incwm a chost wrth eu maint, natur a/neu eu nifer sy'n eithriadol i'r datganiadau ariannol y flwyddyn ar wyneb y datganiad incwm ar wahân. Dangosir y rhain fel rhai eithriadol o fewn categorïau gwariant y cyfeiriant atynt.

k. Asedau sefydlog annirweddol

Mae asedau annirweddol yn cynnwys Hawliau Arlwyo Lletygarwch. Cydnabyddir y rhain yn y lle cyntaf ar werth teg ac fe'u hamorteiddir wedyn ar sail llinell syth dros y cyfnod dan gontract o 10 mlynedd. Adolygir gwerth cario

asedau annirweddol ar gyfer amhariad pan mae digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos na fyddai'r gwerthoedd cario yn adferadwy.

l. Asedau sefydlog dirweddol

Datgenir asedau sefydlog dirweddol ar gost hanesyddol ar ôl tynnu dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Mae cost yn cynnwys pris prynu gwreiddiol yr ased a'r costau priodoladwy i ddod â'r ased i'w gyflwr gweithredol ar gyfer ei ddefnydd a fwriedir.

Mae asedau sefydlog cyfunol y Grŵp, gan eithrio tir, yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth a gyfrifwyd i nodi eu cost i werthoedd gweddiliol a amcangyfrifwyd dros eu bywydau economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

Stadiwm	Hyd at 50 mlynedd
Adeiladau erail	Hyd at 50 mlynedd
Canolfan Rhagoriaeth	Hyd at 10 mlynedd
Asedau Sefydlog eraill	Hyd at 10 mlynedd

Dibrisir adeiladau ar brydles dros yr isaf o 50 mlynedd a gweddill oes y brydles.

m. Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau

Cynhwysir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau ar gost llai unrhyw golledion amhariad cronedig. Yn unol â'r Deddf Cwmnïau 2006, mae'r Grŵp wedi manteisio ar yr eithriad a roddir i rai is-gwmnïau i'w harchwilio. Mae Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig wedi rhoi gwarant i'w is-gwmni Cefnogwyr Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig o dan adran 479A o Ddeddf Cwmnïau 2006.

n. Asedau sydd wedi'u prydlesu

Lle bo'r Grŵp yn mynd i mewn i brydles sy'n golygu cymryd yr holl risgiau sylweddol a gwobrau ased, caiff y brydles ei thrin fel "trefniant pryniant trwy log". Cofnodir gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf yn y fantolen fel ased sefydlog diriweddol. Cynhwysir rhandaliadau y dyfodol sydd o dan amodau y fath brydlesau o fewn credydwyd yn net o'u costau cyllid. Mae rhentiadau sy'n daladwy yn cael eu rhannu rhwng yr elfen ariannol, a godir i'r datganiad incwm, a'r elfen gyfalaf sy'n lleihau'r rhwymedigaeth pryniant trwy log sy'n sefyll.

Mae'r holl brydlesau eraill yn cael eu cyfrifo fel "prydlesau gweithredol" a chodir eu rhent i'r datganiad incwm ar sail llinell syth dros fywyd y brydles.

o. Stoc

Prisir y stoc ar bris is cost ac amcanbris gwerthu llai costau i werthu ac yn cynnwys nwyddau gorffenedig a brynwyd

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



i'w hailwerthu a deunyddiau crai i'w defnyddio yng nghyflenwad gwasanaethau arlwygo. Lle bo'r angen, gwneir darpariaeth ar gyfer stoc darfodedig, sy'n symud yn araf a diffygiol. Pennir cost ar sail 'cyntaf i mewn cyntaf allan'.

p. Treth gyfredol a gohiriedig

Mae traul y dreth yn cynnwys treth gyfredol a gohiriedig. Cyfrifir cost y dreth gyfredol ar y sail o gyfreithiau treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn hanfodol ar ddyddiad y Fantolen.

Mae treth ohiriedig yn codi o wahaniaethau amseru sy'n wahaniaethau rhwng elwau trethadwy a chyfanswm incwm cynhwysfawr fel y datgenir yn y datganiadau ariannol. Mae'r gwahaniaethau amseru hyn yn codi o gynhwysiad incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rheiny maent yn cael eu cydnabod ynddynt mewn datganiadau ariannol.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar bob gwahaniaeth amseru ar y dyddiad adrodd heblaw am eithriadau penodol. Cydnabyddir colledion treth ac asedau treth gohiriedig eraill yn unig pan fo'n debygol y cânt eu hadfer yn erbyn dirymiad rhwymedigaethau treth gohiriedig neu elwau treth eraill yn y dyfodol.

Mesurir treth ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn hanfodol erbyn diwedd y cyfnod ac y disgwylir iddynt fod yn gymwys i ddirymiad y gwahaniaeth amseru.

q. Costau pensiwn

Ar gyfer cynlluniau cyfrannu diffiniedig y swm a godir i'r datganiad incwm mewn perthynas â chostau pensiwn a buddion eraill unigolion ar ôl ymddeol yw'r cyfraniadau taladwy yn y flwyddyn. Dangosir gwahaniaethau rhwng cyfraniadau taladwy yn y flwyddyn a chyfraniadau a dalwyd mewn gwirionedd naill ai fel croniadau neu ragdaliadau yn y fantolen.

r. Grantiau

Credydgr grantiau derbyniadwy parthed asedau sefydlog dirweddol i'r datganiad incwm dros fywydau defnyddiol disgwylidig yr asedau perthnasol y cyfeiriant atynt. Cynhwysir grantiau a dderbyniwyd ond sydd heb eu rhyddhau eto i'r datganiad incwm fel incwm gohiriedig yn y fantolen. Rhyddheir grantiau refeniw i'r datganiad incwm yn yr un flwyddyn a'r gost berthynol.

s. Cyfalyfu'r llog

Mae'r llog yn cael ei gyfalafu ar brosiectau datblygu mawr

a gweithiau cyfalaf ar waith lle bo'n briodol. Mae cyfalafu yn peidio pan gwblheir yn hanfodol yr holl weithgareddau angenrheidiol i gael yr ased yn barod i'w ddefnyddio. Amorteiddir llog wedi'i gyfalafu i'r datganiad incwm dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased y mae'n cyfeirio ato.

t. Offerynnau ariannol

Mae'r Grŵp wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 o FRS102 parthed offerynnau ariannol.

(i) Asedau ariannol

Mae asedau ariannol sylfaenol, gan gynnwys dyledwyr masnach ac eraill, balansau banc a benthyciadau dyledus gan ranbarthau a chlybiau, yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar bris trafod, oni bai bod y trefniant yn cyfansoddi trafodiad ariannol, lle mesurir y trafodiad wrth y gwerth presennol o'r derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd y farchnad o log.

Mae'r fath asedau wedyn yn cael eu cludo ar gost amortiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd asesir asedau ariannol ar gost amortiedig ar gyfer tystiolaeth wrthrychol o amhariad. Cânt eu hasesu'n unigol am amhariad yn y lle cyntaf, neu'n gasgliadol lle nad yw'r dyledwyr arwyddocaol yn unigol. Lle nad oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad ar gyfer dyledwr unigol, fe'i cynhwysir mewn grŵp o ddyledwyr gyda nodweddion risg credyd tebyg a chaiff y rhain eu hasesu'n gasgliadol ar gyfer amhariad yn seiliedig ar eu hoedrannau.

Os oes amhariad ar yr ased colled yr amhariad yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerth cario a gwerth amcan presennol y llifau arian wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog effeithiol gwreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled amhariad mewn elw neu golled.

Os oes gostyngiad yn y golled amhariad o ddigwyddiad yn digwydd ar ôl i'r amhariaeth gael ei gydnabod, caiff yr amhariad ei ddirymu. Mae'r dirymiad yn gyfryw nad yw'r swm cario cyfredol yn fwy na beth fyddai'r swm cario pe na bai'r amhariad wedi cael ei adnabod yn flaenorol. Cydnabyddir y golled amhariad mewn elw neu golled.

Mae asedau ariannol eraill, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti sydd ddim yn is-gwmnïau, gyd-gwmnïau neu fentrau ar y cyd, yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, sydd fel arfer yn bris trafodiad.

Mae'r fath asedau wedyn yn cael eu cario ar werth teg ac mae'r newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn elw neu golled, heblaw bod buddsoddiadau mewn

offerynnau ecwiti sydd ddim yn cael eu cyfnewid yn gyhoeddus ac nad oes modd mesur yn ddibynadwy eu gwerthoedd teg yn cael eu mesur ar gost ar ôl tynnu amhariad.

Anghydnabyddir asedau ariannol pan (a) fo'r hawliau cytundebol i'r llif arian yn dod i ben neu'n cael eu cytuno, neu (b) trosglwyddir yn sylweddol holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yr ased i barti arall neu (c) er cadw rhai risgiau a gwobrau perchnogaeth arwyddocaol, mae rheolaeth yr ased wedi cael ei throsglwyddo i barti arall sydd â'r gallu ymarferol i werthu'n unochrog i drydydd parti nad yw'n perthyn heb osod cyfyngiadau ychwanegol.

(ii) Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, gan gynnwys taliadau masnach ac eraill, benthyciadau banc a benthyciadau gan gyd-gwmnïau grŵp sy'n cael eu dosbarthu fel dyled, yn y lle cyntaf ar bris y trafodiad, oni bai bod y trefniant yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, lle mae'r offeryn dyled yn cael ei fesur ar y gwerth presennol o daliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad.

Mae offerynnau dyled wedyn yn cael eu cario ar gost amortiedig, gan ddefnyddio dull y gyfradd llog effeithiol.

Mae credydwyr masnach yn rhwymedigaeth i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yng nghwrs arferol busnes gan gyflenwyr. Mae cyfrifon taladwy yn cael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os nad felly, fe'u cyflwynir fel rhwymedigaethau anghyfredol. Cydnabyddir credydwyr masnach yn y lle cyntaf ar bris trafodiad ac wedyn fe'u mesurir ar gost amortiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Mae'r offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y Grŵp yn gyfnewidiadau cyfradd llog a chontractau blaen cyfradd cyfnewid tramor.

Cydnabyddir deilliadau yn y lle cyntaf ar werth teg ar y dyddiad yr eir i mewn i gontract deilliadol ac fe'u hailfesurir wedyn ar eu gwerth teg ar ddata pris y farchnad o gymheiriaid perthnasol. Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth teg deilliadau mewn elw a cholled mewn costau ariannu fel y bo'n briodol, oni bai eu bod wedi'u cynnwys mewn trefniant sicrwydd.

Anghydnabyddir rhwymedigaethau pan fo'r rhwymedigaeth wedi'i therfynu, hynny yw pan pan for'r rhwymedigaeth gytundebol wedi'i chwblhau, ei diddymu neu wedi dod i ben.

(iii) Mantoli

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau eu mantolio a'r symiau net eu cyflwyno yn y datganiadau ariannol pan fo hawl orfodadwy gyfreithiol i fantoli'r symiau a gydnabyddir bod bwriad i gytuno ar sail net neu i wireddu'r ased a thalu'r rhwymedigaeth yr un pryd.

(iv) Trefniadau sicrwydd

Mae'r Grŵp yn cymhwyso cyfrifeg sicrwydd parthed contractau blaen cyfnewid tramor i reoli dinoethiadau llif arian rhagweld trafodion a ddynodir mewn arian tramor. Mae'r sicrwyddau cyfnewid tramor hyn wedi cael eu dynodi fel sicrwyddau llif arian.

Mae'r Grŵp hefyd yn cymhwyso cyfrifeg sicrwydd ar gyfer trafodion yr aethpwyd i mewn iddynt i reoli amlygiad llif arian benthyciadau. Delir cyfnewidiadau cyfradd llog i reoli'r dinoethiad cyfradd llog ac fe'u dynodir fel sicrwyddau llif arian benthyciadau cyfradd cylchredol.

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerthoedd teg deilliannau a ddynodir fel sicrwyddau llif arian, ac sy'n aneffeithiol, mewn ecwiti. Cydnabyddir unrhyw aneffeithiolrwydd yn y berthynas sicrwydd (sef gormodedd newid cronol mewn gwerth teg o'r offeryn sicrwydd ers cychwyn y sicrwydd dros y newid cronedig yng ngwerth teg yr eitem sicrwydd ers cychwyn y sicrwydd) yn y datganiad incwm.

Aildosberthir yr ennill neu golled mewn incwm cynhwysfawr arall i'r datganiad incwm pan ddaw'r berthynas sicrwydd i ben. Daw cyfrifeg sicrwydd i ben pan ddaw'r offeryn sicrwydd i ben, heb fod yn bodloni meini prawf sicrwydd mwyach, nid yw'r rhagolwg trafodiad yn debygol iawn, mae'r offeryn sicrwydd dyled yn cael ei anghydnabod neu mae'r offeryn sicrwydd yn cael ei derfynu.

u. Benthyciadau endid budd cyhoeddus consesiynol (gan gynnwys debenturau)

Mesurir trefniadau benthyciadau consesiynol, pan dderbynnir i ddiben hyrwyddo prif amcan y Grŵp, sy'n cynnwys unrhyw ddebenturau neu fenthyciadau banc a dderbynnir islaw'r gyfradd llog farchnad gyfredol yn y lle cyntaf wrth y swm a dderbyniwyd neu a dalwyd. Mewn blynyddoedd dilynol, addasir swm cario'r benthyciadau consesiynol yn y datganiadau ariannol i adlewyrchu unrhyw log cronedig sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy.

I'r radd bod benthyciad sydd wedi cael ei wneud yn anadferadwy, bydd colled amhariad yn cael ei chydabod yn y datganiad ariannol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



v. Arian a chyfwerthoedd arian

Mae arian yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn sy'n barod iawn i gael eu trawsnewid i symiau hysbys o arian ac sy'n destun risg heb arwyddocad o newid mewn gwerth.

w. Cydnabod rhwymedigaethau adeiladol

Bydd gofyn lle bo digwyddiad sy'n creu rhwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol ar y Grŵp ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, y gellir eu hamcangyfrif yn ddibynadwy, i dalu am y rhwymedigaeth cydnabyddir rhwymedigaeth yn llawn yn y cyfnod pan ddigwyddodd y digwyddiad.

Mesurir rhwymedigaethau adeiladol ar werth presennol gwariannau y disgwylir y bydd eu hangen i dalu am y rhwymedigaeth. O dan rhai amgylchiadau gall trosglwyddo arian i dalu am y rhwymedigaeth ddigwydd mewn cyfnodau sy'n dilyn.

x. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifeg y Grŵp

(i) Rheolaeth MSEL (nodyn 10)

Mae angen pwyso a mesur wrth asesu a yw'r Grŵp yn rheoli MSEL. Mae'r Grŵp yn dal 83.5% o hawliau pleidleisio MSEL ac mae ganddo gynrychiolaeth fwyafrifol o 75% ar y bwrdd ond trwy gytundeb y cyfranddalwyr mae nifer o benderfyniadau sy'n gofyn am gydsyniad unfrydol yr holl gyfranddalwyr. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi asesu bod y penderfyniadau sy'n gofyn am gydsyniad unfrydol yn rhoi hawliau gwarchodol yn unig a bod rheolaeth dros benderfyniadau gweithredol dydd i ddydd a phenderfyniadau ariannol strategol yn cael eu cadw gan y Grŵp. Felly, mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried bod MSEL yn is-gwmni i'r cwmni a bod canlyniadau MSEL yn cael eu cynnwys yn natganiadau ariannol cyfunol y Grŵp.

(ii) Cymhwyster y Grŵp fel Endid Budd Cyhoeddus

Mae angen pwyso a mesur wrth asesu a yw'r Grŵp yn gymwys i fod yn Endid Budd Cyhoeddus. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi adolygu diffiniad endid budd cyhoeddus, yn ôl Rhestr Termau FRS102, ac yn ystyried bod hyn wedi cael ei ateb gan mai prif amcan y Grŵp yw hybu, meithrin, annog, rheoli a gwella rygbi ledled Cymru gydag unrhyw gyfoeth a grëir gan y Grŵp, gan ystyried ei statws cyfreithiol, yn cael ei ailfuddsoddi yn ôl i Rygbi Cymru yn hytrach na darparu gwobr ariannol i'w aelodau. Felly,

mae'r Cyfarwyddwyr wedi mabwysiadu safonau endid budd cyhoeddus FRS102 wrth baratoi datganiadau ariannol cyfunol y Grŵp.

(iii) Gweithredu fel arweinydd parthed arian cystadleuaeth

Mae asesu a yw'r Grŵp yn gweithredu fel asiant neu arweinydd wrth dderbyn incymau cystadleuaeth yn gofyn am bwyso a mesur. Mae'r Grŵp yn derbyn refeniw gan drefnwyr cystadlaethau y mae'r Rhanbarthau yn cymryd rhan ynddynt, sef y Pro 12, Cwpan Pencampwyr Ewrop a Chwpan Her Ewrop. Trosgwyddir y refeniw net i'r Rhanbarthau. Asesodd y Grŵp y ffactorau a gyflwynwyd yn y cytundebau unigol gyda'r Rhanbarthau a darparwyr y gystadleuaeth a daethant i'r casgliad bod ei allu i sefydlu'r enillion masnachol ac i berfformio'i ymrwymiad cytundebol yn darparu tystiolaeth ddigonol ei fod yn arwain yn y trafodiad gyda'r darparwr cystadleuaeth perthnasol.

y. Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifeg allweddol

Mae'r Grŵp yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Bydd yr amcangyfrifon sy'n dilyn, o ddiffiniad, yn anaml yn hafal i'r canlyniadau gwirioneddol berthynol. Cyfeirir at yr amcangyfrifon a'r thybiaethau sydd â risg arwyddocaol o achosi unioniad o bwys yn y symiau trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf isod.

(i) Gwerth trosglwyddo buddsoddiad y Cwmni yn MSEL (nodyn 10)

Mae'r cwmni yn dal buddsoddiad arwyddocaol yn MSEL. Mae'r cwmni yn ystyried a yw gwerth trosglwyddo'r buddsoddiad hwn yn briodol wrth amcangyfrif gwerth net presennol llifau arian a ddisgwylir yn y dyfodol o'r buddsoddiad. Mae amcangyfrif gwerth net presennol llifau arian yn y dyfodol yn gofyn am gyfuniad o dybiaethau gan gynnwys refeniwiau a chostau, ynghyd â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir.

(ii) Amhariad o ased annirweddol (nodyn 8)

Mae'r Grŵp yn ystyried a oes amhariad ar asedau annirweddol. Lle caiff dangosiad o amhariad ei adnabod mae'r amcangyfrif o werth adferadwy yn gofyn am amcangyfrif o werth adferadwy'r unedau sy'n cynhyrchu arian (UCA). Mae hyn yn gofyn am amcangyfrif llifau arian o'r UCA a hefyd dethol cyfraddau disgownt priodol er mwyn cyfrifo gwerth net presennol y llifau arian hynny.

2. Dadansoddiad Busnes

Mae'r holl incwm yn deillio o weithgareddau o fewn y DU. Darperir y wybodaeth isod fel gwybodaeth ychwanegol. .

(a) Trosiant	2016 £'m	2015 £'m
Dadansoddir trosiant fel a ganlyn:		
Incwm gêm	27.9	35.4
Incwm masnachol	12.3	10.4
Incwm lletygarwch ac arlwygo	11.4	8.2
Incwm digwyddiad arall	5.4	1.3
Incwm arall	6.6	1.4
	63.6	56.7
Incwm cystadleuaeth	9.7	8.1
	73.3	64.8

Ailddatganwyd trosiant ar gyfer 2015 i grosio i fyny incwm masnachol a ddangoswyd yn flaenorol net o rai costau uniongyrchol. Nid oes gan hyn effaith ar elw gweithredol.

Mae incwm digwyddiad arall yn cynrychioli symiau derbyniadwy parthed ffioedd llwyfannu ac incwm tebyg arall yn codi o fewn Stadiwm Principality ar gyfer digwyddiadau sydd ddim yn cael eu hyrwyddo gan y Cwmni. Yn 2016, mae incwm arall yn cynnwys £4.7miliwn (2015: £dim) parthed grant o'r Ymddiriedolaeth Bwrdd Rygbi Rhyngwaldol a £0.6miliwn (2015: £0.5miliwniliwn) o grantiau a dderbyniwyd gan Chwaraeon Cymru, wedi'i hafalu gan wariant cynwysiedig yng nghostau rygbi cymunedol.

Mae incwm cystadleuaeth yn cynrychioli symiau dderbyniwyd o Rygbi Clwb Proffesiynol Ewropeaidd, a Rygbi Celtaidd Cyfyngedig mewn ystyriaeth ar gyfer timau'n cymryd rhan a enwebir gan y Grŵp yng nghystadlaethau yr endidau hynny yn eu tro. I'r graddau bod y timau a enwebwyd wedi cymryd rhan yn y cystadlaethau hynny mae, dan delerau'r cytundebau cymryd rhan gyda'r timau a enwebwyd, rhwymedigaeth ar y Grŵp ynghylch y cystadlaethau, iddynt.

(b) Mae cyfanswm costau fel a ganlyn:	2016 £'m	2015 £'m
Costau gweithredol (gwler (c) isod)	43.1	34.5
Eitemau eithriadol (gweler nodyn 4)	(0.2)	(10.0)
Dibrisiant ac amorteiddiad - net o ryddhad grant	3.7	3.5
Dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig (gweler (d) isod)	25.2	22.6
	71.8	50.6

(c) Costau gweithredol:	2016 £'m	2015 £'m
Busnes a gweinyddu	7.1	6.7
Uniongyrchol	16.8	11.7
Costau lletygarwch ac arlwygo	6.0	3.6
Rygbi elitaid	4.3	4.3
Rygbi cymunedol	3.6	2.8
Stadiwm	5.3	5.4
	43.1	34.5

(d) Dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig	2016 £'m	2015 £'m
Dadansoddir y rhain fel a ganlyn:		
Incwm cystadleuaeth (gweler nodyn 2(a))	9.7	8.1
Cytundebau Deuol Cenedlaethol (gweler nodyn 5)	2.1	2.0
Yn uniongyrchol oddi wrth y Cwmni	7.5	7.1
Rhanbarthau – rygbi proffesiynol	19.3	17.2
Clybiau – rygbi lled broffesiynol	1.6	1.4
Clybiau – rygbi cymunedol a rhai cysylltiedig	4.3	4.0
	25.2	22.6

NODIADAU I'R
DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



3. Costau ariannu

	2016 £'m	2015 £'m
Llog taladwy a chostau tebyg		
Llog taladwy ar fenthyciadau banc a chyffelyb	0.7	0.8
Taliadau banc	0.2	0.5
Cyfanswm	0.9	1.3

4. Elw ar weithgareddau arferol cyn treth

Cyrhaeddir elw ar weithgareddau arferol cyn treth wrth neu ar ôl codi tâl/(credydu):

	Nodyn	2016 £'m	2015 £'m
Dibrisiant ar asedau dan berchnogaeth	9	5.3	5.1
Amortiddiad asedau annirweddol	8	0.3	0.3
Rhyddhau incwm a ohiriwyd (rhyddhau grant)		(1.9)	(1.9)
Tâl net i'r datganiad incwm		3.7	3.5
Rhentu tir ac adeiladau		0.4	0.4
Eitemau eithriadol	Nodyn		
Ad-daliad o ailasesu trethi busnes	(a)	(0.3)	-
Costau Ailstrwythuro	(b)	0.1	-
Benthyciad tranche C a ryddhawyd yn gyfnewid am un cyfranddaliad	(c)	-	(10.0)
Cyfanswm eitemau eithriadol		(0.2)	(10.0)

Yn ystod y flwyddyn gyfredol a blaenorol, achosodd y Grŵp gostau oedd oherwydd eu maint a'u natur yn cael eu hystyried yn 'eithriadol'. Er mwyn cynorthwyo i ddeall canlyniadau y Grŵp roedd y Cyfarwyddwyr yn credu ei bod yn briodol i ddangos elw gweithredol y Grŵp cyn eitemau eithriadol ar wyneb y datganiad incwm fel gwybodaeth ychwanegol. Dangosir sylwebaeth fanwl isod:

2016:

(a) Yn dilyn asesiadau gwerth trethiannol 2005 a 2010, heriodd y Grŵp y gwerth a briodolwyd i'r caeau a'r arena dan do yng Nghanolfan Ragoriaeth Genedlaethol Undeb Rygbi Cymru. Derbyniodd y Grŵp hysbysiad yn ystod y flwyddyn bod yr her hon wedi bod yn llwyddiannus. Arweiniodd yr asesiad diwygiedig at daliadau trethi busnes is ar gyfer y cyfnod 2005 i 2016. Roedd ad-daliadau a dderbyniwyd parthed trethi y codwyd gormod amdanynt ar gyfer y cyfnod 2005 i 2015 wedi cael eu trin fel incwm eithriadol.

(b) Achosodd y Grŵp gostau ailstrwythuro a ystyriwyd yn eithriadol.

2015:

(c) Yn ystod 2015 cafodd y Benthyciad Tranche C o £10miliwn a oedd yn ddyledus yn flaenorol gan y Grŵp ei ryddhau yn gyfnewid am ryddhau un cyfranddaliad yn Millennium Stadium ccc. Asesir gwerth teg y cyfranddaliad hwn yn £1, sy'n hafal i'r gwerth par, ac felly cafodd yr ennill dilynol ei drin fel incwm eithriadol.

4. Elw ar weithgareddau arferol cyn treth (parhad)

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Grŵp y gwasanaethau canlynol oddi wrth archwilydd y Grŵp:

	2016 £'000	2015 £'000
Ffioedd taladwy i archwilydd y Cwmni ar gyfer archwiliad y rhiant gwmni a datganiadau ariannol cyfunol	24	66
Ffioedd taladwy i archwilydd y Cwmni am wasanaethau eraill:		
Yr archwiliad o is-gwmnïau'r Cwmni yn unol â deddfwriaeth	23	28
Gwasanaethau cydymffurfiaeth trethiant	19	26
Gwasanaethau diarchwiliad eraill	25	35

5. Niferoedd staff a chostau

	2016 Grŵp	2015 Grŵp	2016 Cwmni	2015 Cwmni
Niferoedd staff				
Nifer misol ar gyfartaledd o weithwyr, gan gynnwys cyfarwyddwyr gyda chontract gwasanaeth, yn ystod y flwyddyn oedd:				
Rheoli a gweinyddu	70	69	38	38
Uniongyrchol	22	24	20	21
Rygbi elitaidd	31	29	31	29
Rygbi cymunedol	54	53	54	53
Stadiwm	35	36	-	-
	212	211	143	141

Nid yw'r niferoedd staff uchod yn cynnwys unrhyw chwaraewyr yn cynrychioli'r timau cenedlaethol (gan gynnwys y rheiny ar Gontractau Deuol Cenedlaethol), stiwardiaid a gyflogir ar gyfer digwyddiadau nac yn cynnwys Cyfarwyddwyr anweithredol y Cwmni.

	2016 Grŵp £'m	2015 Grŵp £'m	2016 Cwmni £'m	2015 Cwmni £'m
Costau staff				
Roedd costau staff yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:				
Cyflogau	7.9	7.9	5.8	5.8
Costau nawdd cymdeithasol	0.9	0.8	0.7	0.7
Costau pensiwn – cynlluniau cyfrannu diffiniedig	0.7	0.7	0.6	0.5
	9.5	9.4	7.1	7.0

Nid yw'r niferoedd uchod yn cynnwys costau mewn perthynas â chwaraewyr wedi'u cytundebu'n Ddeuol Genedlaethol. Roedd cyfanswm costau'r chwaraewyr hyn ar gyfer darpariaeth eu gwasanaethau (gan gynnwys rhwymedigaethau masnachol) yn dod i £3.2miliwn (2015: £2.1miliwn), y derbyniwyd cyfraniad o £1.2miliwn ar ei gyfer (2015: £0.8miliwn) gan y Rhanbarthau. O dan delerau'r Cytundeb Gwasanaethau Rygbi gyda'r Rhanbarthau, mae gofyn i'r Grŵp dalu unrhyw arian dros ben o'r £2.1miliwn a ddynodwyd ar gyfer chwaraewyr wedi'u cytundebu'n Ddeuol Genedlaethol i'r Rhanbarthau. Roedd y balans o £0.1miliwn felly yn ddyledus i'r Rhanbarthau ac roedd cyfanswm o £2.1miliwn felly'n briodoledig i'r elfen chwaraewyr wedi'u cytundebu'n Ddeuol Genedlaethol o ddynodiadau Rhanbarthau (nodyn 2(d)).

Yn ychwanegol at y symiau uchod, telir £4.4miliwn (2015: £1.9miliwn) fel tâl wrth gynrychioli'r Garfan Genedlaethol. Cynhwysir y costau hyn mewn costau Uniongyrchol o fewn costau Gweithredol (gweler Nodyn 2 (c)).

NODIADAU I'R
DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



5. Niferoedd staff a chostau (parhad)

Enillion Cyfarwyddwyr	2016 £'000	2015 £'000
Roedd enillion y Cyfarwyddwyr, yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:		
• Enillion cyfansymiol	406	399
• Buddion	22	19
• Cyfraniadau'r Cwmni i gyfraniad cynllun pensiwn diffiniedig	-	-
	428	418

Mae'r enillion uchod yn cynnwys Ffioedd o £64,000 (2015: £44,000 – dau gadeirydd) sy'n daladwy i'r Cadeirydd. Derbyniodd y Grŵp £14,000 (2015: £14,000) oddi wrth drydydd partion parthed yr enillion uchod. Mae un Cyfarwyddwr yn cronni buddion dan gyllun pensiwn cyfrannu diffiniedig (2015: one).

Enillion y cyfarwyddwr a delir uchaf	2016 £'000	2015 £'000
Roedd enillion y cyfarwyddwr a delir uchaf, yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn:		
Enillion cyfansymiol	223	349
Buddion	31	13
	254	362

Mae enillion y Cyfarwyddwr a delir uchaf yn 2016 yn perthyn i'r cyfnod o Hydref 2015 i Fehefin 2016, sef cyfnod gwasanaeth yn y flwyddyn. Mae'r swm yn 2015 yn gost blwyddyn gyfan.

Iawndal rheolaeth allweddol

Mae iawndal rheolaeth allweddol yn cynnwys aelodau o'r uwch reolwyr. Mae'r iawndal a dalwyd neu sy'n daladwy i reolaeth allweddol ar gyfer gwasanaethau gweithwyr yn cael ei ddangos isod:

	2016 £'000	2015 £'000
Cyflogau neu fuddion eraill tymor byr	1,298	1,157
Cyfraniadau'r Cwmni i gyfraniad cynllun pensiwn diffiniedig	131	128
	1,429	1,285

6. Treth incwm

(a) Traul treth wedi'i gynnwys yn y datganiad incwm

Treth gyfredol	2016 £'m	2015 £'m
Treth gorfforaeth DU ar ganlyniad am y flwyddyn	0.5	0.8
Diwygiad parthed blynyddoedd blaenorol	0.1	(0.1)
Cost cyfanswm treth gyfredol	0.6	0.7

Treth a ohiriwyd	2016 £'m	2015 £'m
Tarddiad a dirymiad gwahaniaethau amseru	(0.1)	(0.1)
Newidiadau mewn cyfraddau treth a chyfreithiau	(0.2)	-
Cyfanswm treth a ohiriwyd	(0.3)	(0.1)

Cost cyfanswm treth ar weithgareddau arferol (Nodyn 6(c))

0.3	0.6
-----	-----

6. Treth incwm (parhad)

	2016 £'m	2015 £'m
(b) Traul treth a gynhwyswyd mewn incwm cynhwysfawr arall		
Treth a ohiriwyd	(0.1)	-
Tarddiad a dirymiad gwahaniaethau amseru	(0.1)	-
Cyfanswm credyd treth a ohiriwyd mewn incwm cynhwysfawr arall		

(c) Cysoni cost treth

Mae'r dreth gyfredol a aseswyd ar gyfer y flwyddyn yn uwch (2015: is) na chyfradd safonol treth corfforaeth yn y DU o 20.0% (2015: 20.75%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

	2016 £'m	2015 £'m
Elw ar weithgareddau arferol cyn treth	0.6	12.9
Elw wedi'i luosi gan gyfraddau safonol o dreth gorfforaeth yn y DU o 20.0% (2015: 20.75%)	0.1	2.7
Effeithiau o:		
Dreuliau sydd ddim yn dynadwy i ddibenion treth ac incwm nad yw'n drethadwy	0.3	(2.0)
Newidiadau cyfradd dreth	(0.2)	-
Diwygiadau parthed cyfnod blaenorol – treth gorfforaeth	0.1	(0.1)
Cyfanswm cost treth am y flwyddyn (Nodyn 6(a))	0.3	0.6

Cyhoeddwyd newidiadau i gyfraddau treth gorfforaeth y DU yng Nghyllideb y Canghellor ar 8 Gorffennaf 2015. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiadau i'r brif gyfradd i 19% o 1 Ebrill 2017 ac i 18% o 1 Ebrill 2020. Deddfwyd y newidiadau yn hanfodol erbyn dyddiad y fantolen ac felly cynhwyswyd eu heffeithiau yn y datganiadau ariannol hyn.

Cyhoeddodd Datganiad Cyllideb Mawrth 2016 newid pellach i gyfradd Treth Gorfforaeth y DU a fydd yn awr yn gostwng prif gyfradd treth gorfforaeth i 17% o 1 Ebrill 2020. Gan nad yw'r newid wedi cael ei ddeddfu'n hanfodol erbyn dyddiad y fantolen, nid yw ei effeithiau wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Effaith gyffredinol y newid hwn, pe bai wedi bod yn gymwys i'r balans treth ohiriedig ar ddyddiad y fantolen, fyddai gostwng y rhwymedigaeth dreth ohiriedig o tua £0.1miliwn a gostwng traul y dreth ar gyfer y cyfnod o tua £0.1miliwn.

Felly, mae'r balans treth ohiriedig wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfradd o 18%

7. Elw'r Cwmni

Nid yw'r Cwmni wedi cyflwyno ei ddatganiad incwm ei hun, fel y caniateir gan adran 408 o Ddeddf y Cwmnïau 2006. Yr elw cyn ac ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn ariannol parthed y Cwmni oedd £3.9miliwn a £3.8miliwn (2015: £7.3miliwn a £6.5miliwniliwn) yn eu tro.

NODIADAU I'R
DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



8. Asedau sefydlog annirweddol

	Hawliau Arlwyo Lletygarwch £'m	Grŵp Cyfanswm £'m
Cost		
Ar 1 Gorffennaf 2015 a 30 Mehefin 2016	3.3	3.3
Amorteiddiad cronedig		
Ar 1 Gorffennaf 2015	0.3	0.3
Newid am y flwyddyn	0.3	0.3
Ar 30 Mehefin 2016	0.6	0.6
Gwerth net llyfr		
Ar 30 Mehefin 2016	2.7	2.7
Ar 30 Mehefin 2015	3.0	3.0

9. Asedau sefydlog dirweddol

	Stadiwm £'m	Canolfan Ragoriaeth £'m	Adeiladau eraill £'m	Tir £'m	Asedau sefydlog eraill £'m	Grŵp Cyfanswm £'m	Cwmni Cyfanswm £'m
Cost							
Ar 1 Gorffennaf 2015	138.8	3.4	1.7	37.6	7.1	188.6	40.1
Ychwanegiadau	-	-	-	-	0.7	0.7	-
Defnyddiau o arian	-	-	-	-	(0.5)	(0.5)	-
Ar 30 Mehefin 2016	138.8	3.4	1.7	37.6	7.3	188.8	40.1
Dibrisiant cronedig							
Ar 1 Gorffennaf 2015	56.8	1.5	1.3	-	3.4	63.0	1.7
Newid am y flwyddyn	3.9	0.3	0.1	-	1.0	5.3	0.1
Defnyddiau o arian	-	-	-	-	(0.5)	(0.5)	-
Ar 30 Mehefin 2016	60.7	1.8	1.4	-	3.9	67.8	1.8
Gwerth net llyfr							
Ar 30 Mehefin 2016	78.1	1.6	0.3	37.6	3.4	121.0	38.3
Ar 30 Mehefin 2015	82.0	1.9	0.4	37.6	3.7	125.6	38.5

Wedi'i gynnwys yng nghost y stadiwm mae costau llog cronedig wedi'u cyfalafu o £4.6miliwn (2015: £4.6miliwn). Mae cost y dibrisiant yn cynnwys swm o £0.1miliwn (2015: £0.1miliwn) yn cynrychioli dibrisiant o log a gyfalafwyd yn flaenorol.

Mae asedau sefydlog eraill yn cynnwys offer a pheirianwaith a ffitiadau a gosodiadau. Mae asedau sefydlog dirweddol y Cwmni yn perthyn i dir yn bennaf.

Mae'r holl dir ac adeiladau ym meddiant y Grŵp o fewn asedau sefydlog dirweddol yn asedau rhydd-ddaliadol.

10. Buddsoddiadau

Nid oes gan y Grŵp unrhyw fuddsoddiadau materol.

Roedd gan y Cwmni fuddsoddiad ecwiti £50,000 yn Millennium Stadium ccc, buddsoddiad £10,000 yng Nghanolfan Ragoriaeth Genedlaethol Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig a buddsoddiad ecwiti £16,500,000 ym Mhrofiad Stadiwm y Mileniwm Cyfyngedig ar 30 Mehefin 2016 a 30 Mehefin 2015. Cedwir yr holl fuddsoddiadu ar gost hanesyddol.

Is-gwmnïau a buddsoddiadau eraill a ddaliwyd yn uniongyrchol gan y Cwmni ac y mae gan y Cwmni ddiddordeb buddiol ynddynt ar 30 Mehefin oedd:

10. Buddsoddiadau (parhad)

Cwmni	Prif weithgaredd	Gwlad ymgorfforiad	% perchnogaeth o gyfrandaliadau cyffredin
Is-gwmnïau:			
Millennium Stadium ccc	Gweithredu stadia	Teyrnas Unedig	100%
Profiad Stadiwm y Mileniwm Cyfyngedig	Darpau lletygarwch ac arlwyo	Teyrnas Unedig	83.5%
Clwb Cefnogwyr Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig	Marchnata	Teyrnas Unedig	100%
Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol	Darparu cyfleusterau hyfforddi	Teyrnas Unedig	100%
Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig			
Buddsoddiadau eraill:			
Rygbi Chwe Gwlad Cyfyngedig	Rheolaeth cystadleuaeth	Gweriniaeth Iwerddon	17%
Rygbi Celtaidd Cyfyngedig	Rheolaeth cystadleuaeth	Gweriniaeth Iwerddon	33%
Llewod Prydeinig Cyfyngedig	Teithiau rygbi tramor	Gweriniaeth Iwerddon	25%
Rygbi Saith Bob Ochr Prydain Fawr Cyfyngedig	Cystadleuaeth Saith Bob Ochr Olympaidd	Teyrnas Unedig	33%

Roedd y buddsoddiadu uchod yr un peth ac ar 30 Mehefin 2015, heblaw bod y Cwmni hefyd yn berchen ar 17% o gyfrandaliadau cyffredin Cwpan Rygbi Ewropeaidd Cyfyngedig, sydd yn awr wedi cael ei ddiddymu.

Yn ychwanegol at y cyfranddaliadau uchod mae'r Cwmni yn un o naw aelod Rygbi Clwb Proffesiynol Ewropeaidd, cymdeithas o'r Swistir a'i brif weithgaredd yw rheoli'r cystadlaethau clwb Ewropeaidd perthnasol.

O ystyried gwariant buddsoddiadau eraill, mae anallu'r Grŵp i ymarfer dylanwad arwyddocaol dros y buddsoddiadau uchod gyda llai na 100% cyfranddaliadau ac ansylweddoldeb eu henillion net a'u hasedau net wedi derbyn incwm gan y Grŵp ym muddsoddiadau eraill uchod, nid yw'r Cyfarwyddwyr yn credu bod y buddsoddiadau hyn yn syrthio i gael eu trin fel cwmnïau cysylltiol. Datgenir buddsoddiadau ased sefydlog ar y gost a gwerth is.

Mae bancwyr y Grŵp yn dal un cyfranddaliad yn Millennium Stadium ccc (2015: un cyfranddaliad) ac mae gan y cyfranddaliad hwn yr un hawliau â'r cyfranddaliadau ym meddiant y Cwmni. Yn ychwanegol, mae Cyngor Sir Caerdydd ("CCC") yn dal un cyfranddaliad yn Millennium Stadium ccc (2015: un cyfranddaliad); mae'r cyfranddaliad hwn yn rhoi rhai hawliau yn unig ac nid yw'n rhoi unrhyw ddifidendau i CCC nac unrhyw hawliau i symiau derbyniadwy wrth ddirwyn i ben.

11. Stoc	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Nwyddau ar gyfer ailwerthu	0.8	0.7	-	-
Deunyddiau crai	0.1	-	-	-
	0.9	0.7	-	-

Swm y stoc sy'n cael ei gydnabod fel traul yn y flwyddyn yw £3.4miliwn (2015: £1.6miliwn).

12. Dyledwyr

Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Dyledwyr masnach	3.1	3.8	2.1	3.0
Benthyciadau dyledus o glybiau	0.7	0.7	0.7	0.7
Benthyciadau dyledus o Ranbarthau	2.6	1.3	2.6	1.3
Llai: darpariaeth ar gyfer amhariad ar dderbyniadau	(0.7)	(0.8)	(0.7)	(0.7)
	5.7	5.0	4.7	4.3
Rhagdaliadau a dyledwyr eraill	1.8	2.5	1.2	1.5
	7.5	7.5	5.9	5.8
Symiau dyledus ar ôl mwy nac un flwyddyn:				
Symiau dyledus gan ymgymeriadau Grŵp	-	-	48.9	51.1
Cyfanswm dyledwyr	7.5	7.5	54.8	56.9

Mae'r symiau dyledus o ymgymeriadau is-gwmni heb eu diogelu ac nid oes ganddynt ddyddiadau ad-dalu gosodedig. Codir cost llog ar gyfraddau hafal i'r trefniadau benthyciad banc ar symiau dyledus sy'n sefyll gan ymgymeriadau is-gwmni.

Mae swm cario dyledwyr yn amcan rhesymol o werth teg a'r symiau cario o ddyledwyr y Grŵp yn cael eu nodi mewn punnoedd sterling ("GBP").

NODIADAU I'R
DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



13. Arian yn y banc ac wrth law

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Balans arian yn y banc	0.2	3.1	0.3	3.0

14. Credydwyr

Symiau'n syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Benthyciadau banc	6.1	12.2	6.1	12.2
Credydwyr masnach	1.8	1.6	0.7	0.4
Symiau dyledus i ymgymeriadau Grŵp	-	-	1.0	2.0
Treth gorfforaeth	0.2	0.4	-	0.3
Treth arall a nawdd cymdeithasol	0.5	0.4	0.5	0.3
Credydwyr eraill	0.6	0.7	0.2	0.2
Croniadau ac incwm gohiriedig	15.9	14.7	10.2	11.8
	25.1	30.0	18.7	27.2

Symiau'n syrthio'n ddyledus ar ôl mwy nac un flwyddyn:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Benthyciadau banc	5.1	5.1	5.1	5.1
Debenturau	37.6	37.6	37.6	37.6
Rhwymedigaeth ariannol deilliadol (nodyn 15)	0.3	0.2	0.3	0.2
	43.0	42.9	43.0	42.9

Dadansoddiad aeddfedrwydd:

Benthyciadau banc yn ddyledus:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
O fewn un flwyddyn	6.1	12.2	6.1	12.2
Rhwng un a dwy flynedd	1.2	1.3	1.2	1.3
Rhwng dwy a phum mlynedd	3.9	3.8	3.9	3.8
	11.2	17.3	11.2	17.3

Amlinellir prif delerau'r benthyciadau hyn isod:

Benthyciadau banc	Telerau llog ac ad-dalu cyfalaf	2016 £'m	2015 £'m
Cyfleuster credyd cylchdrool	LIBOR a 2.95%, benthyciad yn ad-daladwy ar ddyddiad aeddfedrwydd	4.8	11.0
Cyfleuster A	LIBOR a 2.95%, ad-daliad benthyciad mewn rhandaliadau erbyn 2019	3.8	5.0
Cyfleuster B – Benthyciad	LIBOR a 2.95%, ad-daliad benthyciad mewn rhandaliadau erbyn 2020	2.6	1.3
Rhanbarthau		11.2	17.3

Mae prif delerau'r benthyciadau banc a ddangosir uchod yn perthyn i'r prif offeryn ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth offerynnau deilliadol.

Mae llog ar symiau a dynnir ar y cyfleuster credyd cylchdrool yn cael ei gyfeirnod i'r gyfradd LIBOR sy'n gymwys i'r cyfnod tynnu. Ar 30 Mehefin 2016 tynwyd y cyfleuster credyd cylchdrool am gyfnod o 1 mis. Ailbrisir llog ar y benthyciad Cyfleuster A pob tri mis a'i gyfeirnod i 3 mis LIBOR.

Mae symiau cario benthyciadau'r Grŵp, sy'n cynnwys benthyciadau banc a benthyciadau debentur, yn fras debyg i'w gwerth teg. Dynodir symiau cario benthyciadau'r Grŵp oll mewn punnoedd sterling.

14. Credydwyr (parhad)

Mae debenturau wedi cael eu trin fel benthyciadau consesiynol endid budd cyhoeddus gan eu bod wedi cael eu derbyn o dan gyfradd llog pennaf y farchnad ac i ddiben hyrwyddo prif amcan y Grŵp.

Sicrwydd a ddarperir ar fenthyciadau banc

Mae benthyciadau banc yn dod i gyfanswm o £11.2miliwn (2015: £17.3miliwn) yn cael eu diogelu gan gostau sefydlog a chylchredol dros asedau'r cwmni a rhai o'i is-gwmnïau.

Cyfleusterau benthg

Roedd gan y Grŵp £15.2miliwn (2015: £9.0miliwn) o gyfleusterau benthg heb eu hymrwymo ar gael ar 30 Mehefin 2016 yr oedd yr holl amodau blaenorol wedi cael eu bodloni ar y dyddiad hwnnw.

Mae benthyciadau debentur yn ad-daladwy yn:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m
2021	0.4	0.4
2024	11.6	11.6
2026	0.5	0.5
2027	2.4	2.4
2028	0.3	0.3
2030	4.8	4.8
2035	1.8	1.8
2050	15.9	15.9
	37.7	37.7
	(0.1)	(0.1)
	37.6	37.6

Costau dosbarthu anamortiedig

Mae pob benthyciad debentur heb eu diogelu ac nid ydynt yn magu llog.

Benthyciadau banc a debentur yn ad-daladwy mewn rhandaliadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar ôl pum mlynedd

Benthyciadau banc, gyda gwerth cyfanswm o £11.2miliwn (2015: £17.3miliwn), yn ad-daladwy yn gyfan gwbl neu'n rhannol o ddyddiad y fantolen mewn rhandaliadau. O'r symiau hyn, mae £dim (2015: £dim) yn ad-daladwy ar ôl pum mlynedd.

Benthyciadau debentur consesiynol, gyda cyfanswm gwerth o £37.7miliwn (2015: 37.7miliwn), yn ad-daladwy yn gyfan gwbl o ddyddiad y fantolen. O'r symiau hyn, mae £37.3miliwn (2015: £37.3miliwn) yn ad-daladwy ar ôl pum mlynedd.

15. Offerynnau ariannol

Polisi trysorlys

Mae gweithgaredd trysorlys yn canolbwyntio ar fonitro cyfalaf gweithredol, rheoli cyllido allanol a rheoli risg cyfradd llog. Nid yw gweithgaredd trysorlys yn ganolfan elw ac nid yw'r Grŵp yn mynd i mewn i drafodion o natur hapfasnachol nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol. Crynhoir polisiâu rheolaeth risg trysorlys isod:

- **Risg cyfradd cyfnewid tramor** – lle bo'n gymwys, mae'r Grŵp yn lleihau risg cyfnewid tramor gyda'r defnydd o gontractau blaen. Fel ar 30 Mehefin 2016 nid oedd gan y Grŵp risg materol graddfa cyfnewid tramor (2015: £dim).
- **Risg cyfradd llog** – cyllidir gweithgareddau trwy gymysgedd o fenthyciadau banc a benthyciadau consesiynol. Mae'r Grŵp ar hyn o bryd yn benthg mewn graddfeydd llog cylchredol ac yn defnyddio offerynnau ariannol deilliadol i gynhyrchu'r proffil llog a ddeisyfir ac i reoli bod yn agored i gyfnewidiadau graddfa llog.
- **Risg methdaliad** – polisi'r Grŵp yw i gynnal cydbwysedd rhwng phrad cyllido a hyblygrwydd. Fel ar 30 Mehefin 2016, roedd 24% (2015: 31%) o fenthyciadau yn dod i aeddfedrwydd o fewn pum mlynedd, tua 40% (2015: 28%) yn dod i aeddfedrwydd rhwng pum a phymtheng mlynedd a thua 36% (2015: 41%) yn dod i aeddfedrwydd ar ôl pymtheng mlynedd.

NODIADAU I'R
DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



15. Offerynnau ariannol (parhad)

Mae gan y Grŵp a Chwmni yr offerynnau ariannol canlynol:

Nodyn		Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Asedau ariannol sy'n offerynnau dyled wedi'u mesur ar gost amortiedig:					
• Dyledwyr masnach	12	2.4	3.0	1.4	2.3
• Benthyciadau dyledus o Ranbarthau	12	2.6	1.3	2.6	1.3
• Benthyciadau dyledus o glybiau	12	0.7	0.7	0.7	0.7
• Dyledwyr eraill	12	0.8	0.7	0.8	0.5
• Symiau dyledus gan ymgymeriadau Grŵp	12	-	-	48.9	51.1
		6.5	5.7	54.4	55.9
Asedau ariannol wedi'u mesur ar werth teg trwy incwm cynhwysfawr arall:					
• Offerynnau ariannol deilliadol		-	0.3	-	0.3
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost amortiedig:					
• Benthyciadau banc	14	11.2	17.3	11.2	17.3
• Credydwyr masnach	14	1.8	1.6	0.7	0.4
• Symiau dyledus i ymgymeriadau Grŵp	14	-	-	1.0	2.0
• Credydwyr eraill a chroniadau	14	13.6	11.9	9.8	9.4
		26.6	30.8	22.7	29.1
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar werth teg trwy incwm cynhwysfawr arall:					
• Offerynnau ariannol deilliadol		0.3	0.2	0.3	0.2

Offerynnau ariannol deilliadol – contractau blaen

Mae'r Grŵp yn mynd i mewn i gontractau blaen arian tramor i leihau'r risg graddfa gyfnewid ar gyfer rhai nwyddau arian tramor yn y dyfodol. Mae'r contractau arian blaen yn cael eu mesur ar werth teg, a bennir gan ddefnyddio technegau prisio sy'n defnyddio mewnbynnau arsylwadwy. Y mewnbynnau allweddol a ddefnyddir wrth brisio'r deilliannau yw'r cyfraddau cyfnewid blaen. Gwerth teg y contractau blaen arian tramor yw £0.3miliwn colled (2015: £0.3miliwn ennill).

Derbynnir llifau arian ar gontractau cyfnewid tramor yn flynyddol. yn ystod 2016, cydnabuwyd colled sicrwydd o £0.3miliwn (2015: £0.3miliwn ennill) mewn incwm cynhwysfawr arall ar gyfer newidiadau yng ngwerth teg contractau blaen cyfnewid tramor aa aildosbarthwyd £0.3miliwn (2015: £0.1miliwn) o'r arian sicrwydd wrth gefn i arian wrth gefn elw a cholled.

Offerynnau ariannol deilliadol – cyfradd llog

Yn ystod y flwyddyn, disodlodd y Grŵp ei ddeilliannau graddfa llog, a symudodd y llawr a gostyngodd y cap ar ei ddyled i 1.25%. Mae'r cap wedi'i seilio ar brif swm cyfredol o £9.9m, yn hafal i tua 89% o brif swm dyled banc y Grŵp ar 30 Mehefin 2016, ac yn aeddfedu yn 2019.

Defnyddir y deilliant i warchod y Grŵp rhag bod yn agored i symudiadau cyfradd llog ar ddyled y banc. Mae'r deilliant yn gosod y cyfanswm llog taladwy ar gyfran o'r ddyled banc ar leiafswm o 1.25%. Gwerth teg deilliant y gyfradd llog yw £dim (2015: £0.2m).

Telir llifau arian ar ddeilliannau cyfradd llog yn chwarterol hyd 2019. Telir llifau arian ar y benthyciad Cyfleuster yn chwarterol hyd 2019. Telir llifau arian ar y cyfleuster credyd cylchdrool yn unol â'r cyfnod tynnu. Yn ystod 2016, cydnabuwyd colled sicrwydd o £0.1miliwn (2015: £dim) mewn incwm cynhwysfawr arall ar gyfer newidiadau yng ngwerth teg y deilliant cyfradd llog ac aildosbarthwyd £dim (2015: £dim) o'r arian sicrwydd wrth gefn i arian wrth gefn elw a cholled.

15. Offerynnau ariannol (parhad)

Ar 30 Mehefin 2016 roedd y prif symiau o ddeilliannau tybiannol yn £9.9m ac fe'u dadansoddir fel a ganlyn:

	Swm tybianno £'m	Marchnad deg gwerth £'m	Dyddiad aeddfedu
Cap cyfradd llog 1.25%	9.9	-	30 Mehefin 2019
Ar 30 Mehefin 2015 roedd prif symiau tybiannol deilliadau yn £9.5miliwn ac fe'u dadansoddir fel a ganlyn:			
	Swm tybianno £'m	Marchnad deg gwerth £'m	Dyddiad aeddfedu £'m
Cap cyfradd llog 3.75%	9.5	-	30 Mehefin 2018
Llawr cyfradd llog 2.10%	9.5	(0.2)	30 Mehefin 2018

Yn ystod y blynyddoedd hyd 30 Mehefin 2016 a Mehefin 2015, roedd deilliannau'r Grŵp yn gymwys ar gyfer cyfrifeg sicrwydd o dan FRS102. Cludir y deilliannau hyn ar werth teg fel y dadansoddir isod:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Llawr cyfradd llog	-	(0.2)	-	(0.2)
Rhwymedigaeth ariannol deilliant	-	(0.2)	-	(0.2)

16. Croniadau ac incwm ohiriedig

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Grantiau				
Ar ddechrau blwyddyn	37.2	37.5	-	-
Symiau a ad-dalwyd	(0.1)	(0.1)	-	-
Symiau a dderbyniwyd	0.2	1.7	-	-
Wedi'i ryddhau i ddatganiad incwm	(1.9)	(1.9)	-	-
Ar ddiwedd blwyddyn	35.4	37.2	-	-

Yn ystod y flwyddyn rhyddhawyd tua £1.9miliwn (2015: £1.9miliwn) i'r datganiad incwm a ddangosir uchod.

Wedi'i gynnwys o fewn y swm grantiau uchod mae swm a dderbyniwyd o Gronfa Fawr y Loteri (Comisiwn y Mileniwm gynt) yn dod i £26.0miliwn (2015: £27.2miliwn). Bydd y grant hwn yn cael ei ryddhau i ddatganiad yr incwm fel a ganlyn:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
O fewn un flwyddyn	1.2	1.2	-	-
Rhwng un a dwy flynedd	1.2	1.2	-	-
Rhwng dwy a phum mlynedd	3.6	3.6	-	-
Ymhen mwy na phum mlynedd	20.0	21.2	-	-
	26.0	27.2	-	-

O dan rhai amgylchiadau, gall y grant uchod ddod yn daladwy os yw'r Grŵp yn methu â bodloni gofynion monitro'r grant. Ar hyn o bryd mae'r Grŵp mewn cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion monitro fel nad yw dim ariannau yn ad-daladwy o dan delerau'r grant.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 30 MEHEFIN 2016



17. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Treth a ohiriwyd

Mae'r symudiad ar dreth ohiriedig fel a ganlyn:

	Grŵp 2016 £'m	Grŵp 2015 £'m	Cwmni 2016 £'m	Cwmni 2015 £'m
Rhwymedigaeth/(ased) ar ddechrau'r flwyddyn	1.5	1.6	(0.1)	(0.1)
(Wedi rhyddhau)/wedi'i gostio i'r cyfrif elw a cholled	(0.3)	(0.1)	-	-
Treth ar gydrannau incwm cynhwysfawr arall	(0.1)	-	(0.1)	-
Ar ddiwedd y flwyddyn	1.1	1.5	(0.2)	(0.1)

Mae treth ohiriedig a ddarparwyd/(cydnabuwyd) wedi'i wneud fel a ganlyn:

Lwfansau cyfalaf wedi'u cyflymu	1.3	1.6	-	-
Offerynnau ariannol deilliadol	(0.2)	-	(0.1)	-
Gwahaniaethau amseru eraill	-	(0.1)	(0.1)	0.1
	1.1	1.5	(0.2)	(0.1)

Rhwymedigaeth dreth ohiriedig net y Grŵp a ddisgwyllir i droi yn ôl yn y 12 mis nesaf yw £0.1 miliwn. Mae hyn yn perthyn yn gyntaf i ddirymiad gwahaniaethau amseru ar asedau sefydlog gan ddidyniadau treth a ddisgwyllir ar wahaniaethau amseru tymor byr (gan gynnwys symiau tynadwy i ddibenion treth ar sail daledig).

Ased treth net gohiriedig y Cwmni a ddisgwyllir i droi yn ôl yn y 12 mis nesaf yw £0.1 miliwn. Mae hyn yn perthyn yn y lle cyntaf i ddirymiad gwahaniaethau amseru ar symiau didynadwy ar sail daledig.

18. Cwmni cyfyngedig trwy warant

Mae rhwymedigaeth yr aelodau yn gyfyngedig. Mae pob aelod o'r cwmni yn ymgymryd i gyfrannu'r fath symiau yn ôl y gofyn (heb fod dros £1) i asedau'r cwmni pe bai'n dirwyn i ben tra bo'r aelod yn aelod, neu o fewn un flwyddyn wedi i aelod beidio â bod yn aelod, ar gyfer taliad o rwymedigaethau'r Cwmni cyn i aelod beidio â bod yn aelod. Ar ddyddiad y fantolen nifer yr aelodau oedd 333 (2015: 334).

19. Rhwymedigaethau amodol

Grŵp

Roedd gan y Grŵp y rhwymedigaethau amodol canlynol fel ar 30 Mehefin 2016:

- Mae'r Grŵp wedi gwarantu perfformiad rhai aelod glybiau parthed benthyciadau y mae'r aelod glybiau wedi derbyn o Fanc Barclays CCC. Y symiau dyledus yw £1.0 miliwn (2015: £1.0 miliwn).
- Mae'r Grŵp wedi gwarantu perfformiad y pedwar Rhanbarth parthed benthyciadau y mae'r Rhanbarthau wedi derbyn o Fanc Barclays CCC. Mae'r symiau a warentir yn £0.5 miliwn (2015: dim).
- Mae'r Grŵp wedi gwarantu perfformiad Rygbi Celtaidd Cyfyngedig parthed cyllido a dderbyniwyd o Barclays. Mae'r symiau a warentir yn €0.1 miliwn (2015: dim).

Cwmni

Roedd gan y Cwmni y rhwymedigaethau amodol canlynol fel ar 30 Mehefin 2016:

- Mae'r Cwmni wedi gwarantu perfformiad un o'i is-gwmnïau o dan delerau trefniadau grant yn dod i £35.4 miliwn (2015: £37.2 miliwn).
- Mae'r Cwmni wedi gwarantu perfformiad rhai aelod glybiau parthed benthyciadau y mae'r clybiau wedi derbyn o Fanc Barclays CCC. Y symiau dyledus yw £1.0 miliwn (2015: £1.0 miliwn).
- Mae'r Cwmni wedi gwarantu perfformiad y pedwar Rhanbarth parthed benthyciadau y mae'r Rhanbarthau wedi derbyn o Fanc Barclays CCC. Mae'r symiau a warentir yn £0.5 miliwn (2015: dim).

19. Rhwymedigaethau amodol (parhad)

- Mae'r Grŵp wedi gwarantu perfformiad Rygbi Celtaidd Cyfyngedig parthed cyllido a dderbyniwyd o Barclays. Mae'r symiau a warentir yn €0.1 miliwn (2015: dim).

Mae'r rŵp a Chwmni yn ymdrin â nifer fach o hawliadau cyfreithiol. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi adolygu'r holl hawliadau hyn ac, ar sail y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd, yn credu nad oes angen unrhyw ddarpariaeth. O ganlyniad ni chafodd darpariaeth ar gyfer yr hawliadau hyn eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

Ar hyn o bryd mae'n anymarferol i wneud unrhyw ddatgeliadau ychwanegol mewn perthynas ag effeithiau ariannol amcangyfrifon, eu hamseru a phosiblwydd unrhyw ad-daliad.

20. Ymrwymadau

Nid oedd gan y Grŵp na Chwmni unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 30 Mehefin 2016 neu 30 Mehefin 2015.

Ymrwymadau prydles weithredol:

Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Grŵp y taliadau prydles isafswm canlynol ar gyfer y dyfodol, o dan brydlesau gweithredol na ellir eu diddymu ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

	2016 £'m	2015 £'m
Tir ac adeiladau; o fewn		
• Un flwyddyn	0.4	0.4
• Un i ddwy flynedd	0.4	0.4
• Dwy i bum mlynedd	1.2	1.2
• Mwy na phum mlynedd	4.8	4.5

21. Costau pensiwn

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynlluniau cyfrannu diffiniedig. Cedwir asedau'r cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig ar wahân i rai'r Grŵp, o dan weinyddiaeth annibynnol. Mae tâl cost y pensiwn ar gyfer y cynlluniau hyn yn cynrychioli cyfraniadau taladwy gan y Grŵp i'r cynlluniau yn y flwyddyn i tua £0.7 miliwn (2015: £0.7 miliwn). Nid oes symiau materol wedi'u cynnwys mewn credydwy'r parthed y costau pensiwn hyn yn 2016 neu 2015.

22. Cysoni elw gweithredol i fewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

	2016 £'m	2015 £'m
EBITDA	30.2	30.3
Dyraniadau i sefydliadau cysylltiedig	(25.2)	(22.6)
Eitemau eithriadol	0.2	10.0
Dibrisiant ac amorteiddiad	(5.6)	(5.4)
Rhyddhau incwm a ohiriwyd	1.9	1.9
Elw gweithredol	1.5	14.2
Eitemau anariannol:		
Dibrisiant ac amorteiddiad	5.6	5.4
Rhyddhau incwm a ohiriwyd	(1.9)	(1.9)
Eitem eithriadol	-	(10.0)
	3.7	(6.5)
Diwygiadau cyfalaf gweithiol:		
Cynnydd mewn stoc	(0.2)	(0.4)
Gostyngiad mewn dyledwyr	-	0.6
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwy'r	1.4	(1.7)
	1.2	(1.5)
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol	6.4	6.2



23. Cysoni llif arian net â symudiad mewn dyled net

(Gostyngiad) /cynnydd mewn arian yn y flwyddyn
All-llif arian/(mewnllif) o symudiad mewn dyled
Newidiadau anariannol
Gostyngiad mewn dyled net yn ystod y flwyddyn
Dyled net ar ddechrau'r flwyddyn
Dyled net ar ddiwedd y flwyddyn

2016 £'m	2015 £'m
(2.9)	3.0
6.1	(2.3)
-	10.0
3.2	10.7
(51.8)	(62.5)
(48.6)	(51.8)

24. Dadansoddiad o ddyled net

	Arian £'m	Dyled banc dyledus o fewn un flwyddyn £'m	Dyled banc dyledus ar ôl un flwyddyn £'m	Debenturau £'m	Cyfanswm £'m
Ar 1 Gorffennaf 2015	3.1	(12.2)	(5.1)	(37.6)	(51.8)
Llif arian	(2.9)	7.4	(1.3)	-	3.2
Newidiadau anariannol	-	(1.3)	1.3	-	-
Ar 30 Mehefin 2016	0.2	(6.1)	(5.1)	(37.6)	(48.6)
Ar 1 Gorffennaf 2014	0.1	(7.8)	(17.2)	(37.6)	(62.5)
Llif arian	3.0	(4.4)	2.1	-	0.7
Newidiadau anariannol	-	-	10.0	-	10.0
Ar 30 Mehefin 2015	3.1	(12.2)	(5.1)	(37.6)	(51.8)

25. Trafodion parti perthynol

Yn unol â'r eithriad a gynigir gan baragraff 33.1A o FRS102, 'trafodion parti perthynol', nid oes dim datgeliad yn y datganiadau ariannol hyn o drafodion gydag endidau sy'n rhan o'r Grŵp.
Gweler nodyn 5 ar gyfer datgeliad tâl Cyfarwyddwyr ac iawndal rheolaeth allweddol.

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Ein barn

Yn ein barn ni, mae adroddiadau ariannol Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig ac adroddiadau ariannol y cwmni (Yr "adroddiadau ariannol"):

- yn cynnig darlun cywir a theg o gyflwr y Grŵp a materion y cwmni ar 30 Mehefin 2016 o elw a llifau arian parod y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol â Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol ag angenion Deddf Cwmnïau 2006.

Yr hyn yr ydym wedi archwilio

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Mantolenni Cyfunol a Chwmni ar 30 Mehefin 2016.
- Y datganiad cyfunol o incwm a'r datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Datganiad cyfunol o lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Datganiadau cyfunol a chwmni o newidiadau mewn ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- Nodiadau parthed y datganiadau ariannol, sy'n cynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol a gwybodaeth esboniadol arall.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddir i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â safonau cyfrifyddu y Deyrnas Unedig gan gynnwys FRS102 sef "Y safon adroddiadau ariannol sy'n berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon" ("Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn Y Deyrnas Unedig") a'r gyfraith berthnasol.

Wrth ddefnyddio'r fframwaith adroddi ariannol, mae'r cyfarwyddwyr wedi gwneud nifer o ddyfarniadau goddrychol, er enghraifft, mewn perthynas ag amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol. Wrth lunio amcangyfrifon o'r fath, maent wedi gwneud rhagdybiaethau sy'n ystyried digwyddiadau'r dyfodol.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion eraill y mae'n ofynnol i ni eu hadrodd trwy eithriad

Digonolrwydd y cofnodion cyfrifo, eu gwybodaeth a'r esboniadau a dderbyniwyd

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae'n ofynnol i ni datgan i chi os, yn ein barn ni; neu

- Nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom er mwyn i ni allu archwilio;
- Nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifo digonol neu nad ydym wedi derbyn cyfrifon sy'n addas i'n harchwiliad wedi eu derbyn o ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- Nad yw adroddiadau ariannol y cwmni yn cyd-fynd a'u cofnodion a ffurflenni cyfrifo.

Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'w hadrodd sy'n codi o'r cyfrifoldeb archwilio hwn.

Cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwyr

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni, nad yw datgeliadau penodol parthed cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr fel y nodir gan y gyfraith yn cael eu datgelu. Nid oes gennym unrhyw eithriadau sy'n codi o'r cyfrifoldeb archwilio hwn i'w hadrodd.

Cyfrifoldebau ar gyfer y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau y cyfarwyddwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn Natganiad cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr a nodir ar dudalen 39, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg.

Ein cyfrifoldeb ni yw i archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y DU ac Iwerddon) ("SAR (Y DU ac Iwerddon)"). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gydymffurfio â'r Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr yr osodwyd gan Y Bwrdd Arferion Archwilio

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau a gynhwysir, wedi ei baratoi ar gyfer, ac yn unig ar gyfer, aelodau'r cwmni fel corff yn unol â Phennod 3 o Ran 16 Deddf Cwmnïau 2006 ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r barnau hyn, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddynt neu i unrhyw un a all gael gafeal arno, ac eithrio pan gytunir yn benodol trwy ganiatâd ysgrifenedig gennym o flaen llaw.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL

I AELODAU
UNDEB RYGBI CYMRU CYFYNGEDIG



Yr hyn y mae archwiliad o ddatganiadau ariannol yn golygu

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae archwiliad yn golygu derbyn tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn rhesymol, a bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol a achoswyd drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o:

- os yw'r polisïau cyfrifo yn addas ar gyfer y Grŵp a'r Cwmni gan ystyried ei faint a'i sefyllfa ac os yw'r polisïau wedi cael eu gweithredu yn gyson ac yn ddigonol
- rhesymoldeb unrhyw amcangyfrifon cyfrifeg sylweddol a wnaed gan y cyfarwyddwyr; a
- chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Rydym yn bennaf yn canolbwyntio ein gwaith yn y meysydd hyn trwy asesu dyfarniadau y cyfarwyddwyr yn erbyn tystiolaeth sydd ar gael, yna rydym yn ffurfio ein barn ein hun ac yn gwerthuso'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol.

Rydym yn profi ac yn archwilio gwybodaeth, trwy ddefnyddio'r dechneg o samplu a thechnegau archwilio eraill i'r graddau yr ydym yn ystyried sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau sail resymol i ni allu dod i gasgliadau. Rydym yn derbyn tystiolaeth archwiliad trwy brofi effeithlonrwydd rheoliadau a gweithdrefnau sylweddol neu gyfuniad o'r ddau.

Yn ogystal â hyn, rydym yn darllen holl wybodaeth yr Adroddiad Blynnyddol gan gynnwys gwybodaeth nad yw'n ariannol i ni allu nodi unrhyw anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar, neu'n anghyson â'r wybodaeth a dderbyniwyd gennym yn ystod ein harchwiliad. Os ydym yn dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol sylweddol amlwg rydym yna yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

Jason Clarke BSc ACA(Uwch Archwilydd Statudol)
Dros ac ar ran PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd

27ain o Fedi 2016

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 30 MEHEFIN 2016



Noddwr a deiliaid Swyddfa:

Noddwraig

Ei mawrhydi y Frenhines Elizabeth II

Dirprwy noddwr

Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt

Llywydd

Dennis Gethin OBE

Llywodraethu rygbi Cymru

Prif weithred y Grŵp yw hyrwyddo rygbi ac annog rhagor o bobl i ymwneud â'r gêm yn amlach a gyda mwy o fwynhad a llwyddiant. Mae Bwrdd Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig (y "Bwrdd") yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth dros y prif weithgarwch. Mae'n sicrhau hwn trwy'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys 19 Cyfarwyddwr anweithredol ac un Cyfarwyddwr gweithredol. O'r 19 Cyfarwyddwr anweithredol, etholir 17 a phenodir dau gan y Bwrdd Etholir Cadeirydd anweithredol y Bwrdd o'r Cyfarwyddwyr anweithredol.

Bwrdd Gweithredol Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig

Cadeirydd Anweithredol:

Gareth Davies

Swyddog Gweithredol:

Martyn Phillips (Prif weithredwr y Grŵp) (penodwyd ar 1 Tachwedd 2015). Roger Lewis (ymddiswyddodd ar 31 Hydref 2015)

Swyddogion Anweithredol:

Alan Jones	(Is-Gadeirydd anweithredol) (penodwyd yn Is-Gadeirydd anweithredol ar 6 Hydref 2015)
Kenneth Hewitt	(Is-Gadeirydd anweithredol tan 6 Hydref, 2015) (ymddiswyddodd fel Cyfarwyddwr ar 29 Tachwedd 2015) (ymddiswyddodd ar 20 Awst 2015)
Mal Beynon	
Anthony Buchanan	
Gwyn Bowden	(penodwyd ar 4 Hydref 2015)
Martin Davies	
Geraint Edwards	
Gordon Eynon	
Humphrey Evans	(ymddiswyddodd ar 4 Hydref 2015)
Brian Fowler	
Robert Butcher	(penodwyd ar 4 Hydref 2015)
Tim Griffin	



Bryn Parker	(penodwyd ar 23 Chwefror 2016)
Russell Howell	(ymddiswyddodd ar 4 Hydref 2015)
Anthony John	
Alwyn Jones	
Ian Jeffery	(penodwyd ar 4 Hydref 2015)

Chris Morgan
Aileen Richards
Phil Thomas
Ray Wilton
David Young

Ysgrifennydd y cwmni

Gareth Williams

Grŵp Undeb Rygbi Cymru - Y Bwrdd Gweithredol

Y Cadeirydd:

Martyn Phillips (Prif Weithredwr y Grŵp) o 1 Tachwedd 2015). Roger Lewis (Prif Weithredwr y Grŵp) tan 31 Hydref 2015

Swyddog Gweithredol:

Geraint John	Pennaeth Perfformiad Rygbi (Penodwyd ar 1 Chwefror 2016)
Ryan Jones	Pennaeth Cyfranogiad at Rygbi (Penodwyd ar 15 Chwefror 2016)
Mark Killingley	Pennaeth digidol a chyfathrebu (Penodwyd ar 18 Mai 2016)

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 30 MEHEFIN 2016



Rhodri Lewis	Pennaeth Materion Cyfreithiol
Josh Lewsey	Pennaeth Rygbi (ymddiswyddodd ar 31 Rhagfyr 2015)
Craig Maxwell	Pennaeth Gwerthiannau a Marchnata y Grŵp
Julie Paterson	Pennaeth Gweithrediadau Rygbi
Steve Phillips	Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
John Williams	Pennaeth Cyfarthrebu (ymddiswyddodd ar 31 Rhagfyr 2015)
Mark Williams	Rheolwr Stadiwm

Pwyllgorau'r Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, agorodd y Bwrdd is-bwyllgorau er mwyn ei gynorthwyo yn ei fusnes. Mae rôl ac aelodaeth yr is-bwyllgorau fel a ganlyn:

Pwyllgor Penodiadau a chydabyddiaeth, ca gadeirir y pwyllgor gan Aileen Richards (penodwyd yn gadeirydd 6 Hydref, 2015), mae'n cynnwys Gareth Davies (yn gadeirydd tan 6 Hydref, 2015), Martin Davies, Alan Jones ac Ian Jeffery (penodwyd ar 15 Rhagfyr 2015). Er nad yw'n aelod, gwahoddir Martyn Phillips i fynychu'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor Penodiadau a Chydabyddiaeth yn penderfynu, ar ran y Bwrdd, tâl, telerau ac amodau Prif Weithredwr y Grŵp a'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cymryd rhan mewn adolygiadau ac mae'n argymhell penodiadau Gweithredol i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn dibynnu ar gyngor arbenigwr proffesiynol ac annibynnol pan fo angen.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg, a gadeirir gan Tim Griffin (penodwyd yn gadeirydd o 6 Hydref, 2015), mae'n cynnwys Martin Davies (yn gadeirydd tan 6 Hydref, 2015) a David Young (a benodwyd ar 3 Mehefin 2016) ac roedd yn cynnwys Dyfrig John a Geraint Davies fel aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau parthed y polisiau cyfrifyddu, adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol, rheolaeth risg ac i gysylltu ag archwilwyr y Grŵp.

Y Pwyllgor Cyllid, a gadeirir gan Martin Davies, mae'n cynnwys Gareth Davies, Martyn Phillips (penodwyd ar 6 Hydref 2015) (ymddiswyddodd ar 6 Hydref 2015), Kenneth Hewitt (ymddiswyddodd ar 29 Tachwedd 2015), Roger Lewis, Humphrey Evans (ymddiswyddodd ar 4 Hydref 2015), Ian Jeffery (penodwyd ar 6 Hydref 2015), Chris Morgan (a benodwyd ar 6 Hydref 2015), Tim Griffin (penodwyd ar 6 Hydref 2015), Aileen Richards (penodwyd ar 6 Hydref 2015) a Steve Phillips. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am holl faterion ariannol y Grŵp, heblaw am ymdrin ag archwilwyr y Grŵp.



Pwyllgor Rheoleiddio, a gadeirir gan David Young (penodwyd yn gadeirydd ar 12 Tachwedd 2015), mae'n cynnwys Mal Beynon (yn gadeirydd tan ei ymddiswyddiad ar 20 Awst 2015), Geraint Edwards, Gordon Eynon (ymddiswyddo ar 6 Hydref 2015), Brian Fowler, Russell Howell (ymddiswyddodd ar 4 Hydref 2015), Chris Morgan, Bryn Parker (a benodwyd ar 23 Chwefror 2016), Gwyn Bowden (penodwyd ar 6 Hydref 2015), Alan Jones (penodwyd ar 6 Hydref 2015), Ian Jeffrey (penodwyd ar 6 Hydref 2015 ac ymddiswyddodd ar 15 Rhagfyr 2015), Ray Wilton, a Julie Paterson. Mae'r Pwyllgor Rheoleiddio yn gyfrifol dros faterion disgyblu, rheoli'r holl gynghreiriau a rheoli unrhyw gystadlaethau cwpan sy'n weithredol.

Pwyllgor Rygbi, a gadeirir gan Anthony Buchanan (penodwyd yn gadeirydd ar 6 Hydref 2015), yn cynnwys Alan Jones (yn gadeirydd tan 6 Hydref, 2015), Phil Thomas, Anthony John, Alwyn Jones, Gordon Eynon (penodwyd ar 6 Hydref 2015), Robert Butcher (a benodwyd ar 6 Hydref 2015) a David Young (ymddiswyddodd ar 6 Hydref 2015). Yn ogystal, roedd aelodau'r pwyllgor nad oeddynt yn aelodau o'r Bwrdd yn cynnwys Ryan Jones (penodwyd ar 15 Chwefror 2016), Josh Lewsey (ymddiswyddodd ar 31 Rhagfyr 2015), Mike Rein, Ian Parker, a Martyn Ryan. Mae Mike Rein, Ian Parker a Martyn Ryan yn mynychu'r Pwyllgor Rygbi yn gyfnodol gan ddibynnu ar agenda'r cyfarfod. Yn ogystal, mae nifer o oelodau staff yn mynychu'r Pwyllgor Rygbi yn gyfnodol gan ddibynnu ar agenda'r cyfarfod. Mae'r Pwyllgor Rygbi yn gyfrifol am ddatblygiad y gêm ar bob lefel, gan gynnwys grwpiau oedran, hyfforddiant a dyfarnwyr.



Datblygiad llywodraethu corfforaethol

Mae'r Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygiad parhaus strwythurau llywodraethu, er mwyn cyrraedd anghenion esblygol rygbi undeb.

Mae'r Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol yn cydnabod gwerth y egwyddorion llywodraethu da. Mae'r Grŵp yn ymroi i fabwysiadu egwyddorion 'arfer gorau' llywodraethu corfforaethol. Bydd y Grŵp yn sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn cael eu hyfforddi yn y rôl o Gyfarwyddwr anweithredol gan sefydliad priodol (megis Sefydliad y Cyfarwyddwyr). Mae'r Grŵp yn ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad pellach y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gymaradwyo'r Fframwaith Arweinyddiaeth a Llywodraethu ar gyfer Cymru (y "Fframwaith") Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd yn ystyried gweithredu Egwyddorion ac Ymddygiadau y Fframwaith mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Grŵp ac sy'n ei alluogi i gynnal a gwella ymarfer da o lywodraethu ac arweinyddiaeth tu fewn i'r Grŵp.

Y Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol

Mae rhaniad cyfrifoldeb clir rhwng rôl y Cadeirydd anweithredol a Phrif Weithredwr y Grŵp. Mae cyfyngiad manwl o brotocol awdurdod ar waith ar gyfer y Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol. Mae gan bob aelod o'r Bwrdd Gweithredol swydd-ddisgrifiad manwl yn ogystal â chyfyngiadau i'w awdurdod.



Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn fisol ac mae'n ystyried pob mater o dan ei gylch gorchwyl gan gynnwys datblygu a monitro cynllun strategol y Grŵp, dyrannu adnoddau ariannol, adolygu perfformiad Prif Weithredwr a Bwrdd Gweithredol y Grŵp ac i gymeradwyo cyllidebau blynyddol. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn ystyried argymhelliadau is-bwyllgorau sefydlog y Bwrdd y mae eu cyfrifoldebau wedi eu nodi'n glir uchod.

Cydnabyddiaeth y Bwrdd

O dan polisi cydnabyddiaeth y Grŵp, nid oes ffioedd yn daladwy i aelodau'r Bwrdd anweithredol, ac eithrio'r Cadeirydd anweithredol sy'n derbyn ffi flynyddol o £ 50,000.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn cael ei gynrychioli ar gyrff rygbi eraill gan gynnwys Rygbi'r Byd, Pencampwriaeth Rygbi y Chwe Gwlad Cyfyngedig, Rygbi Clybiau proffesiynol Cyfyngedig, Cwpan Rygbi Ewrop Cyfyngedig, Y Llewod Prydeinig Cyfyngedig a Rygbi Celtaidd Cyfyngedig. Mae gan bob / rhai o'r cyrff yma polisi sy'n cynnig iawndal ariannol i'r cynrychiolwyr sy'n gwasanaethu ar y cyrff. Nid yw Cyfarwyddwr Gweithredol neu aelodau o Fwrdd Gweithredol y cyrff hyn yn cadw unrhyw iawndal o'r cyrff hyn.

Swyddfa gofrestredig

Stadiwm y Principiaity
Stryd Westgate
Caerdydd
CF10 1NS

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

Y BWRDD CYFARWYDDWYR AR GYFER
Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 30 MEHEFIN 2016



Cadeirydd Anweithredol Gareth Davies

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014 yn gynrychiolydd cenedlaethol ac fe'i hetholwyd yn Gadeirydd yn yr un flwyddyn. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a'r Pwyllgor Cyllid. Ef hefyd yw cadeirydd bwrdd Millennium Stadium CCC, mae'n aelod o Gyngor Rygbi'r Byd a Chyngor y Chwe Gwlad, yn un o gyfarwyddwyr Six Nations Rugby Limited a Chwmni Gweithgareddau Dynodedig y Llewod Prydeinig ac yn aelod o fwrdd EPCR.

Ac yntau'n gyn-wib-hanerwr rhyngwladol ac yn ymwelydd gyda'r Llewod Prydeinig ac Gwyddelig yn 1980, enillodd 21 o gapiau dros ei wlad a bu'n gapten ar Gymru ar bum achlysur.

Mae wedi cael swyddi gweithredol uwch gyda Dreigiau Casnewydd Gwent, CBI Cymru, BBC Wales, Clwb Rygbi Caerdydd, S4C, Cyngor Chwaraeon Cymru, y Post Brenhinol ac Awdurdod Datblygu Cymru - lle bu'n arwain y swyddfa yn Sydney, Awstralia – ac yn gyn-Ddeon Cyfadran ym Mhrifysgol Leeds Metropolitan.



Swyddog Gweithredol Martyn Phillips Prif Weithredwr y Grŵp

Fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr ar y Grŵp ym mis Gorffennaf 2015 a dechreuodd ar y swydd yr hydref yn y un flwyddyn. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

Mae'n aelod o Gyngor Y Chwe Gwlad, cyfarwyddwr o Gwmni Gweithgareddau Dynodedig y Llewod Prydeinig a Chwmni Gweithgareddau Dynodedig Rygbi Celtaidd.

Roedd yn arfer bod yn brif weithredwr ar gwmni B&Q ac yn gyfarwyddwr anweithredol o Hydrogen Group CCC.

Yn 2013 cafodd radd doethur er anrhydedd gan Brifysgol Solent Southampton am ei wasanaethau i fusnesau. Fe'i haddysgwyd yn ysgol ramadeg Abergwaun ac APCC yng Nghaerdydd cyn astudio yng ngholeg Brookes yn Rhydychen ac wedyn Coleg Templeton, Rydychen.

Tra roedd yn yr ysgol enillodd gapiau rhyngwladol dros Gymru ar lefel dan 15 blwydd oed ac roedd yn aelod o dîm dan 18 oed ysgolion Cymru cyn cynrychioli Colegau Cymru.



Is-Gadeirydd Anweithredol Alan Jones

Ymunodd â'r bwrdd yn 2003, cynrychiola Ardal D ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau, y Pwyllgor Rygbi a'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Chwaraeodd dros Brifysgol Birmingham a Bryncoch lle bu hefyd yn gapten. Mae'n aelod oes o'r clwb ar ôl bod yn aelod oes ers dros 20 mlynedd. Ef oedd cadeirydd y clwb am 10 mlynedd.

Roedd yn arbenigwr TG i Nwy Cymru, BP a BT. Cyflawnodd waith gwirfoddol i'r elusen Age Concern hefyd gan helpu pobl oedrannus i ddysgu sgiliau TG.

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

Y BWRDD CYFARWYDDWYR AR GYFER
Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 30 MEHEFIN 2016



Anthony Buchanan

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014 yn gynrychiolydd cenedlaethol, cadeiria'r Pwyllgor Rygbi ac mae'n aelod o Gyngor Rygbi'r Byd.

Enillodd y cyn-flaenwr i Gymru bum cap, gan gynnwys yn ystod Cwpan Rygbi cyntaf y Byd yn 1987. Chwaraeodd dros 230 o weithiau i Lanelli, cyn dod maes o law yn rheolwr tîm yn 1991 gan lywio'r clwb trwy'r cam o rygbi amatwr i'r gêm broffesiynol yn ystod 30 mlynedd o wasanaeth.

Gweithiodd yn wreiddiol yn ffitiwr yn y gwaith glo cyn newid rôl am swydd rheoli mewn cwmni cemegol.



Gwyn Bowden

Ymunodd â'r Bwrdd ar 4 Hydref 2015, cynrychiola Ardal B ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Chwaraeodd rygbi Ysgolion ac Ieuenctid dros yr Eglwys Newydd, cyn ymuno â thîm Ieuenctid Ffynnon Taf' lle'r aeth yn ei flaen i chwarae dros y tîm XV cyntaf a bu wedyn yn ysgrifennydd rhaglen a chadeirydd, ac mae'n aelod oes. Chwaraeodd hefyd dros dimau Beddau a Rhiwbina.

Daeth yn ddyfarnwr gydag Undeb Rygbi Cymru yn 1980 a mynd yn ei flaen i'r radd gyntaf cyn ymddeol yn 1999, gan ddod wedyn yn gynghorydd/hyfforddwr dyfarnwyr. Yn ystod y cyfnod hwn, ef hefyd oedd swyddog penodiadau dyfarnwyr ardal Caerdydd. Yn fwy diweddar, bu'n gwasanaethu yn Gomisiynydd Enwi mewn gemau yn y PRO12, Cwpan Ewrop a gemau rhyngwladol.

Ac yntau bellach wedi ymddeol, bu'n hunangyflogedig ym maes gweithgynhyrchu celfi ac roedd yn uwch ymgynghorydd dylunio ar gyfer cwmni cenedlaethol.



Martin Davies

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2003 yn gynrychiolydd cenedlaethol, ef yw cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'n aelod o Bwyllgor Rygbi Ewrop a bwrdd Millennium Stadium CCC.

Mae'n gyn-chwaraewr i Ieuenctid Caerdydd a Chwytraid Morgannwg a bu'n gwasanaethu'n ysgrifennydd Cymry Crawshays.

Mae'n gyfrifydd siartredig sydd wedi ymddeol a bu'n gweithio i PriceWaterhouseCoopers, Standard Chartered Banking Group a Hillsdown Holdings. Mae hefyd yn gyfarwyddwr cwmni gweithgynhyrchu preifat. Roedd yn gynghorydd yng Nghaerdydd am 29 mlynedd.

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

Y BWRDD CYFARWYDDWYR AR GYFER
Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 30 MEHEFIN 2016



Geraint Edwards

Ymunodd â'r Bwrdd yn 1993, cynrchiola Ardal E ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Mae'n aelod o fwrdd Millennium Stadium CCC.

Mae'n aelod oes o Ddyfnant ac yntau wedi bod yn aelod o'r clwb ers 55 mlynedd. Chwaraeodd dros dimau ieuencid a hŷn am 18 tymor cyn cyflawni rolau ysgrifennydd rhaglen am 25 mlynedd a chadeirydd am 10 mlynedd.

Mae'n gyn-wneuthurwr offer gydag ICI a Ford ac roedd yn rhan o'r tîm rheoli gweithgynhyrchu yn British Leyland am dros 25 mlynedd. Bellach mae wedi ymddeol.



Gordon Eynon

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2011, cynrychiola Ardal H ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rygbi.

Ar ôl chwarae rygbi ieuencid dros Arberth, cynrychiolodd Hendy-Gwyn-ar-Daf, Gwernyfed, Sir Frycheiniog, Quins Caerfyrddin a Chrymych ar lefel hŷn.

Bu'n brif hyfforddwr Crymych am dair blynedd cyn dod yn Ysgrifennydd y Clwb yn 1989, swydd sydd ganddo o hyd heddiw ac erbyn hyn mae'n aelod oes o'r clwb. Bu'n aelod o bwyllgor Dosbarth H er 1995 ac ef oedd cadeirydd y rhanbarth rhwng 2009 a 2011.

Mae'n gyn-athro ysgol ac ar hyn o bryd mae'n rhedeg fferm yn Sir Benfro.



Brian Fowler

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2002, cynruchiola Ddosbarth F ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Chwaraeodd rygbi dros Goleg Sant Luc Caer-wysg, Llanelli, Rhydaman, Brynaman a Thŷ-croes. Yn ddiweddarach bu'n ysgrifennydd Rhydaman am 23 mlynedd.

Ac yntau wedi ymddeol erbyn hyn, bu'n swyddog llywodraeth leol dros Gyngor Sir Caerfyrddin, ar ôl gweithio'n flaenorol i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol.



Robert Butcher

Ymunodd â'r Bwrdd ar 4 Hydref 2015, cynrychiola Ddosbarth B ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Dyn un clwb ydyw, ac yntau wedi bod yn gysylltiedig â Bargoed ers gadael ar ddiwedd y 1960au. Bu'n gapten am bum mlynedd yn olynol rhwng canol a diwedd y 1970au.

Pan ddaeth ei yrfa rygbi i ben, ymunodd â phwyllgor y clwb. Yn ei wasanaeth di-dor i'w annwyl dîm Bargoed, yn 2015 cwblhaodd ei 20fed fwyddyn yn ysgrifennydd anrhydeddus ar y clwb.

Ar ôl gadael y coleg, cymerodd swydd dysgu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Ymddeolodd yn ddiweddar yn ddirprwy bennaeth ar Ysgol Uwchradd Cyfarthfa.



Tim Griffin

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 yn gyfarwyddwr annibynnol nas etholwyd, mae'n gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

Ef yw Prif Swyddog Gweithredol Dell UK. Mae ei yrfa wedi cynnwys rolau rheoli uwch mewn nifer o gwmïau pwysig gan gynnwys PriceWaterhouseCoopers, NCR a'r BBC. Cyn dechrau ar ei rôl yn y DU, gweithiodd yn Singapore ac Awstralia mewn amrywiaeth o swyddi uwch yn Dell.

Mae ei wreiddiau yng Nghymru a chwaraeodd dros Drecelyn yn ogystal â gwasanaethu'n gapten ar Crosskeys a Sir Fynwy dan 23. Cynrychiolodd Brifysgol Caerdydd, Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Prydain hefyd.



Bryn Parker

Ymunodd â'r Bwrdd ar 1 Chwefror 2016, cynrychiola Ardal A ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Yn ystod gyrfa chwarae gynhyrchiol, chwaraeodd dros Flaenafon, Pont-y-pŵl, Talywaun, Garndiffaith a Chroesyceiliog. Bu hefyd yn rheoli ac yn hyfforddi Blaenafon, Tal-y-waun, Garndiffaith a Chroesyceiliog.

Bu'n ysgrifennydd anrhydeddus Cwmbrân ers 2006 ac yn rheolwr tîm Sir Fynwy ers 2004.

Mae'n gweithio'n fentor/cydllynydd ieuencid ar gyfer plant awtistig mewn ysgol leol a chyn hynny bu'n uwch weithredwr prosesau technegol a swyddog hyfforddi. Bu hefyd yn fentor/cydllynydd plant ar gyfer Plant mewn Angen.

Bu'n gynghorydd cymunedol yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac fe'i penodwyd yn gadeirydd yn ystod yn 2016.



Anthony John

Ailymunodd â'r Bwrdd yn 2012, cynrychiola Ardal G ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rygbi.

Mae hefyd yn Is-Lywydd Undeb Rygbi Ardal Llanelli, wedi gwasanaethu'n aelod pwyllgor ar gyfer Cydweli ers 30 mlynedd, ysgrifennydd rhaglen ers 10 mlynedd ac ef yw un o ymddiriedolwyr y clwb.

Ef oedd capten tîm cenedlaethol Zambia tra oedd yn gweithio yn y rhanbarth, a chwaraeodd dros Casllwchwr a Chydeweli. Gweithiodd yn rheolwr safle dros Ddŵr Cymru ar gyfer 33 mlynedd.



Alwyn Jones

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2012, cynrychiola Ddosbarth J ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rygbi.

Mae'n aelod ac yn gyn-chwaraewr, capten ac ysgrifennydd Bangor.

Cynrychiola Ogledd Cymru yn chwaraewr, ac roedd yn Ysgrifennydd ar Ardal J am 16 mlynedd.

Treuliodd Alwyn ei yrfa yn gweithio i CTHEM.

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

Y BWRDD CYFARWYDDWYR AR GYFER
Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 30 MEHEFIN 2016



Ian Jeffery

Ymunodd â'r Bwrdd ar 4 Hydref 2015, cynrychiola Ardal A ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a'r Pwyllgor Cyllid.

Mwynhaodd yrfa flaengar yn y sectorau adeiladu a datblygiad preifat, gan gyflawni swyddi ar fyrdau tri adeiladwr tai cenedlaethol, gan ddychwelyd yn ddiweddar i Barratt David Wilson Homes yn gyfarwyddwr masnachol isadrannol.

Dechreuodd chwarae rygbi yn 11 oed a dechrau chwarae rygbi hŷn yng Nghaer-wysg, gan symud i gynghreiriau Caerloyw cyn ymuno â Brynbuga yn 2004, gan ymddeol o'r gêm yn y pen draw yn 2011.

Tra oedd yn chwarae, gwasanaethodd hefyd ar bwyllgorau clybiau ar gyfer 24 mlynedd, gan ymuno â chyfarfodydd Ardal A yn 2010 yn gynrychiolydd ar gyfer Brynbuga.



Chris Morgan

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014, cynrychiola Ardal D ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Chwaraeodd rygbi dros Lyncorwg, Tonmawr a'r Môr-filwyr Brenhinol, cyn symud i'r amgylchedd hyfforddi lle mae ei brif gefndir ym maes cryfder a chyflyru. Mae wedi gweithio yn y maes hwn ar lefel yr Uwchgynghrair gydag Abertawe ac Aberafon, treuliodd dair blynedd yn y sefyllfa ranbarthol gyda thîm hŷn y Gweilch a chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o reoli a hyfforddi Tim Rygbi Byddariaid Cymru a enillodd Gwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd yn 2002.

Mae'n gyn-uwch swyddog heb gomisiwn yn y Môr-filwyr Brenhinol gyda 18 mlynedd o brofiad, gan gyflawni rhai penodiadau proffil uchel iawn yn ystod ei yrfa ddisglair.



Aileen Richards

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol nas etholwyd, mae'n gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau ac yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

Bu'n gweithio yn UDA yn Is-lywydd Gweithredol ac Is-lywydd Pobl a Threfnu Mars Incorporated. Maged hi y tu allan i Gaerdydd ac mae ganddi radd BSc Anrhydedd mewn astudiaethau busnes. Treuliodd ei gyrfa 30-mlynedd gyda Mars yn gweithio ar draws y strwythur rheoli mewn nifer o rolau proffil uchel yn y DU, Gwlad Belg ac UDA.

A hithau bellach wedi ymddeol, mae wedi dychwelyd i fyw i Lundain. Mae'n datgan ei bod yn gefnogwr brwd i rygbi Cymru ac mae ganddi docyn tymor ar gyfer Stadiwm Principality.



Phil Thomas

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015, cynrychiola Ardal E ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rygbi.

Yn frodor o Glydach, mae'n gyn-chwaraewr rhyngwladol dan 16 dros Ysgolion Cymru a chwaraeodd rygbi ieuenctid dros Dreforys cyn ymuno â Llanilltud Faerdref lle daeth yn ysgrifennydd y clwb, yn is-gadeirydd ac wedyn yn gadeirydd yn 2012.

Mae'n gweithio i Ddinas a Sir Abertawe.



Ray Wilton

Ymunodd â'r Bwrdd yn 1998, cynrychiola Ardal C ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Mae hefyd yn gomisiynydd enwi hyd lefel Gemau Prawf.

Mae'n aelod o bwyllgor Pendyrus ers dros 30 mlynedd a chynrychiolodd y clwb ar Bwyllgor Ardal y Canol er 1971. Daeth yn gadeirydd y dewiswyr Ardal y Canol.

Gweithiodd yn beiriannydd datblygu yn y diwydiant ynni a gweithiodd hefyd i Hoover am dros 30 mlynedd.



David Young

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014, cynrychiola Ardal B, ef yw cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio ac mae'n aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg y Pwyllgor Rygbi.

Chwaraeodd i dimau ieuenctid ac uwch Gogledd Llandaf ac yn dilyn anaf, ymunodd â'r pwyllgor yn ddiweddar yn ysgrifennydd rygbi, a chafodd aelodaeth oes ar ôl 23 blynedd o wasanaeth. Ar hyn o bryd mae'n ddewiswr, is-gadeirydd ac ysgrifennydd cystadlaethau ar gyfer Ardal y Dwyrain.

Mae'n beiriannydd trydanol siartredig sydd wedi ymddeol ac yn gyn-reolwr dylunio ac adeiladu ar gyfer Cyngor Caerdydd.



Ysgrifennydd Cwmni Gareth Williams

Ef yw partner hŷn Hugh James.

Mae'n arbenigo mewn ymglyfreitha rhyngwladol a chyfraith chwaraeon Bu gynt yn ddirprwy-farnwr ac yn gadeirydd Cymdeithas Cyfraith Fasnachol Cymru.

Ef yw cadeirydd bwrdd llywodraethwyr Prifysgol De Cymru, ac yntau wedi bod gynt yn gadeirydd ar fwrdd cyfarwyddwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol, ar Thomas Carroll Group CCC ac yn o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Elusennol Rygbi Cymru.

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

BWRDD GWEITHREDOL AR GYFER
Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 30 MEHEFIN 2016



Martyn Phillips
Prif Weithredwr y Grŵp

Penodwyd fel prif weithredwr y Grŵp ym mis Gorffennaf 2015 a dechreuodd y swydd yr hydref hwnnw. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

Mae'n aelod o Gyngor Y Chwe Gwlad, cyfarwyddwr Cwmni Gweithgareddau Dynodedig y Llewod Prydeinig a Chwmni Gweithgareddau Dynodedig Rygbi Celtaidd.

Roedd yn arfer bod yn brif weithredwr gweithredol ar gwmni B&Q ac yn gyfarwyddwr anweithredol o Hydrogen Group CCC.

Yn 2013 fe'i gwobrwywyd gyda gradd doethur er anrhydedd o Brifysgol Solent Southampton am ei wasanaethau i fusnesau. Fe'i haddysgwyd yn ysgol ramadeg Abergwaun ac APCC yng Nghaerdydd cyn astudio yng ngholeg Brookes yn Rhydychen ac wedyn Coleg Templeton, Rydychen.

Tra roedd yn yr ysgol enillodd gapiau rhyngwladol dros Gymru ar lefel dan 15 blwydd oed ac roedd yn aelod o dîm dan 18 oed ysgolion Cymru cyn cynrychioli Colegau Cymru.



Geraint John
Pennaeth Perfformiad Rygbi

Ymunodd â'r Grŵp yn 2015 a phenodwyd yn bennaeth Perfformiad Rygbi ym mis Ionawr 2016.

Roedd wedi dychwelyd i Gymru'r mis Medi blaenorol fel Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr Elitaidd y Grŵp ar ôl 10 mlynedd yn gweithio dramor gyda Rugby Canada fel Rheolwr Perfformiad Uchel ac yna Prif Hyfforddwr o'i dîm Rygbi Saith pob ochr cyn ymuno ag Undeb Rygbi Awstralia fel Cyfarwyddwr ei Raglen Saith Bob Och'r a Phrif Hyfforddwr tîm Saith Bob Och'r Dynion ym mis Mehefin 2014. Mae hefyd yn gyn hyfforddwr cynorthwyol Cymru ac mae hefyd wedi hyfforddi Llanelli, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a gleision Caerdydd.

Mae wedi chwarae dros Gaerdydd, Llanelli ac wedi chwarae ar bob lefel ysgol cyn mynd ymlaen i chwarae dros dîm A Cymru.



Ryan Jones
Pennaeth Cyfranogiad at Rygbi

Ymunodd â'r Grŵp ym mis Chwefror 2016

Enillodd 75 o gapiau, mae'n gyn-gapten ar Gymru a chyn-aelod o garfan y Llewod Prydeinig a Gwyddelig. Mae'n un o grŵp elitaidd o chwaraewyr sydd wedi ennill tair camp lawn gyda Chymru (2005, 2008 a 2012). Roedd hefyd yn allweddol yn ymdrechion ei wlad i amddiffyn ei thlws chwe gwlad yn 2013.

Roedd hefyd yn gapten ar y Gweilch rhwng 2007 a 2010 ac mae ganddo pedwar tlws Guinness Pro12 i'w enw ymysg cyflawniadau eraill.



Mark Killingley
Pennaeth Cyfarthrebu a Digidol

Ymunodd â'r Grŵp ym mis Mai 2016

Ymunodd o'r RFU lle roedd yn bennaeth ar yr adran rheoli ddigidol a chysylltiadau cwsmeriaid Yn ei rôl yno fe oruchwyliodd lansiad gwefan newydd wedd Rygbi Lloegr a gafodd ei ail-frandio yn ogystal â lansiad llwyfan digidol newydd sy'n ceisio cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn y gamp ar draws Lloegr cyn, yn ystod ac ar ôl Cwpan y Byd 2015.

Cyn ymuno â'r RFU, bu'n Gyfarwyddwr Marchnata'r Cynghrair Cenedlaethol Pêl-droed ("NFL") lle roedd yn gyfrifol am holl weithgaredd digidol a marchnata. Roedd hefyd yn gyfrifol am ddigwyddiadau arobryn a helpiwyd sefydlu'r NFL yn y DU i'r pwynt lle cynhelir nifer o gemau mewn blwyddyn sy'n derbyn ffigyrau gwylwyr sy'n uwch nag erioed.

Fe chwaraeodd dros Amersham & Chiltern, Prifysgol Leeds a Sir Buckinghamshire.



Rhodri Lewis
Pennaeth Materion Cyfreithiol

Ymunodd â'r Grŵp yn 2010

Fe ddechreuodd ei yrfa gyfreithiol yn y cwmni cyfraith ryngwladol - Freshfields Bruckhaus Deringer yn Llundain, cyn ymuno â'r adran cyfraith fasnachol yn UEFA (corff llywodraethu pêl-droed Ewropeaidd sydd wedi ei leoli yn y Swistir) lle roedd yn gweithio yn bennaf ar faterion a oedd yn ymwneud â Chynghrair y Pencampwyr, Cynghrair Europa a chynghreiriau pêl droed Ewropeaidd UEFA.

Fe adawodd UEFA er mwyn derbyn swydd fel Uwch-Gyfreithiwr Y FA lle roedd yn gyfrifol am ystod eang o faterion cyfreithiol a oedd yn ymwneud â'r gymdeithas Bêl-droed (gan gynnwys materion yn ymwneud â Chwpan y Byd FIFA 2010) a Stadiwm Wembley.

Chwaraeodd rygbi drwy gydol ei amser fel myfyriwr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a chwaraeodd rygbi dros Dinas Powys, dros dimau yn Llundain, Gwlad Thai, Hong Kong, Awstralia a'r Swistir ac i Brifysgol Llundain.



Craig Maxwell
Pennaeth Gwerthiannau a Marchnata y Grŵp

Ymunodd â'r tîm fel Pennaeth Gwerthiannau a Marchnata y Grŵp yn 2010.

Fe ymunodd o Under Armour lle roedd yn bennaeth marchnata chwaraeon y DU ers 2008 i'r gwmni sydd wedi ei wreiddio yn yr Unol Dolaethau. Tra oedd yn gweithio i Under Armour, bu'n gweithio ar lansiad brand esgidiau'r cwmni. Roedd hefyd yn rhan annatod wrth i'r cwmni adeiladu ei frand ar draws bob maes chwaraeon yn y DU ac Yr Iwerddon.

Fe weithiodd i'r Grŵp rhwng 2004 a 2008 mewn sawl rôl tu fewn i'r tîm lletygarwch cyn dod yn Rheolwr nawdd y Grŵp.

Chwaraeodd rygbi i Ysgol Gyfun Greenhill yn Ninbych y Pysgod ac i dimau uwch Doc Penfro, Arberth a Dinbych y Pysgod ar lefel uwch.

LLYWODRAETHU UNDEB RYGBI CYMRU

BWRDD GWEITHREDOL AR GYFER
Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 30 MEHEFIN 2016



OBITUARIES



Julie Paterson
Pennaeth Gweithrediadau Rygbi

Ymunodd â'r Grŵp yn 1989 a phenodwyd yn bennaeth gweithrediadau Rygbi ym mis Chwefor 2016.

Roedd hi arfer bod yn Bennaeth Cydymffurfiaeth y Grŵp ers 2005 a bu'n gwasanaethu mewn nifer o feysydd ar draws y busnes sy'n ymdrin yn uniongyrchol â materion strategol a gweithredol sy'n gysylltiedig â rheolaeth rygbi yn genedlaethol, rhanbarthol ac ar lefel clwb.

Mae hi hefyd yn gyfrifol am reoli'r system contractau cenedlaethol ar y cyd a gweinyddiaeth y Cytundeb Gwasanaethau Rygbi. Mae ei chylch gwaith yn cwmpasu cymorth i glybiau a thimau gweithredol, cysylltu â chyrff llywodraethu rygbi a rhanddeiliaid eraill yn ogystal â phartneriaid neu gymdeithion megis Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac awdurdodau lleol.



Steve Phillips
Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

Ymunodd â'r Grŵp yn 2007

Fe ymunodd o TBI sef un o'r perchnogion maes awyr rhanbarthol mwyaf y byd. Yn ei ddeng mlynedd yn gweithio i'r cwmni roedd yn weithgar yn caffael ar feysydd awyr ym Melfast, Sweden, Luton yn Llundain, Bolifia, Costa Rica, Awstralia a Gogledd America.

Cafodd ei hyfforddi gyda KPMG a chymhwysodd fel cyfrifydd siartredig yn 1989. Yn flaenorol, roedd yn Gyfarwyddwr Cyllid i Grŵp DU Tedcastle cyn ymuno â TBI fel Rheolwr Ariannol y Grŵp ac yna Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp.

Fe chwaraeodd rygbi dros Ysgol Uwchradd Ddyffryn Aman, Coleg Imperialaidd Llundain a Amman United lle roedd yn gapten ar y tîm cyntaf.



Mark Williams
Rheolwr stadiwm

Ymunodd â'r Grŵp yn 2013

Fe ymunodd â'r Grŵp ar ôl gyrfa filwrol a ymestynnodd dros 20 mlynedd lle dyrchafodd i'r rôl o Is-gyrnol rheng Y Cymry Brenhinol. Fe wasanaethodd ar nifer o deithiau ar ddyletswydd yng Ngogledd Iwerddon, Bosnia, Cosofo ac Irac a chafodd ei anrhydeddu ar gyfer ei weithredoedd yn ymladd yn Irac yn 2007.

Yn ystod ei yrfa filwrol fe dyrchafodd i rai o swyddogaethau milwrol mwyaf uwch eu proffil yn amgylcheddau hyfforddiant a gweithredol gan gynnwys amser fel Dirprwy ar Fataliwn, Cadlywydd Cwmni a Phennaeth Staff Grŵp brwydro ail bataliwn Y Cymry Brenhinol.

Fe chwaraeodd rygbi dros Goleg Castell-Nedd, Glyn-nedd a'i gatrawd.

Trevor Lloyd
(1925 – 2015)

Cyn-fewnwr Maesteg a Chymru, Trevor Lloyd oedd y cyn-aelod byw hynaf o'r Llewod Prydeinig a Gwyddelig adeg ei farwolaeth ddiweddar yn 91 oed. Teithiodd gyda'r Llewod yn Ne Affrica yn 1955.

Fe'i maged yn Nhau-bach, aeth i'r Eastern School a daeth yn weithredwr ffwrnais chwyth. Treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa yn chwarae dros Glwb Rygbi Maesteg ac roedd yn rhan o dîm "anorchfygol" 1949-50 na cholodd gêm gydol y tymor. Bu yn gapten ar y clwb bum gwaith rhwng 1948 a 1951 ac unwaith eto yn hwyrach rhwng 1953 a 1956.

Gwasanaethodd hefyd yn y Llynges Frenhinol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Llwyddiannus fu ei yrfa chwarae, a chynrychiolodd Gwmni Dur Prydain, Aberafan, Cwmafan a Bryste cyn gorffen ei yrfa gyda Quins Aberafan. Chwaraeodd hefyd dros Sir Forgannwg.

Enillodd ddau gap dros Gymru yn 1953. Y perfformiadau hynny pan enillwyd gemau yn erbyn Iwerddon a Ffrainc a arweiniodd y ffordd at ei ddewis dros dîm y Llewod yn 1955, pan ef oedd yr unig chwaraewr dros ei 30 i fynd ar y daith. Chwaraeodd Trevor chwe gwaith dros y Llewod, gan droi chwe chais yn erbyn Ardaloedd y Gogledd-ddwyrain.

Alan 'Algy' Thomas
(1940 - 2015)

Algy Thomas oedd un o sêr tîm Casnewydd y 1960au, gan chwarae 213 o gemau a sgorio 42 o geisiau. Blaen asgellwr garw ond ystwyth ydoedd, a daeth ei awr fawr yn 1963 a'i dact i arbed cais ar ddiwedd y gêm yn erbyn Seland Newydd a alluogodd Gasnewydd i gadw ei fuddugoliaeth enwog o 3-0 yn erbyn y Crysau Duon yn Rodney Parade.

Ar sail ei berfformiad yn y gêm honno, enillodd ddau gap dros Gymru - y cyntaf yn erbyn y Crysau Duon ac wedyn yn erbyn Lloegr ym Mhencampwriaeth Pum Gwlad 1964.

Dechreuodd chwarae dros Gasnewydd yn erbyn Penarth yn 1961 ac roedd yn elfen hollbresennol gan chwarae ym mhob un o'r 44 gêm. Chwaraeodd dros Gastell-nedd ar gyfer un tymor ac ymddangosodd hefyd yn lliwiau Tredegar, y bu'n gapten arno, Glynebwy, Crosskeys a Phont-y-pŵl.

Fe'i ganed yn Beckenham, Swydd Caint ac aeth i Ysgol Alexander, Beckenham, cyn ei symud yn efacwî o Lundain i Fochriw yn 1941. Aeth i Ysgol Ramadeg Bargoed ac Ysgol Pontlloctyn. Chwaraeodd hefyd dros dîm dan 23 Cymru, Siroedd y Gorllewin a Chymry Crawshays. Yn lowr ac wedyn yn rheolwr gwaith glo, aeth yn ei flaen i hyfforddi Saraseniad Casnewydd.

Ac yntau'n aelod brwd o Gymdeithas Cyn-chwaraewyr Casnewydd, cafodd ei gyflwyno i Oriel Anfarwolion Cwllw Rygbi Casnewydd.

Graham Powell
(1932- 2015)

Bu farw Graham Powell, y chwaraewr cyntaf o Glwb Rygbi Glynebwy i ennill cap, yn 84 oed. Dechreuodd ddysgu ei grefft ar y cae rygbi yn Ysgol Ramadeg Glynebwy a graddio'n fuan i dîm y dref ym Mharc Eugene Cross.

Helpodd y Dynion Dur i gipio Pencampwriaeth Cymru am y tro cyntaf yn 1951/52 a choroni hynny gyda llwyddiant pellach yn 1953/54 a 1956/57. Ef oedd capten tîm Glynebwy yn 1957/58 ac arweiniodd hefyd dîm cyfunol XV Abertyleri a Glynebwy a drechodd yr Awstraliaid ar eu taith yn 1958. Chwaraeodd yn erbyn Awstralia pan arweiniodd dîm cyfunol Abertyleri a Glynebwy i fuddugoliaeth 6-5 ym Mharc Abertyleri ar 8 Ionawr 1958 a sgoriodd dros 200 o bwyntiau yn ystod tymor 1958/59.

Enillodd ddau gap yn ystod ymgyrch Pum Gwlad 1957. Collodd Cymru ddwy gêm agoriadol y tymor yn erbyn Lloegr a'r Alban a daeth i mewn i'r tîm gyda Cyril Davies i greu cyfuniad newydd yn y canol yn lle Gareth Griffiths a Malcolm Thomas.

Cafodd ei gêm gyntaf yn erbyn Iwerddon ar 9 Mawrth 1957, a chyrraeddodd y Gwyddelod Gaerdydd ar ôl trechu Ffrainc a'r Alban. Cafodd y ddau gap newydd yn y canol i Gymru eu hunain yn chwarae yn erbyn capten hynod brofiadol Iwerddon, Noel Henderson, a'r athrylith Tony O'Reilly, ond aethant ati yn lew. Rhoddodd y 'Pump Mawr' bleidlais o hyder yn eu tîm buddugol ar gyfer gêm olaf y tymor, yn erbyn Ffrainc yn Stade Colombes.

Ganed Graham yn Waunlwyd, Glynebwy, ac roedd yn bencampwr amlochrog talentog. Chwaraeodd rygbi dros Brifysgolion Lloegr a threulio tair blynedd yn gweithio'n athro Ffiseg ar ôl gadael y brifysgol. Wedyn symudodd i ddiwydiant a chael gyrfa lwyddiannus dros ben.

Terry Cook
(1927 – 2016)

Bu farw Terry Cook, cyn-asgellwr Pont-y-pŵl a Chaerdydd a ddaeth yn chwaraewr rhyngwladol cod deuol, yn 88 oed.

Fe'i ganed ym Medwas, aeth i Goleg Technegol Tredegar Newydd a daeth yn ddrafftmon peirianyddol. Dechreuodd ei yrfa gyda Phont-y-pŵl a chwaraeodd dros XV cyfunol Pont-y-pŵl, Talywaun a Blaenafon yn erbyn yr Awstraliaid ar eu taith



ym Mharc Abertyleri ar 23 Rhagfyr 1947. Roedd Awstralia wedi colli i Gymru dridiau ynghynt a dim ond ennill o drwch blewyn 9-7 a wnaeth yr ymwelwyr.

Ymunodd â Chaerdydd o Bont-y-pŵl ar ddechrau tymor 1948/49 a chafodd effaith yn sythl. Chwaraeodd ei gêm gyntaf dros Gaerdydd adeg buddugoliaeth 11-10 yn Coventry ar 4 Medi 1948, a nododd ei gêm gyntaf gartref ym Mharc yr Arfau gyda thri chais yn y cweir 38-14 a roddwyd i Wasanaethau Devonport. Sgoriodd naw cais yn ei bum gêm gyntaf dros y Gleision a'r Duon a 24 ym mhob un o'r 27 gêm y tymor hwnnw. Dim ond unwaith oedd ar y tîm a gollodd ac aeth yn ei flaen i sgorio 20 cais pellach yn ymgyrch 1949/50 i ddiweddu ei yrfa ym Mharc yr Arfau gyda 44 o geisiau mewn 71 o gemau.

Roedd Williams wedi sgorio dau gais ym muddugoliaeth dros Loegr a Chaerdydd, ac roedd gêm ryngwladol nesaf Cook yn erbyn yr Alban ym Murrayfield ar 5 Chwefror 1949. Chwalwyd gobeithion Cymru am Goron Driphlyg bosibl gan yr Albanwyr, a enillodd 6-5, a cholli a wnaeth Cook yn ei ail gêm a'i olaf dros Gymru. Y tro hwn y Gwyddelod oedd yn ceisio'r Goron Driphlyg ar gae Sant Helen mewn gêm arw pan enillodd yr ymwelwyr 5-0.

Grahame Hodgson (1936 – 2016)

Bu farw Grahame Hodgson, cyn-gapten a hyfforddwr Castell-nedd, yn 79 oed. Ganed Grahame ym Mro Ogwr a bwriadodd ei brentisiaeth rygbi yn Ysgol Ramadeg Bro Ogwr a dechrau chwarae dros Gastell-nedd yn nhymor 1958/59 pan oedd yn dal i astudio yng Ngholeg Sant Luc, Caer-wysg. Enillodd 15 cap dros Gymru ac roedd ar yr ochr a enillodd Pencampwriaeth y Pum Gwlad yn 1966.

Cefnwr heb ei ail ydoedd a allai amddiffyn yn gadarn, sgoriodd dros 1,500 o bwyntiau mewn dros 400 o ymddangosiadau dros Gastell-nedd. Yn ystod ei yrfa dros Gastell-nedd enillodd ei blwyf yn un o gefnwyr mwyaf y clwb a chafodd ei wneud yn gapten yn 1964/65 a chynyddodd record pwyntiau'r clwb mewn tymor i 237 yn 1966/67. Chwaraeodd hefyd dros Goleg Sant Luc, Swydd Dyfnaint, Sir Forgannwg, y 'Welsh Academicals' a'r Barbariaid.

Chwaraeodd ei gêm gyntaf dros Gymru yn Lansdowne Road ar 17 Tachwedd 1962 ym Mhencampwriaeth y Pum Gwlad. Roedd yn un o bedwar cap newydd a rhagorodd drwy lwyddo cic gosb 50 llath a arweiniodd at gêm gyfartal 3-3. Dyna ddechrau cyfres o 11 ymddangosiad buddugol yn y crys Rhif

15 dros Gymru. Yn ei 15fed gêm a'i gêm olaf dros Gymru collwyd 3-0 i Iwerddon ym Mharc yr Arfau Caerdydd ar 11 Mawrth 1967 Enillodd bum gêm, collodd saith a chael tair gêm gyfartal dros Gymru a chiciodd bedair cic gosb.

Dechreuodd ei yrfa rygbi yn adran Addysg Gorfforol Ysgol Uwchradd Fodern Heol Gam (Ysgol Isaf Bryntaf erbyn hyn) a daeth yn ddirprwy bennaeth ar Ysgol Gyfun Bryntirion cyn ymddeol. Roedd hefyd yn aelod gweithgar o Gymdeithas Cyn-Chwaraewyr Castell-nedd a daeth yn gadeirydd ar Welsh Academicals.

Emlyn Davies (1922 – 2016)

Y cyn-flaenwr i Aberafan 94 oed oedd cyn-chwaraewr rhyngwladol hynaf Cymru a oedd yn para'n fyw adeg ei farwolaeth.

Fe'i ganed ym Mhort Talbot yn 1922, dysgodd chwarae rygbi yn Ysgol Ramadeg Maesteg ac aeth yn ei flaen i chwarae dros Gwmafon, Cymer, Glynorrwg cyn ymuno ag Aberafan. Chwaraeodd yn yr ail reng dros Gwmafon, yn faswr dros Lyncorrwg cyn symud i safle'r blaenwr pan ymunodd â'r Dewiniaid.

Dechreuodd ei fywyd gweithio yn was swyddfa yng Ngwaith Dur Port Talbot cyn ymuno â British Rail. Gwasanaethodd yn y Gwarchodlu Cartref yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Gwnaeth ymddangosiadau byr dros Abertawe a Maesteg, chwaraeodd dros 50 o weithiau dros Sir Forgannwg, cynrychiolodd Gymry Crawshay ac ennill y cyntaf o'i ddau gap dros Gymry yn erbyn yr ymwelwyr o Awstralia ym Mharc yr Arfau Caerdydd ar 20 Rhagfyr, 1947.

Ac yntau'n un o'r pedwar cap newydd y diwrnod hwnnw, helpodd Emlyn Gymru i ennill gêm ddiflas lle'r blaenwyr oedd yn rheoli, 6-0. Roedd y fuddugoliaeth yn fodd i Emlyn dalu'r pwyth yn ôl i'r Awstraliaid am drechu tîm cyfunol Aberafan a Chastell-nedd 19-9 ar y Gnoll ddeufis ynghynt. Enillodd ei ail gap yng ngêm olaf Pencampwriaeth Pum Gwlad 1948 yn erbyn Iwerddon yn Belfast. Roedd yn achlysur Camp Lawn i'r Gwyddelod wrth iddynt ennill pob gêm am y tro cyntaf gyda buddugoliaeth 6-3 o ddau gais i un.

Davies oedd capten Aberafan yn nhymor 1949/50 a gorffennodd ei yrfa yn ôl yng Nglynorrwg cyn ymuno â phwyllgor y clwb yn 1955. Bu farw ei wraig a'i fab mabwysiedig o'i flaen a threuliodd ei flynyddoedd olaf yng Nghartref Nyrso Arwelfa, Croeserw, Cymer.



PARTNERIAID MASNACHOL



Prif Bartneriaid



Partneriaid Swyddogol



Partneriaid Darlledu Swyddogol



Cyflenwyr Swyddogol





WELSH RUGBY UNION LIMITED & MILLENNIUM STADIUM PLC

PRINCIPALITY STADIUM, WESTGATE STREET, CARDIFF CF10 1NS
TEL: 08442 491 999 FAX: 029 2082 2474 E-MAIL: INFO@WRU.WALES WRU.WALES